Prifysgol Abertawe
Swansea University

## PRIFYSGOL ABERTAWE

# ÔL-RADDEDIG 2024



**CYLLID ÔL-RADDEDIG AR GAEL**
AR DRAWS YR HOLL FEYSYDD PWNC



# CROESO I *Abertawe*

Darganfydda fwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni Ôl-raddedig trwy gadw lle ar un o'n diwrnodau agored sydd ar ddod*.

**CADWA DY LE HEDDIW:** **abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**

*edrycha ar ein gwefan i gael manylion llawn, dyddiadau a fformat y diwrnodau agored sydd ar ddod.



## YN SAFLE 307
YN FYD-EANG O
BRIFYSGOLION UCHAF Y BYD

(QS World University Rankings 2024)

## 7FED YN Y DU ÔL-RADDEDIG

(Gwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni 2023)

## 5ED YN Y DU
SAFLE'R BRIFYSGOL YN SEILIEDIG AR
13,000+ O ADOLYGIADAU MYFYRWYR

(Safle Prifysgolion y DU www.universitycompare.com)

## 12FED YN Y DU PRIFYSGOL Y FLWYDDYN

(Gwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni 2023)

## 86%
O'N HANSAWDD YMCHWIL YN
ARWAIN Y BYD
NEU'N RHAGOROL
YN RHYNGWLADOL

REF2021 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021)

## 4YDD YN Y DU
## 47AIN YN Y BYD

(Times Higher Education Impact Rankings 2023)

# CYNNWYS


**06** DARGANFOD ABERTAWE

**08** MAPIAU'R CAMPWS

**12** YMCHWIL YM MHRIFYSGOL ABERTAWE

**16** GRADDAU ÔL-RADDEDIG A ADDYSGIR

**18** GRADDAU YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

**22** DY GYMUNED YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

**26** ISRADDEDIG I ÔL-RADDEDIG

**28** ARIANNU DY ASTUDIAETHAU

**34** CYN-FYFYRWYR

**36** BARN EIN MYFYRWYR

**40** LLETY

**44** GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD

**46** ASTUDIO A GWEITHIO DRAMOR

**48** MANTEISION ASTUDIO TRWY'R GYMRAEG

**50** ACADEMI HYWEL TEIFI

**52** UNDEB Y MYFYRWYR

**54** CHWARAEON

**61** CYNALIADWYEDD

**62** LLES A CHYMORTH MYFYRWYR

**64** DY GANLLAW I'R CYRSIAU

**65** CYRSIAU A-Y

**140** SUT I WNEUD CAIS

**142** RHESTR WIRIO'R CAIS




**gan yr Is-ganghellor, Yr Athro Paul Boyle**






# Croeso

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn falch o ddathlu cyfraniad sylweddol ein cymuned ôl-raddedig sy'n rhoi safbwynt newydd sy'n ysbrydoli ac yn cyfoethogi ein gwaith.

Gobeithiwn y byddi dithau'n gweld llawer i dy ysbrydoli yn nhudalennau'r prosbectws hwn ac yn ystyried ymuno â'n cymuned ffyniannus fel myfyriwr ac ymchwilydd.

Mae ymchwil ac arloesi wrth galon profiad Abertawe ac maent yn bwydo'n uniongyrchol i ansawdd ein haddysgu. Yn y prosbectws hwn, cyfeirir yn aml at effaith byd go iawn ein hymchwil, o wella gofal cleifion, i gyflymu'r trawsnewidiad i fyw heb gael effaith ar yr hinsawdd, ac yn rhoi pobl wrth wraidd gwelliannau digidol. Mae ein hymchwil yn gyson yn llywio polisïau sy'n effeithio ar Gymru a'r Gymraeg, gydag ymchwil i effaith y twf mewn ail gartrefi yng Nghymru ymhlith y diweddaraf i ddylanwadu ar gynlluniau ein llywodraeth.

Mae Prifysgol Abertawe wedi ennill cydnabyddiaeth fyd-eang ar ôl cael ei gosod yn safle 307 yn gyffredinol, ymhlith yr 21% gorau yn y byd o brifysgolion, yn y QS World University Rankings diweddaraf yn 2024. Rydym yn y 7fed safle yn y DU (Ôl-raddedig) ac yn 12fed yn gyffredinol ar gyfer Prifysgol y Flwyddyn yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr What Uni 2023, y gwobrau prifysgol blynyddol mwyaf yn y DU, a bleidleisiwyd gan fyfyrwyr yn unig. Mae hyn yn dyst i'n hymrwymiad i ragoriaeth academaidd a sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael profiad prifysgol eithriadol.

Rydym hefyd yn darparu amgylchedd cydweithredol a chefnogol i ymchwilwyr ôl-raddedig wneud darganfyddiadau sy'n torri tir newydd. Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2021), dyfarnwyd bod 91% o'n hamgylchedd ymchwil ac 86% o'n heffaith ymchwil yn arwain yn fyd-eang ac yn ardderchog yn rhyngwladol.

Roedd fy rôl academaidd gyntaf fel darlithydd ifanc ym Mhrifysgol Abertawe a gallaf dystio'n bersonol am ansawdd yr addysg a arweinir gan ymchwil a'r cymorth y byddi di'n ei dderbyn yma.

Gobeithiaf fod fy malchder yn ein Prifysgol yn glir ond paid â derbyn fy ngair i yn unig – cadwa le ar un o'n diwrnodau agored i gael rhagor o wybodaeth.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**


08


40


54


26

# Croeso!

## Siarad Abertawe?


Nid dinas a phrifysgol yn unig yw Abertawe, mae'n ffordd o fyw. Rydym yn sôn am y bobl, y lleoedd, y bwyd, y profiadau a'r atgofion…


Mae "Eiconau Abertawe" wedi cael eu dewis gan ein myfyrwyr o bob cwr o'r byd i ddisgrifio'r hyn sy'n gwneud Abertawe mor arbennig. O Varsity i Verdi's, Stryd y Gwynt i Fae Abertawe, mae’r cyfan gan Abertawe! Cadwa lygad allan am ein heiconau lliwgar ar y campws pan fyddi di'n ymweld, lle gelli di sganio codau QR i ymdrochi yng ngolygfeydd a synau Abertawe.

**DARGANFYDDA FWY:**

**abertawe.ac.uk/siaradabertawe**





GWYRDD A GWYN AM BYTH
DERE I GEFNOGI'R ELYRCH!
SWANSEA.COM
M4 & CAERDYDD
GORSAF ABERTAWE
PARC SINGLETON
CANOL Y DDINAS
STRYD Y GWYNT
A483
YSBYTY
PENTREF CHWARAEON
CAMPWS PARC SINGLETON
MARINA
CAMPWS Y BAE
AI HON YW STRYD ENWOCA' CYMRU?
JOE'S NEU VERDI'S HUFEN IÂ AMDANI
FAINT O'R GLOCH YW HI, MISTAR BAE?
Y MWMBWLS
GOLEUO DY FFORDD ADREF

# Darganfod
## ABERTAWE

Dere i ddarganfod mannau cudd hudolus i dynnu lluniau gwefreiddiol, llwybrau cerdded arfordirol trawiadol, llwybrau beicio mynydd o safon fyd-eang a thraethau arobryn. Mae'r cyfan ar garreg ein drws.



Castell Pennard, Traeth y Tri Chlogwyn, Gŵyr, Abertawe






Bannau Brycheiniog, Cymru

## AR GARREG Y DRWS

Ar Benrhyn Gŵyr, cei lonydd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y Deyrnas Unedig, ymlacio ar draethau arobryn ac archwilio harddwch naturiol cefn gwlad, ac mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog cwta 30 munud i ffwrdd yn y car. Mae'r rhanbarth yn cynnig rhai o leoliadau gorau'r DU ar gyfer cerdded ar lwybrau arfordirol, syrffio, beicio, chwaraeon dŵr, dringo creigiau a golff; i'r rhai sy'n mwynhau chwaraeon antur, neu os yw'n well gen ti dro hamddenol ar y traeth, mae rhywbeth at ddant pawb.

## SIOPA

Gelli di ddewis o siopau a brandiau mawr y stryd fawr a siopau bach annibynnol, siopau arbenigol ac arcedau traddodiadol. Gelli ymweld â siopau dillad dylunwyr yn y Mwmbwls, siopa am ddillad yr oes a fu yn Uplands, neu godi cynnyrch o Gymru ym marchnad dan do fwyaf Cymru yng nghanol y ddinas. Mae Siop Tŷ Tawe yng nghanol y ddinas yn gyfleus ar gyfer llyfrau, cardiau, anrhegion a nwyddau Cymraeg.

## CARTREF I DYLAN THOMAS

Fel y dywedodd mab enwocaf Abertawe, Dylan Thomas: "Abertawe yw'r gorau o hyd", a gelli ddilyn olion traed y bardd ledled y ddinas, o gaffis i dafarnau a pharciau. Er bod Abertawe yn gartref i Dylan Thomas, mae'n bwysig cofio am ein beirdd a llenorion Cymraeg sydd â chysylltiadau â'r ddinas a'r brifysgol. I enwi dim ond rhai, Grug Muse enillydd Llyfr y Flwyddyn 2022 (categori barddoniaeth), y Prifardd Tudur Hallam sy'n Athro yn yr Adran Gymraeg, Kate Bosse-Griffiths yr Eifftolegydd ac awdures, ac wrth gwrs, Saunders Lewis y dramodydd ac ysgolhaig adnabyddus.

## Y CELFYDDYDAU

Mae Abertawe'n ganolfan fywiog ar gyfer celf ac mae Oriel Glynn Vivian yn cael ei chydnabod yn eang fel prif leoliad arddangosfeydd celf yn y ddinas. Mae mynediad am ddim i holl amgueddfeydd ac orielau celf cenedlaethol Cymru, felly gelli ymdrochi yn ein hanes, neu gymryd rhan yn un o'r teithiau niferus sy'n cael eu trefnu gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

## CANOLFAN Y CELFYDDYDAU TALIESIN

Mae Canolfan y Celfyddydau Taliesin yng nghanol Campws Parc Singleton yn dangos ffilmiau'n rheolaidd, rhai poblogaidd a rhai mwy amgen eu natur. Mae ganddi gaffi a bar ac yma ceir y Ganolfan Eifftaidd arobryn sy'n gartref i gasgliad o dros 5,000 o arteffactau o'r Hen Aifft.

## CERDDORIAETH A GWYLIAU

Mae Cymru'n enwog fel 'gwlad y gân' ac fel myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, chei di ddim dy siomi gan y dewis o gerddoriaeth sydd ar gael yn y ddinas gan gynnwys y llu o gigiau Cymraeg ar draws y ddinas ac yn Nhŷ Tawe!

Mae Abertawe yn cynnal nifer o wyliau a digwyddiadau cerddorol mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae rhai enwau mawr wedi perfformio yn Arena Abertawe newydd sbon, ym Mharc Singleton a stadiwm Swansea.com gan gynnwys: Syr Elton John, The Kooks, Kaiser Chiefs, ac Anne-Marie.








**ACADEMI HYWEL TEIFI**

**BWS 24AWR** (yn ystod y tymor)
Tua 20 munud i Gampws y Bae,
10 munud i ganol y ddinas

**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU TALIESIN A'R GANOLFAN EIFFTAIDD**

**CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL**

**LLETY MYFYRWYR**

**LLYFRGELL PARC SINGLETON**

**MYUNIHUB**
Cynnig gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr; o arian, ymholiadau cwrs, i dai.

**PARC CHWARAEON BAE ABERTAWE**




**TŶ FULTON**
Sawl man gwerthu bwyd (gan gynnwys fegan), Greggs a Tortilla (bwyd Mecsicanaidd), a Harbwr Fulton - man cymdeithasol newydd sbon. Clwb nos, siopau, bar Undeb y Myfyrwyr, archfarchnad a siopau coffi.

**UNDEB Y MYFYRWYR**

**Y GOLEUDY** (lle tawel aml-ffydd, i ymlacio, neu gwrdd â ffrindiau)

**Y GYFADRAN MEDDYGAETH, GWYDDORAU IECHYD A BYWYD**

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH**
(BIOWYDDORAU, CEMEG, DAEARYDDIAETH, FFISEG)

**CYFLEUSTERAU ERAILL:**
- Caplaniaeth
- Doctor/Deintydd
- Golchdy
- Mosg




**BWS 24AWR** (yn ystod y tymor)
Tua 20 munud i Gampws Parc Singleton, 15 munud i ganol y ddinas

**CAMPFA A CHYFLEUSTERAU CHWARAEON**

**CUDDFAN GYMDEITHASOL ABERTAWE**
*(Swansea Social Hideaway)*

**CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL**
(YR YSGOL REOLAETH)

**LLETY MYFYRWYR**

**LLYFRGELL Y BAE**

**MYUNIHUB**
Cynnig gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr; o arian i ymholiadau cwrs, i dai




**UNDEB Y MYFYRWYR**

**Y COLEG**

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH**
(Y FFOWNDRI GYFRIFIADOL – CYFRIFIADUREG A MATHEMATEG)

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH**
(PEIRIANNEG A GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF)

**Y NEUADD FAWR**

**YR HAFAN** (lle tawel aml-ffydd, i ymlacio, neu gwrdd â ffrindiau)

**CYFLEUSTERAU ERAILL:**

• Archfarchnad • Golchdy • Siop goffi Coffeeopolis

TESCO COSTA COFFEE SUBWAY



# SBARDUNO RHAGORIAETH DRWY RANNU SYNIADAU

**O greu dur gwyrddach a glanach; troi plastig yn hydrogen; gwella iechyd y boblogaeth; gwarchod henebion hynafol i; herio a llunio polisi ynghylch tegwch a chydraddoldeb a sicrhau diogelwch unigolion a chymunedau ledled y byd, mae ein hymchwil yn helpu i atal gwrthdaro ac yn cynnig atebion i heriau byd-eang y byd modern.**

Gelli helpu i newid y byd a goresgyn heriau byd-eang ym Mhrifysgol Abertawe, drwy weithio gydag academyddion byd-enwog, lle ystyrir bod 91% o'n hamgylchedd ymchwil yn arwain at gynhyrchu ymchwil sy'n arwain y byd a chyfleusterau ymchwil rhagorol yn rhyngwladol.

**91%**

O'N HAMGYLCHEDD YMCHWIL YN ARWAIN Y BYD

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021)

REF2021 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

## DARLLEN MOMENTWM

a darganfydda fwy am ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cylchgrawn ymchwil pwrpasol:

**abertawe.ac.uk/ymchwil/cylchgrawn-momentwm**



GWRANDO **AR RAGLEN PODLEDIAD EMILY AR NEWID YN YR HINSAWDD**

**abertawe.ac.uk/ymchwil/cylchgrawn-momentwm**

## ALGÂU: Y PEIRIANNAU LLOWCIO NWY GWYRDD EFFEITHLON

**Dychmyga pe gallai technoleg greu coedwigoedd o goed dal carbon sy'n ymddolennu o amgylch safleoedd diwydiannol gan chwilio am Garbon Deuocsid ($CO_2$) fel Pac-Man newynog, gan fwydo'n awtotroffig ar yr elfen sy'n cyfrannu at y niwed i'r amgylchedd ledled y byd.**

Darllen erthygl Dr Emily Preedy yng nghylchgrawn Gwyddoniaeth a Pheirianneg Prifysgol Abertawe yma:

**online.flippingbook.com/view/137196162/9**




**86%** **ANSAWDD YMCHWIL GYFFREDINOL**

YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021)

REF2021 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

**Rydym yn cydnabod yr heriau byd-eang yr ydym i gyd yn eu hwynebu.**

O gynnal prosiect adfer morwellt mwyaf y DU, i hedfan yn uchel gyda chondorau yn yr Ariannin gyda SLAM (Labordy Abertawe ar gyfer Symudiad Anifeiliaid); i wella dealltwriaeth o ymrannu mynyddoedd iâ yn Antarctica a chreu adeiladau sy'n harneisio ac yn storio eu hynni eu hunain. Mae'n cymuned academaidd angerddol yn gweithio i frwydro yn erbyn effeithiau'r argyfwng hinsawdd ar gyfer y dyfodol.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/dyfodol-cynaliadwy**

**Mae ein hymchwil yn llywio polisïau iechyd byd-eang ac yn galluogi arloesi dyfeisiau, gwasanaethau a diagnosisau i hybu iechyd a lles da.**

A chan fod cyfleusterau a staff GIG Cymru mor agos, gall ein hymchwilwyr fanteisio i'r eithaf ar arbenigedd rhyngddisgyblaethol a chyfleusterau o'r radd flaenaf.

Mae ein hymchwil yn ymchwil drosi, gan drosglwyddo syniadau a dealltwriaeth o'r fainc ymchwil, i erchwyn gwely cleifion ac yn ôl eto. Rydym yn arloesi ffyrdd newydd o drin ac atal afiechydon, gwrthdroi stigma, a lleihau pwysau ar y GIG.




**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/arloesi-ym-maes-iechyd**

**Mae ein hymchwil yn rhoi pobl wrth wraidd datblygiadau technolegol.**

Mae ein hymchwil yn cynnwys ffocws ar hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr sydd â nam ar y synhwyrau; datblygu llwyfannau digidol i annog ymgysylltiad gwleidyddol; cadw plant yn ddiogel ar-lein a brwydro yn erbyn camddefnydd o'r cyfryngau ar-lein.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/dyfodol-digidol**







**Mae ein hymchwil yn canolbwyntio ar lywodraethu amddiffyn busnesau bach canolig, hawliau dynol a chyfiawnder troseddol.**

Mae ein hymchwil yn cael ei hwyluso gan grwpiau ymchwil a chanolfannau fel y Ganolfan Ymchwil i Seiberfygythiadau, y Sefydliad Cyfraith Llongau a Masnach Ryngwladol, yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a'r Grŵp Ymchwil Llywodraethu a Hawliau Dynol.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/cyfiawnder-a-chydraddoldeb**

**Gan weithio gyda phartneriaid ac arbenigwyr yn eu maes, gall ein hymchwilwyr wneud prosesau gweithgynhyrchu'n fwy effeithlon i wella cynhyrchiant, gan leihau gwastraff ac arbed ynni ac arian.**

Yn gartref i brosiectau fel ASTUTE sy'n galluogi lefelau uwch o arloesedd busnes ym maes gweithgynhyrchu a gyda chanolfannau rhagoriaeth byd-enwog fel Canolfan Zienkiewicz ar gyfer Peirianneg Gyfrifiadol, rydym yn helpu diwydiant i fod yn fwy cynaliadwy.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/gweithgynhyrchu-clyfar**



**Rydym yn gweithio gyda chymunedau lleol a byd-eang i ddiogelu hanes, dylanwadu ar bolisi ac annog diwylliannau agored a meithringar.**

O ddiogelu safleoedd treftadaeth ddiwylliannol; i lywio a gwella polisi addysg; hyrwyddo dealltwriaeth well o rôl cyfryngau digidol mewn bywyd cyfoes, mae ein hymchwil yn mynd i'r afael â'r materion a'r problemau allweddol.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/diwylliant-cyfathrebu-a-threftadaeth**







**Mae ein hymchwil i ddur wedi arwain at ddatblygu dur ysgafnach, gwyrddach, mwy clyfar a phroses gynhyrchu lanach, gan helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.**

Mae ein campws gwerth miliynau o bunnoedd, sy'n gartref i brosiectau fel SPECIFIC, ac yn agos at bartneriaid y diwydiant Tata Steel, wedi ein galluogi i weithio ar draws disgyblaethau i greu a datblygu atebion posibl i'r argyfwng hinsawdd.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/arloesedd-dur**



GWRANDO AR EIN :

**PODLEDIADAU**

## ARCHWILIO PROBLEMAU BYD-EANG

**Lawrlwytha nawr:**

**abertawe.ac.uk/ymchwil/podlediadau**




# Graddau Ôl-Raddedig A ADDYSGIR

Mae graddau ôl-raddedig a addysgir yn fwy heriol yn academaidd na rhaglenni israddedig. Mae angen mwy o ddysgu hunangyfeiriedig ac fe'u dyfernir i fyfyrwyr sy'n dangos dealltwriaeth estynedig o bwnc penodol. Caiff graddau meistr eu cyflawni drwy gyfuniad o fodiwlau a addysgir a gwaith cwrs wedi'i asesu, a disgwylir i fyfyrwyr gwblhau prosiect ymchwil neu draethawd hir manwl.

Mae graddau meistr a addysgir yn gweithredu fel arfer ar sail modiwlau, sy'n golygu bod myfyrwyr yn dilyn cyfres o fodiwlau a addysgir sy'n werth cyfanswm o 180 o gredydau. Gellir ennill 120 o gredydau o fodiwlau a addysgir, a 60 o gredydau o'r traethawd hir.

Mae rhaglenni meistr a addysgir yn aml yn cynnwys cyrsiau sgiliau ymchwil a methodoleg a chyrsiau hyfforddi adrannol penodol, sy'n hanfodol i fyfyrwyr ar lefel meistr a'r rheini sy'n awyddus i barhau i astudio ar gyfer graddau uwch. Mae cyrsiau hyfforddi arbenigol ychwanegol hefyd ar gael yn ystod y flwyddyn academaidd. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Diploma Ôl-raddedig, rhaid i fyfyrwyr anelu at 120 o gredydau, neu 60 o gredydau ar gyfer Tystysgrif Ôl-raddedig. (Mae rheoliadau penodol yn berthnasol – noder nad yw pob rhaglen yn cynnig y cymwysterau ymadael hyn.)

**DEWIS RHAGLEN**

Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o raddau ôl-raddedig a addysgir, gan gynnwys MA, MSc ac LLM. Gelli ddilyn cwrs ôl-raddedig yn yr un pwnc â dy radd israddedig neu, mewn llawer o achosion, mewn pwnc arall.

## CYRSIAU TROSI

Os wyt ti am newid cyfeiriad dy astudiaethau neu lwybr gyrfa nad yw'n gysylltiedig â dy radd israddedig, rydym ni'n cynnig cyfle i ti astudio cwrs trosi. Mae'r cyrsiau hyn yn caniatáu i raddedigion o unrhyw faes pwnc astudio cwrs meistr ôl-raddedig heb unrhyw gymwysterau perthnasol blaenorol.


Mae gennym ddetholiad amrywiol o gyrsiau trosi ar gael ym maes cyllid, gwyddoniaeth, peirianneg, gwyddor iechyd, meddygaeth, y gyfraith, rheoli busnes a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

## A ALLAF ASTUDIO'N RHAN AMSER?

Fel arfer, gellir astudio ar gyfer rhaglenni Meistr, Diplomâu Ôl-raddedig a Thystysgrifau Ôl-raddedig yn llawn amser neu'n rhan amser mewn amrywiaeth eang o feysydd pwnc. Fe'th anogir i gysylltu â'r adran academaidd dan sylw cyn gwneud cais. Cadwa lygad am y symbol RhA ar ein tudalennau cwrs.

## ASESIAD DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae gen ti hawl cyflwyno dy waith trwy gyfrwng y Gymraeg.




## AI GRADD ÔL-RADDEDIG A ADDYSGIR YW'R DEWIS PRIODOL I MI?

**Ie, os wyt am wneud y canlynol:**

- Gwella dy ragolygon gyrfa
- Meithrin sgiliau newydd ac arbenigol
- Paratoi ar gyfer gradd ymchwil
- Datblygu dy wybodaeth bwnc o dy radd gyntaf
- Astudio pwnc newydd sbon



**LLWYBR CARLAM I FYFYRWYR PRESENNOL PRIFYSGOL ABERTAWE**

**DARGANFYDDA FWY:**
abertawe.ac.uk/ol-raddedig/sut-i-wneud-cais/llwybr-carlam

## LLWYBR CARLAM

Os wyt ti'n fyfyriwr presennol ym Mhrifysgol Abertawe, gelli di wneud cais i astudio ar gwrs Meistr cymwys drwy lwybr carlam. Dyma rai o'r manteision allweddol wrth wneud cais trwy Lwybr Carlam:

- Nid oes rhaid i ti ddarparu dy drawsgrifiadau academaidd na ddatganiad personol
- Bydd dy gais yn cymryd blaenoriaeth
- Byddi di'n derbyn penderfyniad o fewn 48 oriau gweithio

# Graddau Ymchwil
## ÔL-RADDEDIG

Mae graddau ymchwil yn rhaglenni academaidd heriol sy'n gofyn i ti astudio pwnc yn fanwl am gyfnod parhaus o amser. Drwy ddyfarnu doethuriaeth neu radd ymchwil arall, cydnabyddir ymrwymiad ymgeiswyr llwyddiannus, y sgiliau lefel uchel a feithrinwyd ganddynt, a'u gallu i gyflwyno gwaith ymchwil gwreiddiol sy'n datblygu dealltwriaeth o'r pwnc dan sylw.

Fel myfyriwr ymchwil, byddi di'n ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant mewn dulliau ymchwil cyn dechrau ar dy raglen ymchwil. Bydd gen ti oruchwylydd academaidd a fydd yn llywio ac yn cefnogi cyfeiriad dy waith ymchwil drwy gydol y cwrs gradd, a bydd cyd-oruchwylydd yn cynnig cymorth ychwanegol fel y bo angen.












## DEWIS PWNC YMCHWIL

Mae graddau ymchwil, yn enwedig ar lefel MPhil a PhD, yn wahanol iawn i raglenni israddedig a rhaglenni meistr a addysgir gan nad oes rhestr ddiffiniedig o gyrsiau i ddewis o'u plith. Gellir astudio graddau MPhil a PhD ar unrhyw bwnc academaidd, ar yr amod bod gan y gyfadran rwyt yn gwneud cais iddi yr arbenigedd i lywio a goruchwylio dy astudiaethau.

Hyd yn oed os wyt wedi meddwl am gynnig ymchwil mwy datblygedig, rydym yn argymell y dylet gysylltu â'r Tiwtor Derbyn perthnasol er mwyn cael cyngor.

Caiff darpar ymgeiswyr eu paru â darpar oruchwylwyr ar gam cynnar o'r broses. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Dy fod yn cael y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnat i benderfynu p'un ai gradd ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe yw'r dewis cywir i ti.
- Bod y goruchwylydd yn frwdfrydig ynghylch y pwnc ac wedi'i gymell ganddo.
- Dy fod yn symud yn ddidrafferth i grŵp ymchwil priodol (lle y bo'n berthnasol).
- Dy fod yn cwblhau dy waith ymchwil ac yn ei ysgrifennu o fewn y terfyn amser gofynnol.

**91%** REF2021 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

**O'N HAMGYLCHEDD YMCHWIL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL**

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021)

## AI GRADD YMCHWIL YW'R DEWIS PRIODOL I MI?

**Ie, os wyt am wneud y canlynol:**

- Dilyn gyrfa yn y byd academaidd neu ymchwil
- Archwilio pwnc unigol yn fanwl
- Meithrin sgiliau ymchwil helaeth ac arbenigol
- Gwella dy ragolygon gyrfa

## CYFLEOEDD

- Mae interniaethau a chyfleoedd lleoliad gwaith ar gael i hybu dy sgiliau cyflogadwyedd ac ymchwil.
- Rolau cynorthwyydd addysgu â thâl ar gael yn gweithio o dan arweinwyr modiwl, i gyfrannu at gyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel.
- Datblygu sgiliau addysgu ac ehangu dy wybodaeth am addysgu mewn Addysg Uwch.
- Gwella dy sgiliau cyflogadwyedd a pharatoi ar gyfer rolau academaidd yn y dyfodol.
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau allgymorth ac ysbrydoli disgyblion ysgol gyda dy ymchwil dy hun.

## OES GEN TI UNRHYW GWESTIYNAU?

Mae'r Swyddfa Derbyn Ôl-raddedig yn hapus i dy gynghori ynghylch a yw dy gymwysterau'n addas ar gyfer mynediad i'r cwrs yr hoffet eu hastudio. Am ragor o wybodaeth anfona e-bost at:

**pgadmissions@abertawe.ac.uk**

## PA RADD YMCHWIL?

Mae'r Brifysgol yn cynnig nifer o raddau ymchwil, gan gynnwys:

**PhD:** Mae myfyrwyr PhD yn ymgymryd â gwaith ymchwil wedi'i oruchwylio dros gyfnod rhwng tair a phedair blynedd yn llawn amser neu rhwng chwech a saith mlynedd yn rhan amser. Wedyn, caiff y gwaith ymchwil ei gyflwyno ar ffurf thesis heb fod yn fwy na 100,000 o eiriau. Rhaid i'r thesis ddangos gallu'r myfyriwr i ymdrin â'r cynnig ymchwil gwreiddiol a dylai wneud cyfraniad penodol a sylweddol at y pwnc. Defnyddir y flwyddyn gofrestru gyntaf ar gyfer PhD fel cyfnod prawf swyddogol, a chaiff yr ymgeisydd ei asesu gan yr adran cyn y gall barhau â'r gwaith ymchwil.

**MPhil:** Gellir ei gwblhau drwy astudio am gyfnod rhwng dwy a thair blynedd yn llawn amser (rhwng pedair a phum mlynedd yn rhan amser). Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno thesis hyd at 60,000 o eiriau a chânt eu hasesu ar ffurf arholiad llafar (viva). Yn amodol ar ofynion academaidd, gall fod cyfleoedd i fyfyrwyr uwchraddio o'r radd MPhil i PhD yn ystod eu hastudiaethau.

**MA/MSc drwy Ymchwil:** Fel arfer, un flwyddyn yn llawn amser, rhwng dwy a thair blynedd yn rhan amser. Prosiect ymchwil unigol yw'r prosiect hwn a gaiff ei ysgrifennu i greu thesis o 30,000 o eiriau.

**MRes:** Nod MRes (Meistr Ymchwil) yw darparu hyfforddiant perthnasol er mwyn meithrin y wybodaeth, y technegau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar gyfer gyrfa broffesiynol, neu er mwyn symud ymlaen i astudiaethau academaidd uwch, PhD fel arfer. Cyflawnir MRes drwy gyfuniad o fodiwlau a addysgir (gwerth 60 o gredydau) a thesis ymchwil sy'n cyflwyno canlyniad prosiect ymchwil sylweddol (gwerth 120 o gredydau).

**DBA:** Mae'r Ddoethuriaeth Broffesiynol mewn Rheoli (DBA) fel arfer yn rhaglen pedair blynedd ar sail ran amser sy'n cynnwys chwe modiwl a thesis. Mae pob modiwl wedi'i strwythuro ar sail bloc addysgu dwys dros dri diwrnod yn ogystal ag amrywiaeth o gymorth ar-lein gan y timau addysgu a'r goruchwylwyr doethurol. (Am wybodbaeth am y cwrs - gweler tudalen 123).

**EdD:** Mae'r cwrs gradd Doethuriaeth Broffesiynol mewn Addysg (EdD) yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymdrin â materion ym maes addysg mewn ffordd broffesiynol a beirniadol ar lefel ddoethurol. (Am wybodaeth am y cwrs – gweler tudalen 65).

**EngD:** Mae'r Ddoethuriaeth Peirianneg yn arfogi graddedigion â'r sgiliau a'r profiad i fod yn arweinwyr diwydiant ac academaidd ac mae wedi'i chefnogi gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC). Mae'r rhaglen ymchwil ddoethurol pedair blynedd o hyd yn cynnwys prosiect ymchwil a arweinir gan ddiwydiant wedi'i hategu gan fodiwlau sgiliau technegol, ymchwil a phroffesiynol sy'n cael eu hasesu drwy gyfuniad o aseiniadau gwaith cwrs ac arholiadau. Mae 'Peirianwyr Ymchwil' yn gwneud eu hymchwil mewn cydweithrediad â phartner

diwydiannol a Phrifysgol Abertawe a chaiff y prosiect ei ysgrifennu ar ffurf thesis uchafswm o 100,000 gair a'i asesu drwy arholiad llafar (viva voce).

**MD:** Yn ogystal â'r PhD, mae'r Ysgol Feddygaeth yn cynnig gradd ôl-raddedig Doethur mewn Meddygaeth (MD) drwy waith ymchwil wedi'i oruchwylio o fewn grwpiau ymchwil unigol.

**DProf:** Pedair blynedd yn llawn amser, chwe blynedd yn rhan amser fel arfer. Mae Doethuriaeth Broffesiynol yn radd ymchwil wedi'i strwythuro o amgylch maes arfer proffesiynol penodol. Byddi di'n dilyn rhaglen astudio o dan gyfarwyddyd, gan gynnwys cyfnodau o ymarfer a hyfforddiant proffesiynol/diwydiannol cymeradwy, ynghyd â rhaglen ymchwil. Mae'r trefniadau asesu yn cynnwys thesis o 80,000 o eiriau.

Mae'r radd yn sicrhau bod proffesiwn a gweithle'r ymgeisydd yn rhyng-gysylltu drwy'r rhaglen gyfan, er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil a gynhelir yn berthnasol i'w ymarfer a'i weithle.

## A ALLAF ASTUDIO'N RHAN AMSER?

Mae astudio'n rhan amser yn bosib i fyfyrwyr y DU a rhyngwladol*, ond anogwn i ti gysylltu â'r adran academaidd dan sylw i ofyn cyn cyflwyno cais.

Cadwa lygad am y symbol RhA ar ein tudalennau cwrs.

*Edrych ar ein gwefan i ddarllen yr amodau.

## DYFARNIAD RHAGORIAETH YMCHWIL ADNODDAU DYNOL

Mae Prifysgol Abertawe yn falch o ddal Dyfarniad Rhagoriaeth Ymchwil AD y Comisiwn Ewropeaidd mewn cydnabyddiaeth o'n hymrwymiad i gefnogi datblygiad gyrfa staff ymchwil.

Rydym ni'n cydnabod y rôl hanfodol y mae staff ymchwil yn ei chwarae yn ein hymchwil sy'n rhagorol yn rhyngwladol ac yn arwain yn fyd-eang. Mae llwyddiant ein staff ymchwil yn sylfaen i'n huchelgais a fydd yn sbarduno ansawdd ymchwil, yn creu amgylchedd addas er mwyn i ymchwil ffynnu, gan sicrhau y caiff effaith ein hymchwil ei chynyddu i'r eithaf. I'r diben hwn, rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd a diwylliant sy'n wirioneddol gefnogol, lle gall ymchwilwyr ffynnu yn broffesiynol ac yn bersonol.

HR EXCELLENCE IN RESEARCH



# DY GYMUNED YMCHWIL
# Ôl-Raddedig

Mae Abertawe'n gartref i gymuned ymchwil ffyniannus sy'n cyfuno ymchwil o safon fyd-eang ag ethos croesawgar, cynhwysol a chydweithredol ynghyd â phwyslais ar ymchwil sy'n cynnig buddion go iawn i'n byd.

Mae ein swyddfa ymchwil ôl-raddedig yn cydlynu gweithgareddau ôl-raddedig rhyngddisgyblaethol a chymorth ar draws y Brifysgol. Rydym yn gweithio i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y profiad gorau posib drwy ddarparu mynediad at gyfleoedd cyllid a datblygu, darparu hyfforddiant ac adnoddau i dy gefnogi i ddatblygu dy sgiliau proffesiynol a dy sgiliau ymchwil a thrwy gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau a arweinir gan fyfyrwyr.

**DY GEFNOGI I DDATBLYGU**
Rydym yn cynnig rhaglen hyfforddi a datblygu gynhwysfawr i ymchwilwyr ôl-raddedig, gan dy gefnogi i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r rhinweddau er mwyn rhagori yn dy ymchwil a dy yrfa yn y dyfodol.

**FFRAMWAITH HYFFORDDIANT**
Mae ein fframwaith hyfforddiant, sy'n cynnwys deg thema wahanol, wedi'i gynllunio i gefnogi dy ddatblygiad fel ymchwilydd a dy ddatblygiad proffesiynol ar bob cam yn ystod dy ymgeisyddiaeth.



**DARGANFYDDA FWY:**
abertawe.ac.uk/ymchwil/gwnewch-ymchwil-gyda-ni/ymchwil-ol-raddedig



## Y DEG THEMA HYFFORDDIANT:

- Addysgu ac Arddangos
- Arweinyddiaeth a Gweithio gydag Eraill
- Cyflwyno ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Cynllunio Gyrfa a Chynnydd
- Diogelwch, Uniondeb a Moeseg
- Dulliau Ymchwil
- Effaith a Masnacheiddio
- Gwytnwch, Datrys Problemau ac Effeithiolrwydd Personol
- Rheoli Gwybodaeth a Data
- Ysgrifennu Academaidd

Mae pob thema yn cynnwys gweithdai, adnoddau a chyfleoedd ar lefelau gwahanol, yn unol â cham dy ymgeisyddiaeth neu lefel dy brofiad:

**Ymgysylltu:** Cyflwyno myfyrwyr sydd newydd ddechrau eu hymgeisyddiaeth i'r offer angenrheidiol i sicrhau bod eu taith ymchwil yn dechrau yn y ffordd orau bosib.

**Archwilio:** Datblygu sgiliau i'r rhai sydd yng nghanol eu hymgeisyddiaeth, gan gyflwyno technegau ac offer ymchwil newydd, archwilio effaith ymchwil a'u cefnogi i ymgysylltu â'r gymuned ymchwil ehangach.

**Ehangu:** Cefnogi myfyrwyr sy'n agos at ddiwedd eu gradd ymchwil i gwblhau eu hymchwil a chynllunio am eu dyfodol, boed yn y byd academaidd neu ar lwybr arall.






GŴYL YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

# PRIFYSGOL ABERTAWE

## EIN DATHLIAD BLYNYDDOL O GYMUNED YMCHWIL ÔL-RADDEDIG ABERTAWE

**• CYSTADLEUAETH POSTER YMCHWIL ÔL-RADDEDIG •**
**• CYSTADLEUAETH THESIS TAIR MUNUD •**
**• SEREMONI WOBRWYO YMCHWIL ÔL-RADDEDIG •**

**MEDDWL AM YRFAOEDD, CIPOLWG AR YMCHWIL, GWEITHDAI YSGRIFENNU, YMCHWILWYR ÔL-RADDEDIG YN TRAFOD ADDYSGU, ARDDANGOSFEYDD YMCHWIL RYNGDDISGYBLAETHOL, YMCHWILWYR ENTREPRENEURAIDD**

### Rhaglen Sgiliau a Datblygiad

Mae ein rhaglen datblygiad yn cynnwys amrywiaeth o elfennau, o hyfforddiant ffurfiol, i weithdai gydag arbenigwyr allanol, i gyfleoedd ymdrochi sy'n rhoi cyfle i ti roi dy sgiliau ar waith a myfyrio arnynt. Mae'r tîm ôl-raddedig yn gweithio'n agos gyda thimau arbenigol ar draws y brifysgol i ddarparu cymorth a gweithgareddau lles a gyrfaoedd sydd wedi'u teilwra i anghenion ymchwil ôl-raddedig. Hefyd, gall ymchwilwyr ôl-raddedig fanteisio ar gymorth pwrpasol i unigolion o bob rhan o'r sefydliad ar amrywiaeth o agweddau: gan gynnwys ymchwil, sicrhau grantiau a chyllid, a chyflogadwyedd.

### Cymuned Ymchwil

Mae'r Brifysgol yn gartref i gymuned amrywiol a chroesawgar o ymchwilwyr ôl-raddedig lle mae digwyddiadau rheolaidd sy'n cynnwys y brifysgol gyfan yn cynnig cyfle i rwydweithio a meithrin cysylltiadau y tu allan i dy arbenigedd.


Bydd ymchwilwyr ôl-raddedig hefyd yn ymuno â staff wrth gymryd rhan yn ein cystadleuaeth flynyddol, Ymchwil fel Celf, lle byddi'n cyfleu dy ymchwil mewn un llun a disgrifiad 150 o eiriau, gan ddarparu cyfrwng i esbonio pwysigrwydd dy ymchwil a helpu i ennyn diddordeb eraill mewn ymchwil.

### Cyllid

Rydym yn cynnig nifer o gyfleoedd ymchwil ôl-raddedig wedi'u hariannu'n llawn i fyfyrwyr sydd am astudio am PhD, MPhil, MRes neu radd Meistr drwy Ymchwil mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau.

**DARGANFYDDA FWY:**

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau/ysgoloriaethau-ymchwil-**



### Ysgoloriaethau a gwobrau rhagoriaeth ymchwil

Fel rhan o ymrwymiad Abertawe i gefnogi'r dalent ymchwil gorau rydym yn cynnig nifer o leoedd PhD wedi'u hariannu'n llawn ar draws disgyblaethau trwy ein rhaglenni blaenllaw: Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Ymchwil Prifysgol Abertawe (SURES) ac Ysgoloriaethau Ymchwil Partner Strategol Prifysgol Abertawe (SUSPRS).

Mae'r ddwy ysgoloriaeth yn cynnig nifer o leoedd PhD wedi'u hariannu'n llawn i ymchwilwyr sydd am ddatblygu eu syniadau, ochr yn ochr â darparu goruchwyliaeth ragorol a rhoi'r sgiliau i ymchwilwyr doethurol gwblhau eu traethawd ymchwil o fewn tair blynedd.

Fel rhan o'n portffolio rhagoriaeth, rydym yn cydnabod ac yn dathlu cyrhaeddiad academaidd drwy wobrau James Callaghan, sy'n darparu cyllid i alluogi myfyrwyr ymchwil yn Abertawe i ddatblygu eu hymchwil.

### Partneriaethau a chanolfannau hyfforddiant doethurol

Trwy gydweithio â phrifysgolion blaenllaw eraill a phartneriaid mewn diwydiant, rydym yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr arloesol mewn disgyblaethau sy'n rhoi pwyslais ar y dyfodol, o ddeallusrwydd artiffisial a gweithgynhyrchu deunyddiau, i'r gwyddorau cymdeithasol a pholisi.

Fel un o sefydliadau ymchwil mwyaf blaenllaw'r byd, rydym yn rhan o nifer o fentrau doethurol nodedig a ariennir gan UKRI sy'n dod ag ymchwilwyr ynghyd ac yn cefnogi ein myfyrwyr doethurol i ddod yn ymchwilwyr blaenllaw'r dyfodol, mewn amgylchedd cefnogol sy'n cynnig cyfleoedd datblygu ychwanegol, megis gweithio neu astudio dramor a lleoliadau gwaith gyda phartneriaid diwydiannol.





# ISRADDEDIG I
# Ôl-raddedig

**Mae llawer iawn o'r pedair mil o'n cymuned ôl-raddedig yn gyn-fyfyrwyr israddedig a wnaeth fwynhau eu hamser yn Abertawe cymaint, gwnaethant benderfynu aros!**

Mae llawer o fanteision i aros gyda ni yn Abertawe i astudio dy radd ôl-raddedig.

1. Byddi di eisoes yn gyfarwydd â'r Brifysgol, ei champysau a'r ardaloedd o amgylch.
2. Gan y byddi di eisoes wedi astudio gyda ni, byddi di'n gwybod am y lleoedd gorau i fyw, astudio, bwyta neu ymlacio!
3. Byddi di'n dal i allu cael mynediad at ystod eang o wasanaethau a gynigir gan adrannau megis Academi Cyflogadwyedd Abertawe, Academi Hywel Teifi, Y Ganolfan Llwyddiant Academaidd a MyUniHub.
4. Mae nifer o gyfleoedd i ti astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-raddedig gan roi mantais sylweddol i ti yn ariannol ac o ran dy gyflogadwyedd. Bydd parhau i astudio trwy'r Gymraeg wedi i ti astudio yn yr iaith ar lefel israddedig yn gam naturiol ymlaen i ti ac mae digon o gefnogaeth ar gael i dy alluogi i ddychwelyd at astudio yn y Gymraeg os na wnest ti hynny dros y blynyddoedd diwethaf.
5. Efallai dy fod eisoes yn adnabod sawl cyn-fyfyriwr ôl-raddedig, ac efallai y byddi di'n gallu parhau i fyw gyda'r bobl rwyt wedi rhannu fflat â nhw.
6. Mae ystod o gyrsiau trosi Abertawe yn dy alluogi i astudio ar gyfer dy radd ôl-raddedig mewn maes pwnc newydd sbon.
7. Os wyt yn dewis astudio'r un maes pwnc, gelli barhau i adeiladu ar dy berthynas waith gyda darlithwyr a mentoriaid academaidd, gan ddatblygu dy wybodaeth arbenigol.
8. Fel myfyriwr presennol yn Abertawe, byddi di'n cwblhau ffurflen gais fyrrach ar gyfer dy gwrs meistr dewisedig* trwy Lwybr Carlam.

* Mae cyfyngiadau cwrs yn berthnasol

**Mae rhai o'n myfyrwyr presennol yn rhannu eu profiadau o drosi o astudiaethau israddedig i ôl-raddedig isod:**



## CHLOE THOMAS

**TAR Uwchradd gyda SAC, TGCh/ Cyfrifiadureg**

"Fe wnes i fy nghwrs israddedig mewn Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Abertawe ac wedyn dechreuais i fy nghwrs TAR yn arbenigo mewn TGCh/Cyfrifiadureg. Rwyf hefyd wedi cael profiad yn addysgu mathemateg. Bydd hyn yn rhan o fy rôl yn fy swydd ym mis Medi. Mae Prifysgol Abertawe yn le arbennig i astudio a'r darlithwyr yn arbenigwyr angerddol sy'n gyfeillgar ac yn dy annog i gyrraedd dy lawn botensial. Roedd y lefel o gymorth gefais i cyn hyd yn oed dechrau'r cwrs yn swyddogol yn wych. Mae'r tîm Addysg yn arbenigwyr yn y maes ac yn wirioneddol eisiau helpu'r myfyrwyr i fod yr athrawon gorau posib.
Maen nhw'n ffocysu ar fyfyrio ar dy sgiliau ac yn cynnig diwrnodau ymarfer a theori sy'n edrych ar elfen benodol o addysgu. Mae cydymdeimlad a pharch rhwng y tîm a'r myfyriwr ac mae'n teimlo fel teulu.


Gan fy mod i'n gwneud y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg rwy'n gymwys ar gyfer y grant iaith athrawon yfory. Mae hyn yn cefnogi athrawon sydd eisiau addysgu mewn ysgolion Cymraeg. Grant arall rwy'n gymwys i'w dderbyn yw Grant Cymhelliant gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cefnogi athrawon sy'n astudio pynciau lle mae prinder fel Cyfrifiadureg."


## DR HYWEL EVANS

**Cyn-fyfyriwr PhD a MPhys Ffiseg**

"Gorffennais fy ngradd meistr Ffiseg (MPhys) a phenderfynais aros yn Abertawe ar gyfer PhD yn gweithio mewn labordy gwrthfater. Llwyddais i gael ysgoloriaeth ymchwil o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Choleg Gwyddoniaeth Prifysgol Abertawe i ariannu fy astudiaethau. Mwynheais allu trafod fy ngwaith gyda rhwydwaith o fyfyrwyr ac academyddion trwy gyfrwng y Gymraeg, a dysgu am ymchwil eraill. Bues i hefyd yn gweithio fel Arddangoswr Ôl-raddedig ar gyfer profiad addysgu ac arian ychwanegol. Mae bod yn ymchwilydd ôl-raddedig yn debyg i fod mewn swydd, ac felly roedd angen mwy o ymrwymiad amser na gyda fy astudiaethau cynt, ond mae'n baratoad da ar gyfer swydd lawn amser. Dysgais i lawer o sgiliau ymarferol, yn ogystal â chyflwyno i arbenigwyr mewn cynadleddau ledled y byd (Belffast, Dundee, Genefa a Belgrade). Mae hyn wedi gwella fy ngallu ac wedi helpu fi i lwyddo mewn cyfweliadau swydd.

Roedd gan Brifysgol Abertawe yr holl adnoddau yr oeddwn eu hangen i lwyddo'n academaidd, ac mae wedi'i lleoli mor agos at barciau a thraethau gwych – doeddwn i ddim eisiau astudio unrhyw le arall!"





## ALPHA EVANS

**PhD – Diwylliant, Iaith a Gweithrediadau Cyfreithiol: Abertawe a'r Cyffiniau, 1870-1914.**

Un o'r prif resymau pam gwnes i ddewis dilyn cwrs ôl-raddedig oedd oherwydd yn ystod blwyddyn olaf fy nghwrs israddedig, doeddwn i ddim yn teimlo fel fy mod yn barod i adael addysg eto. Yn ogystal, er fy mod wedi mwynhau gwneud darllen ac ymchwil ychwanegol ar gyfer asesiadau drwy gydol fy nghwrs israddedig, mwynheais y modiwl traethawd estynedig yn y 3edd flwyddyn mas draw. O ganlyniad i hyn, roeddwn yn gwybod mai ymchwil ôl-raddedig oedd yr hyn roeddwn eisiau ei wneud nesaf, a hynny er mwyn datblygu fy sgiliau ymchwil ymhellach a chael y cyfle i ymchwilio'n ddyfnach i faes rwy'n ymddiddori ynddo a gwneud cyfraniad gwreiddiol, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, i'r maes hwnnw.

Heb os, roedd y profiad anhygoel cefais fel myfyrwraig israddedig ym Mhrifysgol Abertawe wedi cyfrannu at fy mhenderfyniad i aros yn Abertawe ar gyfer fy nghwrs ôl-raddedig. Derbyniais gyfleoedd a chefnogaeth cyfrwng Cymraeg arbennig drwy gydol fy nghwrs israddedig, ac roeddwn yn gwybod y byddai hynny'n parhau drwy gydol fy nghwrs ôl-raddedig.

Er nad wyf yn hollol sicr o ran pa fath o yrfa rydw i eisiau ei dilyn, rwyf yn ystyried gyrfa academaidd ac felly bydd medru cyfathrebu ac ysgrifennu'n hyderus yn y Gymraeg yn golygu y bydd modd cyfrannu a chynyddu'r ymchwil cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bodoli yn y maes.

# Ariannu
# DY ASTUDIAETHAU

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i wobrwyo rhagoriaeth academaidd ac anacademaidd ac rydym yn cynnig amrywiaeth eang o ysgoloriaethau a bwrsariaethau i helpu tuag at gostau astudio.

Mae bwrsariaethau ar sail incwm ar gael hefyd, ynghyd â chyllid tuag at astudio mewn gwlad arall os rwyt yn dewis gwneud hynny fel rhan o dy raglen gradd.

Am wybodaeth bellach, i wirio a wyt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso neu i wneud cais, gweler:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu**

### CANLLAW AMGEN I GYLLID ÔL-RADDEDIG


Adnodd a ysgrifennwyd gan ddau fyfyriwr ôl-raddedig sydd wedi ennill dros £45,000 rhyngddynt drwy 55 dyfarniad gan elusennau gwahanol.

Mae *The Alternative Guide to Postgraduate Funding* yn cynnwys cronfa ddata enfawr o gyfleoedd, arweiniad ac offer o ran cyllid i dy helpu i baratoi cais llwyddiannus am grant. Mae Abertawe wedi talu am drwydded er mwyn iti allu cyrchu'r Canllaw.

E-bostia **alternative.funding.guide@abertawe.ac.uk** a byddwn yn anfon e-bost atat gyda chyfarwyddiadau i gyrchu'r Canllaw.




**ALTERNATIVE FUNDING GUIDE**





YSGOLORIAETHAU PHD*

# A ARIENNIR YN LLAWN

# £2,000

YSGOLORIAETH RHAGORIAETH CHWARAEON*

# £1,000

YSGOLORIAETH RHAGORIAETH CERDDOROL*

(Ar gael i fyfyrwyr meistr a addysgir yn unig)

Gweler amodau a thelerau ar:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

*Mae'r cyfleoedd ariannu ac ysgoloriaeth ar gael ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Abertawe sydd wedi cofrestru yn unig.

# FFIOEDD A *Chyllid*

Rydym yn ymrwymo i fuddsoddiad sylweddol mewn addysg ôl-raddedig. Yn 2022/23 roedd dros £12 miliwn mewn ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael i astudio cyrsiau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae ein hysgoloriaethau meistr ar gael ar draws yr holl gyfadrannau ac ysgolion academaidd, ac yn cael eu hysbysebu trwy gydol y flwyddyn, gan gynnig cyllid i fyfyrwyr y DU a Rhyngwladol.

## FFIOEDD DYSGU

Caiff ffioedd dysgu eu pennu yn ôl dy flwyddyn astudio, y math o gwrs rwyt yn ymgymryd ag ef a dy wlad breswyl.

Gofynnir i ti dalu dy ffioedd, neu ddangos tystiolaeth o nawdd, cyn cofrestru neu yn ystod y broses gofrestru. Gelli ddod o hyd i fanylion am ffioedd dysgu pob cwrs ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

Mae ffioedd dysgu yn destun codiadau blynyddol a chyhoeddir y cyfraddau newydd ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant ar gael.

Os hoffet gael rhagor o wybodaeth am y ffioedd sy'n daladwy ar gyfer dy raglen benodol, cysyllta â'r Swyddfa Cyllid Myfyrwyr ar:

**+44 (0)1792 602700**

**studentfinance@abertawe.ac.uk**

Edrych ar ein tudalen we Ffioedd a Chyllid cyn gwneud cais i astudio yn Abertawe.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu**

Sylwer bod angen talu 'ffi fainc' o £1,000 yn ogystal â'r ffi ddysgu ar gyfer y rhaglen MRes yn y Biowyddorau.

## CYLLID

Mae sawl ffordd i ariannu dy astudiaethau ôl-raddedig bellach. Yn ogystal â'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau y mae Prifysgol Abertawe yn eu darparu, gall ôl-raddedigion gael arian gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, cynghorau ymchwil, diwydiant ac elusennau. Mae llawer o fyfyrwyr ôl-raddedig yn ariannu eu hastudiaethau drwy 'portffolio ariannu', gan gasglu arian o amrywiaeth o ffynonellau. Mae enghreifftiau o'r mathau o arian sydd ar gael yn cynnwys:

## BENTHYCIADAU I ÔL-RADDEDIGION

Mae cyllid ôl-raddedig y llywodraeth ar gael i bob myfyriwr sy'n byw yn y DU a'r UE sy'n astudio cyrsiau lefel meistr a PhD mewn prifysgol yn y DU. Mae'r dull o gymhwyso a'r swm y gelli ei dderbyn yn dibynnu ar dy wlad breswyl. Gelli ddod o hyd i'r holl wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu/benthyciadau-ol-raddedig**

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU MEISTR PRIFYSGOL ABERTAWE

Rydym yn hysbysebu ystod o ysgoloriaethau a bwrsariaethau meistr trwy gydol y flwyddyn academaidd. Bydd yr holl gyfleoedd yn cael eu rhestru ar y wefan ganlynol, ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau/meistr-a-addysgir**

## YSGOLORIAETHAU'R RHAGLEN YMCHWIL

Gellir dod o hyd i ysgoloriaethau ymchwil yn Abertawe drwy ddilyn y ddolen isod. (Noder y caiff y dudalen hon o'r wefan ei diweddaru drwy gydol y flwyddyn.)

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau/ysgoloriaethau-ymchwil-/**

Caiff manylion ynghylch sut i gyflwyno cais am ysgoloriaeth eu rhestru ar bob hysbyseb unigol.

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU'R CYFADRANNAU

Mae llawer o'n cyfadrannau academaidd hefyd yn cynnig ysgoloriaethau a bwrsariaethau ychwanegol ar gyfer rhaglenni a addysgir a rhaglenni ymchwil.

Caiff ysgoloriaethau a bwrsariaethau eu cynnig drwy gydol y flwyddyn a byddwn yn eu hysbysebu ar ein gwefan. Gelli sicrhau dy fod ymhlith y cyntaf i gael gwybod am y cyfleoedd ariannu a gynigir gennym drwy edrych ar:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

## ELUSENNAU, SEFYDLIADAU AC YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae nifer fawr o elusennau, sefydliadau ac ymddiriedolaethau yn dyfarnu arian i gefnogi astudiaethau ôl-raddedig. Gellir cael manylion yn *The Grants Register* (a gyhoeddir gan Palgrave Macmillan) a *The Directory of Grant Making Trusts* (a gyhoeddir gan y Sefydliad o Newid Cymdeithasol), y dylai'r ddau ohonynt fod ar gael o wasanaeth gyrfaoedd dy brifysgol a dy lyfrgell leol.





### ENNILL TRA BYDDI DI'N DYSGU

Mae digon o swyddi rhan amser ar gael yn Abertawe a'r ardal leol, ac mae gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe wybodaeth am amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer gwaith dros dro a gwaith rhan amser, yn ogystal â lleoliadau haf ac interniaethau. Am ragor o wybodaeth, gweler:

**myuni.abertawe.ac.uk/gyrfaoedd/parth-cyflogaeth**

### CYNORTHWYO UNIGOLION SY'N GADAEL GOFAL

Rydym yn gweinyddu ac yn darparu'r Pecyn Cynorthwyo i Bobl sy'n Gadael Gofal, sef amrywiaeth gynhwysfawr o fesurau er mwyn helpu pobl sy'n gadael gofal i ymgartrefu ac i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau. Gall myfyrwyr ôl-raddedig cymwys dderbyn bwrsariaeth Gadael Gofal ôl-raddedig sy'n daliad untro y cwrs.

### GWOBR CYFLE PRIFYSGOL ABERTAWE

Bwriad y gronfa galedi yw cefnogi myfyrwyr trwy unrhyw amgylchiadau ariannol annisgwyl neu anodd tra byddant yn y Brifysgol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried a'i asesu ar sail unigol, gyda'r cyfrinachedd llymaf gan ein cynghorwyr arbenigol.

Am fwy o wybodaeth, cer i:

**abertawe.ac.uk/arian-bywydcampws**

### CYNGOR A CHYMORTH ARIANNOL

Mae'r Tîm Arian @BywydCampws yn cynnig arweiniad ar bob agwedd ar gyllid myfyrwyr, gan gynnwys:

- Grantiau, benthyciadau, bwrsariaethau a budd-daliadau lles
- Dy helpu i reoli dy arian
- Gwobr Cyfle
- Cynorthwyo unigolion sy'n gadael gofal
- Dy helpu i lunio cyllideb realistig
- Cyngor ar ddyledion

**+44 (0)1792 606699**

**money.campuslife@abertawe.ac.uk**




## COSTAU BYW NODWEDDIADOL:

£145

**CYFARTALEDD RHENT WYTHNOSOL**

Yn seiliedig ar werth rhentu cyfartalog:
**varbes.com/rental-market/swansea-rental-market/**

£14

**PRIS PRYD O FWYD AR GYFARTALEDD**

Yn seiliedig ar brif gwrs mewn bwyty lleol:
**numbeo.com/cost-of-living/in/Swansea**

**TOCYN BWS ÔL-RADDEDIG 52 WYTHNOS**

£34 Y MIS

Tocyn bws gyda theithio diderfyn

£10

**CAMPWS I'R DDINAS**

Tacsi o Gampws Parc Singleton i ganol y ddinas

**AELODAETH Â'R GAMPFA**

£15 Y MIS

Parc Chwaraeon Bae Abertawe

# YMUNA Â'N Cyn-fyfyrwyr Neilltuol

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn coleddu'r ymdeimlad o berthyn sy'n dod yn sgil bod yn rhan o'n cymuned ôl-raddedig fywiog. Mae ein graddedigion yn dyst i hyn, wrth iddynt ymuno â'r rhengoedd o filoedd o gyn-fyfyrwyr sydd wedi gwneud eu marc ar y byd gan ddefnyddio'r sgiliau a'r profiadau a enillwyd yn Abertawe. Rydym yn ymfalchïo'n fawr yng nghyflawniadau ein graddedigion, sydd wedi mynd ymlaen i fod yn arweinwyr busnes, yn bencampwyr chwaraeon, ac yn arloeswyr ymchwil sy'n torri tir newydd. Ymuna â ni heddiw a dod yn aelod gwerthfawr o'n cymuned ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe.





**ANDREW TEILO,**

*MA Cymraeg. Dosbarth 2021.*

ACTOR

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr**

"Penderfynais astudio am radd Meistr oherwydd roeddwn am ymestyn fy hun! Roeddwn hefyd am 'gymhwyso', rywfodd, yn y Gymraeg, neu, yn y man lleiaf, ddefnyddio'r Gymraeg fel cerbyd i'm hastudiaethau. Yr holl flynyddoedd hynny yn ôl, roeddwn yn rhy oriog fel disgybl ysgol i benderfynu ar lwybr bywyd i mi fy hun, ac yn fuan wedyn cymerai fy mywyd proffesiynol fy holl egni, a hynny am nifer fawr o flynyddoedd. Er hynny, ro'n i'n ymwybodol iawn ar hyd yr amser fy mod wedi 'gadael rhywbeth ar ei ôl'; gadael hefyd i ryw gyfle amhenodol ddianc trwy'm dwylo, fy mod heb wireddu rhyw 'botensial'. Yn fras, ymgais i unioni hynny oedd fy mhenderfyniad i geisio gradd MA i mi fy hun."



## ANEIRIN KARADOG,

*PhD Cymraeg. Dosbarth 2020.*

BARDD. DARLLEDWR. PERFFORMIWR. IEITHYDD.

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr/aneirin-karadog.php**

"Roedd y cyfle i fynd yn ôl i'r byd academaidd yn un apelgar iawn ac yn gyfle i ail ddarganfod lot amdanaf i fy hun. Ar ôl 11 mlynedd o fod yn y byd gwaith penderfynais astudio am ddoethuriaeth. Ar ôl gweithio fel ymchwilydd yn y byd teledu, roedd ymchwil yn ei natur o ddiddordeb i fi. Roedd cael ymchwilio'n ddyfnach ac ailddysgu technegau academaidd yn agor nifer o gyfleoedd i mi.

Fy nghyngor i ddarpar-fyfyrwyr yw does dim anfanteision i astudio gradd ôl-raddedig. Os nad wyt ti'n siŵr o'r hyn rwyt eisiau ei wneud, gall hyn dy helpu i finiogi dy drywydd gyrfa a sianelu dy egni i elfen a maes penodol."



## KATE MCMURDO,

*Ymarfer Cyfreithiol LLM a Drafftio Uwch. Dosbarth 2019.*

YMGYRCH HAWLIAU ANABLEDD, GWEITHREDWRAIG ADDYSG, GORUCHWYLIAETH.

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/dyniaethau-ar-gwyddorau-cymdeithasol/kate-mcmurdo**

"Os oeddwn i am newid pethau a herio'r system mewn gwirionedd, sylweddolais i fod angen i mi ddeall y gyfraith a bod yn rhan o'r newid roeddwn i eisiau ei weld. Taswn i'n hyfforddi i fod yn fargyfreithiwr, roeddwn i'n meddwl efallai y gallwn i eirioli dros deuluoedd sy'n wynebu anghyfiawnder a gwahaniaethu.



## DR WAFA ALI,

*Peirianneg Gemegol PhD. Dosbarth 2020.*

CYDYMAITH YMCHWIL ÔL-DDOETHUROL YM MHRIFYSGOL TEXAS A&M

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/gwyddoniaeth-a-pheirianneg/dr-wafa-ali**

"Roedd fy mywyd yn Abertawe'n brofiad gwych ac roeddwn i'n benderfynol o fanteisio i'r eithaf arno. Gwnaeth Abertawe fy annog i fod yn gryf yn academaidd ac i ddod yn berson gwell. Dysgais i roi cyflwyniadau a sgyrsiau a chwrddais i ag arbenigwyr o wahanol gefndiroedd a roddodd hwb i'm gallu i arwain."

**GWELER MWY O STORÏAU CYN-FYFYRWYR AR EIN GWEFAN:**

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr**

# BARN EIN *Myfyrwyr*


Cei fwy o wybodaeth gan ein myfyrwyr presennol a rhai sydd wedi graddio'n ddiweddar gan eu bod wedi rhannu eu profiadau eu hunain a darparu argymhellion defnyddiol ynghylch byw ac astudio ym Mhrifysgol Abertawe.

Gwylia ein fideos myfyrwyr, gwranda ar ein podlediadau a dilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael awgrymiadau defnyddiol ar bopeth o: bywyd ar ôl dy radd israddedig, i'r 'Thesis Tair Munud', a sut beth yw byw yn Abertawe.

**EDRYCH AM BRIFYSGOL ABERTAWE AR TIKTOK:**

Gwylia Fideos TikTok Diweddaraf Prifysgol Abertawe.

prifabertawe




Thesis Tair Munud

Corau Prifysgol Abertawe

Aelwyd yr Elyrch

Beiciau Santander




**DILYN NI:**

# #EinHabertawe

@prifabertawe

@PrifysgolAbertawe

@Prif_Abertawe






















# STORÏAU *Myfyrwyr*

Mae llu o fyfyrwyr fel ti ym Mhrifysgol Abertawe. Ymwêl â'n Storïau Myfyrwyr ar ein gwefan a chael blas ar brofiad myfyriwr.

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**



## VINCENT ZHANG,

*Cyfraith Forwrol Ryngwladol, LLM*

### Beth yw dy 3 hoff beth am Abertawe?

- Parodrwydd athrawon i gael eu hamgylchynu gan fyfyrwyr ac ateb llu o gwestiynau ar ôl pob dosbarth
- Gwaith cwrs byr sy'n hynod heriol i'w gwblhau mewn 24 awr
- Bae Rhosili

### Sut gwnaeth dy radd dy baratoi ar gyfer dy yrfa?

Rhoddodd wybodaeth graidd i mi o gyfraith morgludiant Lloegr, y gallu i weithio dan bwysau a datblygu fy sgiliau ysgrifennu cyfreithlon.

### Pa gyngor byddi di'n ei roi i fyfyrwyr sydd am ddilyn dy yrfa?

Dyma'r penderfyniad cywir i ddod i'r DU i astudio cyfraith morgludiant ryngwladol, gan ei bod yn seiliedig ar gyfraith morgludiant Lloegr yn sylweddol. Mae Prifysgol Abertawe'n lle da iawn i'w dysgu.

Os wyt am fod yn gyfreithiwr morgludiant o fri yn y dyfodol, fe dy gynghorir i ddysgu mwy am longau, eu strwythur, eu hanes a gwybodaeth dechnegol. Byddai'n wych dod o hyd i ffrindiau sy'n gapteiniaid er mwyn iddynt adrodd am eu hanturiaethau ar y môr hefyd!




### Beth yw dy hoff beth am dy gwrs?

Mae'n debyg mai fy nhîm goruchwylio (SWIRL). Maen nhw wedi bod yn anhygoel trwy gydol fy ngradd ôl-raddedig, yn enwedig o ran gwneud addasiadau oherwydd y pandemig. Maen nhw wedi rhoi'r offer i mi ddatblygu sgiliau gweithio'n annibynnol ac wedi rhoi mwy o gyfrifoldeb i mi yn y labordy. Mae hyn yn beth braf gan dy fod ti'n teimlo fel pe bait ti'n gydweithiwr yn y gweithle ac nid yn fyfyriwr yn unig. Maent wedi gwerthfawrogi fy ngwaith yn fawr ac wedi fy nghefnogi i ddod yn wyddonydd ar ddechrau fy ngyrfa ble yr wyf heddiw.



## CAITLIN BELLAMY,

*Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd, MSc*

### Beth wyt ti'n bwriadu ei wneud ar ôl i ti raddio?

Rwyf ar hyn o bryd yn ysgrifennu fy nhraethawd ymchwil. Roeddwn i wrth fy modd yn gwneud gradd Meistr trwy Ymchwil ac rwy'n angerddol am ymchwil; er hynny, rydw i wir eisiau gyrfa mewn lleoliad mwy clinigol, mewn fferylliaeth gobeithio, neu efallai hyd yn oed datblygu cyffuriau. Rwy'n dechrau swydd mewn histoleg yn Ysbyty Singleton yn hwyrach y mis hwn, ac rwy'n gyffrous iawn i fod yn ôl mewn amgylchedd labordy! Rwy'n gwneud hyn gyda'r bwriad o ennill rhywfaint o brofiad gwerthfawr mewn lleoliad clinigol a gwneud cais am raglen hyfforddi gwyddonwyr y GIG y flwyddyn nesaf. Gobeithiaf gadw mewn cysylltiad â'r tîm yn Labordy Ymchwil Integreiddiol Mwydod Abertawe (SWIRL), mae fy amser gyda nhw wedi bod yn rhan enfawr o fy addysg ac wedi cael effaith enfawr ar y gwyddonydd ydw i heddiw. Ni allaf aros i weld lle mae eu hymchwil yn eu tywys!



## SOPHIE MAHONEY,

*Marchnata Strategol, MSc*

**Beth yw dy 3 hoff beth am Abertawe?**

- Y traethau
- Y gymuned
- Bwyd!

**Pam dewisaist di astudio dy radd yn Abertawe?**

Astudiais fy ngradd israddedig mewn Rheoli Busnes yma. Roeddwn i'n gwybod y byddai'r darlithwyr yn gallu dysgu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i mi y byddwn yn mynd â nhw gyda mi yn y pen draw i'r byd gwaith. Er efallai nad yw'r darlithwyr sy'n addysgu'r radd Meistr yr un fath â'r rhai a'm dysgodd i ar lefel israddedig, roeddwn i'n gwybod bod ansawdd yr addysgu yn gyson drwy'r Ysgol Reolaeth. Hefyd, y timau cyflogadwyedd/gyrfaoedd yn y brifysgol yw'r bobl orau i fynd atynt pan fyddi di'n cyflwyno cais am leoliadau gwaith neu gynlluniau i raddedigion; maen nhw'n rhagori ar ddisgwyliadau!

**Beth yw dy hoff beth am dy gwrs?**

Amrywiaeth y modiwlau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gul eu meddyliau o ran Marchnata, maent yn credu mai hysbysebu yn unig ydyw ond mae'n gymaint mwy na hynny ac mae'r cwrs Marchnata Strategol wedi tynnu sylw at hynny; rydym yn ymdrin â phopeth fel ymchwil marchnata, dulliau ymchwil, segmentu, cyfathrebu marchnata a marchnata digidol.

**Beth wyt ti'n bwriadu/gobeithio ei wneud ar ôl i ti raddio?**

Byddwn wrth fy modd yn gweithio i sefydliad dielw, gan godi ymwybyddiaeth ac yn y pen draw helpu'r rhai mewn angen.



## ERIC WEN,

*Peirianneg Electronig a Thrydanol, PhD*

**Pam dewisaist di astudio MSc mewn Peirianneg Electronig a Thrydanol?**

Mae peirianwyr trydanol ac electronig yn gweithio i achub y blaen ym maes technoleg ymarferol, gan wella'r dyfeisiau a'r systemau rydym ni'n eu defnyddio bob dydd. Rydw i'n gwybod y bydd y radd hon yn fy rhoi mewn safle cryf ar gyfer fy nyfodol, pa bynnag lwybr gyrfa y bydda i'n penderfynu arno.

**Pam penderfynaist di astudio am radd ym Mhrifysgol Abertawe?**

Ar ôl i mi orffen fy ngradd Meistr ym Mhrifysgol Abertawe, penderfynais ddilyn gradd PhD. Fel myfyriwr presennol, rydw i'n gyfarwydd â'r darlithwyr a rhai o'r myfyrwyr PhD. Rydw i'n gwybod eu bod nhw'n garedig iawn ac yn gymwynasgar iawn. Rydw i'n credu bod goruchwyliwr perffaith, cyfathrebu da a gwaith tîm yn allweddol wrth astudio am PhD yn llwyddiannus. Mae enw da rhagorol Prifysgol Abertawe ar gyfer ymchwil hefyd yn rheswm pwysig dros barhau â'm PhD yn Abertawe.

**Beth wyt ti'n cynllunio/gobeithio ei wneud ar ôl cwblhau dy Ymchwil Ôl-raddedig?**

Rydw i'n edrych ymlaen at gyfle i ddechrau fy ngyrfa mewn peirianneg systemau pŵer go iawn, a defnyddio fy arbenigedd proffesiynol i'r eithaf.

# DOES UNMAN YN DEBYG *i Gartref*

## Fel myfyriwr ôl-raddedig sy'n ymuno â chymuned Prifysgol Abertawe, hoffem dy helpu i ddod o hyd i rywle y gelli ei alw'n gartref.

Mae llety i ôl-raddedigion ar gael ar Gampws y Bae, Campws Parc Singleton, Tŷ Beck yn ardal gyfagos Uplands, ac yn y llety newydd yng nghanol y Ddinas sef Seren a true Student. Bydd hyd dy denantiaeth yn cyfateb i hyd dy astudiaethau. I lawer o fyfyrwyr Ôl-raddedig, bydd hyn yn 51 wythnos.

### CAMPWS Y BAE

Campws y Bae yw un o'r unig gampysau prifysgol yn y DU sydd â mynediad uniongyrchol i'r traeth a'i bromenâd glan môr ei hun.

Mae'r mathau o lety ar Gampws y Bae yn cynnwys ystafelloedd pâr, en suite, ystafelloedd premiwm ag en suite, ystafelloedd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn a fflatiau 1 a 2 ystafell wely. Mae'n agored i fyfyrwyr ar unrhyw gwrs, ac mae gwasanaethau bws aml ac uniongyrchol rhwng y campysau.

**abertawe.ac.uk/llety/opsiynau-llety**

### CAMPWS PARC SINGLETON

Mae holl breswylfeydd Singleton o fewn pellter cerdded i'r parc, y traeth, Parc Chwaraeon Bae Abertawe, Ysbyty Singleton a Bae Abertawe.

Mae Singleton yn darparu ystafelloedd safonol ac en suite, hunanarlwyo ac arlwyo'n rhannol yn ogystal ag opsiynau bwyta y telir amdanynt ymlaen llaw. Mae bysiau aml ac uniongyrchol rhwng y campysau.

### LLETY YN NHŶ BECK

Mae gennym nifer o fflatiau i fyfyrwyr sengl, parau yn ogystal ag i deuluoedd yn ein preswylfa dawel ddynodedig, Tŷ Beck, tua milltir o'r campws yn ardal fyfyrwyr boblogaidd Uplands. Oherwydd y tenantiaethau 51 wythnos, mae'r llety hwn yn fwyaf addas i fyfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr rhyngwladol.

### LLETYA Â SIARADWYR CYMRAEG ERAILL

Mae'r Brifysgol yn awyddus i gefnogi'r gymuned gref o siaradwyr Cymraeg sy'n fyfyrwyr yma. O ganlyniad, rydym wedi adnabod dwy neuadd ar gyfer darparu cyfle i fyfyrwyr rannu llety â siaradwyr Cymraeg eraill. Darperir llety en suite ac hunanarlwyo gyda gofodau cymdeithasu yn y neuaddau hyn.




### PWYNTIAU ALLWEDDOL:

- Rhyngrwyd diwifr am ddim
- Ceir rhwydwaith o fyfyrwyr, ResReps, sy'n byw yn y preswylfeydd ac sy'n dy gynrychioli o'u gwirfodd, sy'n sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y profiad gorau posibl
- Mae rhan fwyaf o'r ystafelloedd yn ystafelloedd sengl, fodd bynnag rydym yn cynnig fflatiau teulu yn Nhŷ Beck, ac mae rhai llety yn addas ar gyfer parau, gyda deiliadaeth ddeuol am ddim yn true
- Cyfleusterau golchi
- Ystafelloedd wedi'u haddasu ar gyfer myfyrwyr ag anghenion arbennig, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn – cysyllta â'r Tîm Lles ac Anabledd am ragor o wybodaeth
- Mae cyfleusterau en suite ac ystafell ymolchi a rennir ar gael




| CAMPWS Y BAE | PARC SINGLETON |
| --- | --- |
| Bar Coffi | Canolfan Iechyd |
| Campfa | Cyfleusterau Chwaraeon |
| Cyfleusterau Chwaraeon | Deintydd a Meddyg |
| Diogelwch 24 awr | Diogelwch 24 awr |
| Golchdy | Golchdy |
| Lle i Addoli | Lle i Addoli |
| Neuadd Fawr | Neuadd Fwyd |
| Neuadd Fwyd | Sinema a Theatr Taliesin a'r Ganolfan Eifftaidd |
| Siop Fach | Siop Fach |
| Undeb y Myfyrwyr | Undeb y Myfyrwyr |






## LLETY YNG NGHANOL Y DDINAS

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod Prifysgol Abertawe bellach yn gweithio mewn partneriaeth â dau ddarparwr llety annibynnol blaenllaw sef Seren, a true Swansea.

## true SWANSEA

Gyda golygfa heddychlon ar draws afon Tawe, mae llety myfyrwyr true Swansea yn lleoliad delfrydol ar gyfer bywyd prifysgol yn y ddinas. Yn daith fer o'r ddau gampws, ar Heol Morfa yng nghanol y ddinas, mae true Student yn cynnig ystafelloedd en suite mewn fflatiau i 5 a 6 ac ystafelloedd preifat ar ffurf stiwdios, â chegin fach ac ystafell ymolchi en suite foethus.

Mae ein hystafelloedd stiwdio ar gael i ddau berson, felly mae'r rhain yn opsiwn gwych os wyt ti am fyw gyda dy bartner (sylwer, rhaid i'r ddau denant fod yn fyfyrwyr amser llawn).



## SEREN

Yng nghanol y ddinas gyferbyn â Gorsaf Drên Abertawe, mae Seren yn cynnig llawer mwy nag ystafelloedd gwely mewn adeilad.

Hanner ffordd rhwng Campws Parc Singleton a Champws y Bae, bydd gen ti ddewis o gyfleusterau gwahanol i'w defnyddio pryd bynnag rwyt ti eisiau.

Mae gan bob ystafell wely ystafell ymolchi en suite a theledu clyfar 32". Hefyd, ceir cegin a rennir sydd â lolfa a theledu clyfar 55" Mae ystafelloedd stiwdio hefyd yn cynnwys cegin fach yn yr ystafell.



## COSTAU LLETY

Bydd y rhent a deli yn dibynnu ar y preswylfa a'r ystafell rwyt ti'n ei dewis:

### DARGANFYDDA FWY

**abertawe.ac.uk/llety/ffioedd-llety**

| LLETY | MATH O YSTAFELL | RHENT WYTHNOSOL* |
| --- | --- | --- |
| **Campws Parc Singleton** | Safonol<br>Safonol gyda'r cerdyn arlwyo<br>En suite | O £142<br>£155<br>O £167 |
| **Tŷ Beck** | Safonol<br>En suite<br>Fflat Teuluol | £130<br>O £150<br>O £214 (hyd at £258 y myfyriwr) |
| **Campws y Bae** | En suite<br>Ystafell Bâr (y person)<br>Fflat 1 Ystafell Wely<br>Ystafell mewn Fflat 2 Ystafell Wely | £177<br>£135<br>£222<br>£163 |
| **Tai Preifat** | Safonol | £82–£120 |
| **true Swansea** | Ystafell mewn fflat en suite<br>Ystafell Stiwdio<br>(Deiliadaeth ddeuol ddewisol am ddim ar gael - rhaid i'r ddau denant fod yn fyfyrwyr amser llawn)<br>Ystafell Stiwdio Hygyrch | £178<br>£214<br>£214 |
| **Seren** | Ystafell Stiwdio | £185 |

* Mae'r ffioedd yma ar gyfer sesiwn academaidd 2023/2024. Sylwer y bydd graddfa ar gyfer mynediad 2024/2025 yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant wedi'u cadarnhau.

** Gelli di ddefnyddio lwfans talu am arlwyaeth ymlaen llaw ym mannau arlwyo'r Brifysgol a bydd £43.00 yr wythnos ynghlwm wrtho. Mae'r credydau yn cael eu gosod yn fisol felly gelli di ddefnyddio cymaint neu gyn lleied ag y dymuna bob wythnos.

## DOD O HYD I'R CARTREF PERFFAITH YN Y SECTOR PREIFAT

Os byddai'n well gen ti fyw oddi ar y campws, byddi di'n falch o wybod bod cyflenwad da o dai a fflatiau o ansawdd i fyfyrwyr yn y sector preifat yn Abertawe.

Mae ein cronfa ddata ar-lein, Studentpad, y gellir chwilio drwyddi yn amhrisiadwy. Mae'n dy alluogi i ddod o hyd i dai eraill sydd ar gael yn yr ardal ac yn ei gwneud hi'n haws chwilio am dŷ.

Am fwy o wybodaeth:

**abertawe.ac.uk/llety**

**llety@abertawe.ac.uk**

**+44 (0)1792 295101**




Mae gennym rai ardaloedd tawel a rhai sy'n ddi-alcohol hefyd

**Cymraeg**

Mae gennym lety penodol i siaradwyr Cymraeg fyw gyda'i gilydd.

Gelli logi un o'n beiciau Santander. Gyda 100 o orsafoedd docio mewn chwe hyb ar hyd prif lwybr beicio'r ddinas, gelli fynd ar dy feic yn dy amser hamdden.




**santandercycles.co.uk/swansea**

Santander CYCLES
Prifysgol Abertawe Swansea University

# MEDDWL AM *Dy Ddyfodol*



## CYFLOGADWYEDD: DATBLYGU GYRFA AC ENTREPRENEURIAETH

Un o nodau sylfaenol y Brifysgol yw 'paratoi a hyrwyddo cyflogadwyedd ein myfyrwyr'.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe yn darparu swyddogaeth hanfodol sy'n creu cyswllt rhwng busnesau a diwydiant a chreu cyfleoedd rhwydweithio i ti sy'n cael effaith wirioneddol.

Mae ein rhaglenni academaidd yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol sy'n galluogi ein myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y mae cyflogwyr a busnesau yn eu gwerthfawrogi. Rydym yn teilwra ein cyrsiau i sicrhau dy fod yn dysgu'r sgiliau proffesiynol, lefel uchel a fydd yn dy alluogi i ffynnu yn y byd cystadleuol sydd ohoni. Lle bynnag y bo modd, mae cyrsiau hefyd wedi'u hachredu gan gyrff proffesiynol.

Mae ein hanes hir o weithio gyda busnesau, diwydiant, masnach a'r sector cyhoeddus yn golygu y gallwn ychwanegu gwerth gwirioneddol at dy addysg.

### Y TÎM MENTERGARWCH

Gall y tîm cymorth ymroddedig hwn helpu i ddatblygu dy sgiliau, cael profiad gwerthfawr a rhoi dy syniadau ar waith drwy ein hystod o wasanaethau, gan gynnwys: gweithdai, cystadlaethau, cynlluniau a mentora busnes, ar y cyd â phartneriaid busnes â phrofiad helaeth o'r byd masnachol.

**enterprise@abertawe.ac.uk**

**myuni.abertawe.ac.uk/cyflogadwyedd-menter/menter-myfyrwyr**

## ADDYSGU A DYSGU YSBRYDOLEDIG

Mae'r gwaith ymchwil arloesol a wneir yn yr amrywiol gyfadrannau yn sail i'n haddysgu ardderchog. Mae'r ffaith eu bod yn rhan flaenllaw o unrhyw ddatblygiadau newydd a'u bod wedi'u cysylltu'n agos â diwydiant o fudd i bob un o'n cyrsiau, gan sicrhau bod ein graddedigion wedi'u paratoi'n drylwyr ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

## SUT GALL PRIFYSGOL ABERTAWE FY HELPU I?

**Cymorth sydd ar gael i ti:**

- Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd un i un a ddarperir gan Ymgynghorwyr Gyrfaoedd â chymwysterau proffesiynol
- Gweithdai ysgrifennu CV a pharatoi at gyfweliadau
- Interniaethau tymor byr â thâl
- Bwrsariaethau tuag at weithgareddau cyflogadwyedd
- Cyfleoedd gwaith rhan amser fel y Cynllun Llysgennad Myfyrwyr
- Gelli gwblhau ein 'Cwrs Datblygu Gyrfa' ar-lein sy'n dy alluogi i baratoi ar gyfer dy fywyd proffesiynol a gwella dy ragolygon gyrfa
- Mentrau cyflogadwyedd sy'n benodol i'r cyfadrannau
- Ffair yrfaoedd flynyddol a rhestr o ddigwyddiadau datblygu sgiliau/cyflogwyr
- Cymorth cyflogadwyedd 15 mis ar ôl graddio
- Rhaglenni cyflogadwyedd penodol ar gyfer myfyrwyr sydd â rhwystrau i recriwtio megis y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr anabl

**DARGANFYDDA FWY:**

**abertawe.ac.uk/cyflogadwyedd**

Pwnc gradd Meistr Simon a Matthew oedd Peirianneg Fecanyddol a thrwy eu prosiect ymchwil, gwnaethant ddarganfod y gallent wneud effaith yn y maes.

Cwmni newydd yw Airview Enginering sy'n tynnu Co2 yn uniongyrchol o'r atmosffer er mwyn darparu dulliau ar raddfa lai a mwy cost-effeithiol o ddal carbon â'r nod o gynyddu eu defnydd yn sylweddol ledled y byd a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Amcan y cwmni yw cael effaith ystyrlon ar lefelau'r nwyon niweidiol a geir yn yr atmosffer. Mae eu technoleg dal Co2 yn ffrwyth tair blynedd o arloesi a datblygu blaengar. Y bwriad yw y bydd modd defnyddio eu technoleg ar raddfa, mewn ffordd fodiwlaidd y gellir ei rhoi ar waith yn gyflym er mwyn cynorthwyo wrth ehangu eu cynnyrch.

Mae Simon a Matthew wedi cael eu cefnogi gan y Tîm Mentergarwch ers y dechrau ac, yn ôl y ddau, mae'r cymorth a'r cyllid hwn, ynghyd â'r strwythur, y ddarpariaeth a'r mynediad at adnoddau drwy gydol eu cwrs Peirianneg Fecanyddol wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu eu busnes.

Maent wedi llwyddo i sicrhau dros hanner miliwn o bunnoedd o grantiau gan gyllidwyr megis Innovate UK, sydd wedi eu galluogi i ddechrau datblygu eu cyfleuster peilot cyntaf.

Maent yn nodi bod gwydnwch yn nyddiau cynnar dy fusnes yn allweddol i'w lwyddiant ond, os oes gen ti syniad da, ni ddylai dim dy atal rhag cyflawni dy nodau.

Mae Airview Engineering yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau o dy radd ôl-raddedig i ddatrys problemau'r byd go iawn.

**SIMON OLIVER a MATTHEW TUCKER,**
***Peirianneg Fecanyddol MEng***

## CYSYLLTIADAU Â CHYFLOGWYR:



# EWCH YN Fyd-Eang

Mae Prifysgol Abertawe yn cydnabod bod gwella cyflogadwyedd graddedigion i'r dyfodol yn bwysicach nag erioed. Wrth i fwy a mwy o fusnesau fynd ati i gyflogi talent o bob cwr o'r byd, mae'n hanfodol dy fod yn sefyll allan gyda sgiliau ychwanegol.

Mae cyflogwyr yn cydnabod gwerth profiad rhyngwladol yn fawr iawn, ac mae myfyrwyr sy'n treulio amser dramor yn meithrin ac yn dangos y rhinweddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw: ymwybyddiaeth o'r byd a diwylliannau eraill, aeddfedrwydd, hyder a'r gallu i addasu at amgylcheddau a heriau newydd.

Mae astudio a byw dramor yn:

- Rhoi agwedd a phrofiad rhyngwladol i ti
- Dy alluogi fagu hyder a dod yn fwy hunanddibynnol
- Dy helpu i ddatblygu annibyniaeth a blaengaredd

**DARGANFYDDA FWY**

**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang**

#SwanseaUniGlobal

**swanseauniglobal**

Fel myfyriwr Prifysgol Abertawe, mae cyfleoedd i gael profiad rhyngwladol drwy ein hamrywiaeth o raglenni diwylliannol, gwirfoddoli ac astudio nad ydynt yn dwyn credydau yn ystod yr haf:

**abertawe.ac.uk/rhaglenni-haf**

At hynny, gallai rhai myfyrwyr gael cyfle i dreulio cyfnod dramor fel rhan o raglen Meistr Estynedig. Mae manylion am yr opsiynau hyn ar gael ar dudalennau cyrsiau penodol.

Mae yna ystod o gyfleoedd cyllido ar gael i gefnogi myfyrwyr sy'n dewis mynd dramor – cyfeiria at ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf:

**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang/cyllid-ac-ariannu**

# PROFIADAU Myfyrwyr



### Ulrike Leonhard

Fel rhan o'r cwrs gradd MA mewn Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Estynedig, treuliodd Ulrike semester yn Katholieke Universiteit Leuven a semester yn Université Catholique de Louvain, yng Ngwlad Belg.

**"Mae fy mlwyddyn dramor yng Ngwlad Belg wedi bod yn brofiad gwych. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd o bob cwr o'r byd a ches i gyfle i deithio ledled Gwlad Belg. Mae'r Iseldiroedd, yr Almaen, Lwcsembwrg a Ffrainc oll o fewn pellter agos felly nid oes terfyn ar y cyfle i archwilio! Ni allai fy mhrofiad fel myfyriwr yn y ddwy brifysgol fod yn well."**

**"Roedd astudio ar gyfer y Radd Meistr Estynedig yn gyfle ardderchog, gan gynnwys y cyfle i wneud cais i astudio dramor yn Ysgol Bush, Texas A&M. Bu'n brofiad anhygoel gan fod Ysgol Bush yn cynnig un o'r cyrsiau Cysylltiadau Rhyngwladol gorau gan ysgol gyhoeddus yn America. Yn ogystal ag ehangu fy nghyfleoedd gyrfa, bydd y cyfle hwn yn golygu y gallaf astudio fy nghwrs o safbwynt gwahanol. Rwyf wedi mwynhau pob munud o'm cwrs yn fawr ac rwy'n falch iawn fy mod wedi dewis astudio ymhellach ym Mhrifysgol Abertawe."**



### Natalie Pittman

Astudiodd Natalie Pittman Radd Meistr Estynedig mewn Cysylltiadau Rhyngwladol a threuliodd semester dramor yn The Bush School ym Mhrifysgol Texas A&M.

# MANTEISION ASTUDIO *Trwy'r Gymraeg*

Mae astudio cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol yn gyfle arbennig i ddatblygu dy sgiliau ac i fanteisio ar gyfleoedd a fydd yn helpu agor y drws i ddyfodol disglair.

### MANTAIS ARIANNOL

Gall astudio rhan o dy gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg fod o fantais i ti yn ariannol gyda nifer o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis gwneud. Gelli ymgeisio am ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg cyn cofrestru ym Mhrifysgol Abertawe neu ar ôl i ti gyrraedd. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod modd i unigolion sy'n ddwyieithog ennill cyflog uwch ar gyfartaledd na chyfoedion sydd yn siarad dim ond un iaith.

### RHAGOLYGON GYRFA

Mae cyflogwyr yng Nghymru yn chwilio am unigolion sydd â sgiliau yn yr iaith Gymraeg a gall astudio rhan o dy gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn hynod fanteisiol felly. Bydd nodi'r sgiliau hyn yn ychwanegiad atyniadol iawn ar dy CV ac yn rhoi mantais gystadleuol i ti mewn nifer o achosion. Yn ogystal â hyn mae Prifysgol Abertawe yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg yn y gweithle ac i ennyn cysylltiadau a phrofiadau gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Am fwy o wybodaeth a chanllawiau ymgeisio gweler **colegcymraeg.ac.uk**



**Macsen Davies,**
Swyddog Materion Cymraeg Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

**"Mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn bethau dw i'n teimlo'n hynod angerddol yn eu cylch ers i mi fod yn ifanc. Rwyf wedi derbyn fy addysg trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gydol fy mywyd gan gynnwys fy amser yma ym Mhrifysgol Abertawe yn astudio BSc Daearyddiaeth.**

**Gan fy mod yn frodor o Gwm Tawe uchaf, mae'r Gymraeg wedi rhoi cyfoeth o gyfleoedd i mi ac wedi chwarae rhan enfawr yn fy magwraeth, ac rwy'n hynod falch o gael y cyfle i'w siarad.**

**Fy nod ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod yw gwneud yn siŵr bod y Brifysgol yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i hetifeddiaeth. Yn ogystal, mae gen i obeithion o gryfhau'r cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu a chael y profiad addysgu cyfrwng Cymraeg gorau posib yn ogystal â chynnig cyfleoedd i'n clybiau a'n cymdeithasau cyfrwng Cymraeg esblygu, er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr sy'n siaradwyr ac yn ddysgwyr Cymraeg gael gwell dealltwriaeth o'n diwylliant gwych."**

Croeso mawr i ti gysylltu â fi:
**macsen.davies@swansea-union.co.uk**

# MAE GEN *i Hawl*

Mae gen ti hawl gyfreithiol i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r hawliau yma wedi cael eu creu o ganlyniad i osod 'Safonau' ar y Brifysgol.

**LLYTHYRAU**
yn y Gymraeg

**GWASANAETH CWNSELA**
yn y Gymraeg

**CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**
yn y Gymraeg

**CYFARFODYDD**
yn y Gymraeg

**LLYFRYN CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**
yn y Gymraeg

**TYSTYSGRIFAU**
yn y Gymraeg

**PROSBECTWS**
yn y Gymraeg

**CYFLWYNO GWAITH YSGRIFENEDIG**
yn y Gymraeg

**TIWTOR PERSONOL**
sy'n siarad Cymraeg

**FFURFLENNI**
yn y Gymraeg

**Gwenan Evans,**
MSc Deinameg
Amgylcheddol a Newid
yn yr Hinsawdd



“Astudiais fy ngradd israddedig ym Mhrifysgol Abertawe a phenderfynais i barhau gyda fy addysg trwy astudio gradd Meistr yma hefyd. Mae Abertawe fel cartref i mi nawr ac felly roeddwn i eisiau treulio mwy o amser yn y ddinas hyfryd hon. Mae fy nghwrs yn ffocysu ar Ddaearyddiaeth ffisegol ac felly rydw i wedi dewis modiwlau sydd yn edrych ar danau allan o reolaeth, newid hinsawdd, rhewlifau a llawer mwy. Braf oedd astudio rhan o'r cwrs Meistr yn Gymraeg.

Mae astudio Daearyddiaeth wedi rhoi cyfleoedd gwych i mi o ran gweld ardaloedd gwahanol o Gymru yn enwedig wrth wneud llawer o waith maes. Enghraifft o hyn yw treulio penwythnos yn Stagbwll, Sir Benfro, yn edrych ar lygredd yn yr afonydd. Roedd hwn yn llawer o hwyl ac yn brofiad gwerthfawr tu hwnt. Yn y dyfodol rydw i eisiau bod yn athrawes ddaearyddiaeth gyfrwng Cymraeg ac felly bydd cynnwys fy nhraethawd hir yn ddefnyddiol wrth gynllunio tuag at y cwricwlwm newydd.”

# ACADEMI *Hywel Teifi*

## ASTUDIO A CHYMDEITHASU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae gan Brifysgol Abertawe nifer o gyfleoedd ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-raddedig ac mae Academi Hywel Teifi yma i dy gefnogi i wneud hynny trwy gydol dy amser gyda ni. Bydd parhau i astudio trwy'r Gymraeg wedi i ti astudio drwy'r iaith ar lefel israddedig yn gam naturiol ac o fantais sylweddol ac fe gei di gefnogaeth ac anogaeth lawn i wneud hynny er mwyn ychwanegu at dy gyflogadwyedd, i feithrin sgiliau dadansoddi ac i ddangos y gallu i weithio mewn mwy nag un iaith.

Mae Academi Hywel Teifi yn bwerdy ar gyfer y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Prif nod yr Academi yw cefnogi, cynyddu a chyfoethogi darpariaeth addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg y Brifysgol er mwyn sicrhau y bydd ein myfyrwyr yn cael y gorau o ddau fyd – profiad Cymraeg a Chymreig mewn prifysgol sydd â chysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol heb eu hail.

Mae'r Academi yn darparu cymuned i'r miloedd o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yma, ac i staff cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Drwy gefnogi adrannau'r Brifysgol mae'r Academi wedi galluogi cynnydd sylweddol yn nifer y pynciau sydd yn cael eu dysgu trwy'r Gymraeg yn Abertawe.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Academi Hywel Teifi | Prifysgol Abertawe Swansea University

## CANGEN PRIFYSGOL ABERTAWE, COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Mae Prifysgol Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae cangen y Brifysgol wedi'i lleoli yn Academi Hywel Teifi. Mae Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer doethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ysgoloriaethau doethuriaeth diweddar a gyd-ariannwyd gan y Coleg Cymraeg a Phrifysgol Abertawe yn cynnwys meysydd Seicoleg, Cyfieithu, Cymraeg, Cemeg, Cymraeg i Oedolion a Gwyddorau Biofeddygol. Am fwy o wybodaeth cer i:

**abertawe.ac.uk/cangen-abertawe**

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae cynllun Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg Academi Hywel Teifi yn agored i fyfyrwyr sydd eisoes wedi dewis dod i Brifysgol Abertawe ac sydd yn dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo cyfle, yn hytrach na thrwy'r Saesneg. Am fwy o wybodaeth ac i weld y pynciau sy'n gymwys cer i:

**abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi/dysgu/ysg-cym-olradd**





**AcademiHywelTeifi** | **@AcademiHTeifi** | **AcademiHywelTeifi** | **abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi**

# Arwain

Download on the App Store

ANDROID APP ON Google play

**Lawrlwytha ap Arwain er mwyn derbyn y diweddaraf am ein cyrsiau a'n modiwlau cyfrwng Cymraeg, ynghŷd â gwybodaeth am y gefnogaeth ariannol gan Academi Hywel Teifi a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cei wybodaeth hefyd am y cyfleoedd i fyw a chymdeithasu yn y Gymraeg tra'n astudio yma.**




## EDRYCHA AM Y LOGO

ar y tudalennau cwrs sy'n dynodi argaeledd ysgoloriaethau a chyfleoedd ar gyfer myfyrwyr sy'n dewis astudio cwrs yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg!

## Y GYMDEITHAS GYMRAEG (GYMGYM)

Mae'r GymGym yn rhoi cyfleoedd amrywiol i ti gymdeithasu â siaradwyr Cymraeg eraill mewn amgylchedd anffurfiol. Mae'n gyfle gwych i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd gan drefnu llu o weithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys tripiau rygbi, gigs, a crôls, Eisteddfodau Rhyng-gol a llawer mwy. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn gweithio'n glos gyda Changen Abertawe o'r Coleg Cymraeg gan hefyd gefnogi Clwb Rygbi Tawe ac Aelwyd yr Elyrch.




# UNDEB Y *Myfyrwyr*

swanseaunisu · swanseaunisu · susu_official · swanseaunisu



**Pablo Josiah**
Llywydd Undeb y Myfyrwyr
2023 – 2024

SWANSEA UNIVERSITY STUDENTS' UNION
UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE

Shwmae, gyd-fyfyriwr! Pablo ydw i, dy Lywydd Undeb Myfyrwyr ar gyfer 2023-24. Gwisga dy wregys achos rydym ni ar fin cychwyn ar daith anhygoel gyda'n gilydd! Fy mhrif genhadaeth yw bod yn llais, yn eiriolwr ac yn hyrwyddwr iti am eleni. Fel y bont rhyngot ti a'r Brifysgol, rwy'n addo ymroi fy amser a'm hegni i gynrychioli dy anghenion a'th uchelgeisiau. Ond ti'n gwybod beth? Dydw i ddim ar fy mhen fy hun yn yr ymdrech hon! Rwy'n cael fy nghefnogi gan dîm cadarn o bum swyddog etholedig amser llawn a grŵp o swyddogion myfyrwyr rhan-amser brwdfrydig. Gyda'n gilydd, rydym yn ffurfio pwerdy sy'n barod i frwydro dros dy hawliau a chael effaith barhaol ar ein profiad prifysgol. O ymgyrchu dros gampws mwy cynhwysol, i frwydro am adnoddau a gwasanaethau gwell, ein nod yw gwneud gwahaniaeth y gallwn ei weld a'i deimlo. Wrth greu cymuned fywiog a chefnogol i bob myfyriwr ddisgleirio.

## MAE UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE YN CYNNIG:

- Dros 150 o gymdeithasau a dros 50+ o glybiau chwaraeon
- Union Collective; platfform i helpu myfyrwyr gydag arian ac adnoddau i gymryd eu syniadau busnes ar lawr gwlad
- Canolfan Gynghori a Chymorth yn helpu gyda phopeth o landlordiaid i anghyfodau academaidd
- Meithrinfa ar y campws sy'n hyblyg o gwmpas darlithoedd myfyrwyr
- Llais i fyfyrwyr yn y Brifysgol, gan sicrhau bod barn myfyrwyr yn cael ei chlywed ar bob lefel








## YN DY GEFNOGI

Mae ein tîm yn cynnal ymgyrchoedd trwy gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o faterion, a mentrau hynod bwysig i dy gefnogi di! Dyma rai ohonynt:

**Cymorth Astudio:** Gwasanaethau am ddim i dy helpu i ymdopi â chyfnodau astudio dwys (gan gynnwys ymweliad gan gŵn bach gan ein ffrindiau yn Achub Milgwn Cymru).

**Rhyddhad:** Rydym ni am i bawb deimlo'n ddiogel, i'w croesawu, a'u cynnwys yn Abertawe. Felly rydym ni'n cynnal ymgyrchoedd trwy gydol y flwyddyn ar bynciau fel Hanes Pobl Dduon, Balchder LGBTQ+, Ymwybyddiaeth Anabledd, a Hawliau Traws i addysgu'r gymuned myfyrwyr ehangach a gwneud ein campysau mor gynhwysol â phosib!

**Tashwedd:** Yn ystod Tashwedd, rydym ni'n rhoi cymuned o Mo Bros a Mo Sisters ar waith sy'n gwneud gwahaniaeth drwy godi arian a hybu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac atal hunanladdiad, canser y prostad a chanser y ceilliau. Dyma un o'n hymgyrchoedd mwyaf, ac mae bob amser yn sioe ledled y Brifysgol.

Gelli ddilyn ein tîm o swyddogion ar Instagram @**susuofficers** i ddarganfod beth arall maen nhw'n ei wneud! Os wyt ti am ein dilyn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd i ddod a sut brofiad yw bod yn fyfyriwr yn Abertawe, rydym ni ar Instagram, TikTok, Facebook, a Twitter, gelli ddod o hyd i ni fel **@SwanseaUniSU.**

CHWARAEON ABERTAWE
Prifysgol Abertawe

SPORT SWANSEA
Swansea University

# CHWARAEON I BAWB

Ym Mhrifysgol Abertawe, mae gennym ni angerdd dros chwaraeon a helpu myfyrwyr i ffynnu a llwyddo ym mhob agwedd ar eu bywydau trwy chwaraeon, iechyd a ffitrwydd. Mae gennym gyfleoedd chwaraeon sy'n addas i bob un o'n myfyrwyr, p'un a wyt yn chwaraewr proffesiynol neu'n dechrau o'r dechrau, mae rhywbeth at ddant pawb.














DARGANFYDDA FWY

abertawe.ac.uk/bod-yn-actif

## YMUNA Â'N CYMUNED ACTIF AR GAMPWS

Mae Bod yn ACTIF yn cynnig rhaglen gynhwysfawr a chynhwysol o weithgareddau a digwyddiadau sydd wedi cael eu cynllunio i dy helpu i symud yn fwy. Ynghyd ag amserlen graidd o weithgarwch corfforol ar y campws, mae'r rhaglen hefyd yn cynnig sesiynau rhagflas, sesiynau sydyn, heriau a sesiynau hyfforddedig, gan gwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau o gerdded a loncian i bêl-foli, boules neu fadminton, ynghyd â chyfleoedd i adael y safle a gwneud y gorau o awyr iach Cymru.

## CYNGHREIRIAU CYMDEITHASOL

Mae cynghreiriau cymdeithasol yn rhoi cyfle i ti gystadlu â dy ffrindiau yma ar y campws, gan wneud chwaraeon cystadleuol yn gymdeithasol, yn fforddiadwy ac yn hygyrch. Mae ein cynghreiriau yn agored i bob gallu ac yn cwmpasu ystod gynyddol o weithgareddau chwaraeon, o bêl-droed a phêl-fasged i bêl-rwyd a mwy.

## CLYBIAU CHWARAEON

P'un a oes gen ti ddiddordeb mewn nofio, hwylio, saethyddiaeth neu golff, mae rhywbeth at ddant pawb yn Chwaraeon Abertawe. P'un a wyt ar lefel dechreuwr; canolradd; neu elitaidd, trwy ein 50+ o glybiau, rydym yn cynnig cyfleoedd clybiau chwaraeon gwych i bawb.

## RHAGLEN PERFFORMIAD UCHEL

Mae ein rhaglenni Perfformiad Uchel yn cynnig amgylchedd hyfforddi a chystadlu elît i athletwyr mewn ystod o gampau, gyda phob un yn cael ei gyflenwi mewn cydweithrediad â chlwb chwaraeon proffesiynol neu gorff llywodraethu cenedlaethol. Mae pob camp yn derbyn hyfforddiant perfformiad uchel, gwasanaethau ym maes y gwyddorau chwaraeon, rheoli ffordd o fyw athletwyr, ffisiotherapi a chymorth cryfder a chyflyru. Ar hyn o bryd, dyma'r chwaraeon: rygbi'r undeb, pêl-droed, nofio, hoci a thennis bwrdd.

BUCS

## WEDI GWELLA FWYAF

Tabl Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) 21ain yn nhabl BUCS 2021-22

## YSGOLORIAETHAU

HYD AT **£2,000**

Gweler y wefan ar gyfer yr amodau:

abertawe.ac.uk/israddedig/ysgoloriaethau

## YSGOLORIAETHAU CHWARAEON, A CHYNLLUN YSGOLORIAETHAU I ATHLETWYR DAWNUS (TASS)

Mae'r Brifysgol yn cynnig ysgoloriaethau i athletwyr dawnus iawn a phecyn cymorth gwerth hyd at £2,000 y flwyddyn a allai gynnwys; hyfforddiant cryfder a chyflyru, ffisiotherapi, cymorth seicolegol a chyngor maethol – a darperir pob un ohonynt gan ymarferwyr cymwys. Gall buddion eraill gynnwys aelodaeth o gyfleusterau am ddim a hawlen i barcio ar y campws.

DUAL CAREER ACCREDITED tass



## AELODAETH O'R GAMPFA

Fel rhan o ffordd o fyw gytbwys ac iach ym Mhrifysgol Abertawe, gall myfyrwyr ymaelodi â'r gampfa a chael nifer o fanteision am bris llai. Mae bod yn aelod hefyd yn rhoi i ti'r manteision canlynol:

- Y gallu i ddefnyddio 69 o gampfeydd yn y DU fel rhan o gynllun UNIversal BUCS
- Mynediad at gyfleusterau campfeydd ar Gampws y Bae ac ar Gampws Singleton
- Dosbarthiadau ffitrwydd
- Cyfraddau gostyngol i aelodau ar gyfer llogi cyfleusterau







Edrych ar luniau Varsity 2022 flickr

## VARSITY CYMRU

Yr ail Varsity fwyaf yn y DU, mae'r twrnamaint mawreddog hwn rhwng Prifysgol Abertawe a Chaerdydd yn ymgysylltu â 20,000+ o fyfyrwyr mewn dros 30 o wahanol ddigwyddiadau, trwy ŵyl chwaraeon wythnos o hyd.

Mae'n brofiad myfyriwr cwbl unigryw sy'n cynnig profiadau, atgofion a ffrindiau sy'n para am oes.

## EIN CYFLEUSTERAU CHWARAEON

Mae gan Brifysgol Abertawe ystod helaeth o gyfleusterau chwaraeon i fyfyrwyr ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe ar bwys Campws Singleton ac ar Gampws y Bae. Mae gan y ddau gampws gyfleusterau iechyd a ffitrwydd ardderchog, gan gynnwys dosbarthiadau ffitrwydd a gweithgareddau dan do a rhai awyr agored i gyrraedd dy nodau.

Mae ein pwll cenedlaethol 50m wedi'i ddefnyddio gan athletwyr wrth baratoi ar gyfer gemau Olympaidd a Pharalympaidd ac ar hyn o bryd mae'n gartref i raglen perfformiad uchel Nofio Cymru. Mae ein timau pêl-droed yn cael defnyddio cyfleuster hyfforddi o safon fyd-eang yn Fairwood, sy'n brif gae hyfforddi i Glwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig cyfleuster cryfder a chyflyru o'r radd flaenaf (Y Sied) sydd ar gael i athletwyr elît a thimau a ddefnyddiwyd gan y Crysau Duon Seland Newydd fel canolfan hyfforddi Cwpan Rygbi'r Byd.

### Mae ein hystod eang o gyfleusterau chwaraeon yn cynnwys:

- Cae Artiffisial ar sail dŵr
- Caeau Chwarae
- Cyrtiau tennis
- Gwasanaeth llogi beiciau a llwybrau rhedeg
- Neuaddau chwaraeon amlbwrpas ac ardaloedd gemau awyr agored
- Pafiliwn chwaraeon
- Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe
- Trac a chae athletau
- Trac athletau dan do


abertawe.ac.uk/chwaraeon





# LLE I *Archwilio*





OHERWYDD EIN LLEOLIAD ARFORDIROL RHAGOROL, MAE ABERTAWE'N CYNNIG RHAI O'R CYFLEOEDD CHWARAEON DDŴR GORAU MEWN UNRHYW BRIFYSGOL YM MHRYDAIN







# LLE I *Astudio*








TREATMENT OF CANCER















# LLE I Gymdeithasu










# GWNEUD CYNALIADWYEDD YN RHAN HANFODOL O *Fywyd Myfyrwyr*

Yma ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn ffodus bod gennym amrywiaeth eang o gynefinoedd i'w mwynhau, o draethau i goetir a pharciau, ac rydym yn angerddol am ddatblygu cynaliadwy er lles ein cymuned leol, y DU a'r byd ehangach.

## GWIRFODDOLI

Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn gweithio'n galed i gynnig llawer o gyfleoedd gwahanol i gymryd rhan. Drwy ddod a chymryd rhan yn ein sesiynau rheolaidd i lanhau'r traethau, ein partïon gwaith a monitro bywyd gwyllt, bydd gen ti'r cyfle i gwrdd â phobl newydd, gwella dy gyflogadwyedd a chodi dy ymwybyddiaeth o faterion mwyaf dybryd heddiw.

**abertawe.ac.uk/discovery**



"Mae gwirfoddoli fel myfyriwr ôl-raddedig yn anhygoel oherwydd mae'n rhoi'r cyfle i ddod i adnabod a theimlo fel rhan o'r brifysgol a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn wir yn achos ôl-raddedigion sy'n newydd i Abertawe ac sydd yma am gyfnod byr yn unig. Mae 'Discovery', elusen wirfoddoli a arweinir gan fyfyrwyr Prifysgol Abertawe, yn caniatáu i ti gwrdd â phobl o'r gymuned leol a'r brifysgol, a chael effaith gadarnhaol ar yr un pryd."

**Lizzie Wilde**
Niwrowyddoniaeth Wybyddol, MSc

## GWOBR DINESYDD BYD-EANG

Os oes gen ti ddiddordeb mewn ailgylchu, bioamrywiaeth, lles neu unrhyw beth yn y canol, mae gennym ni rywbeth i ti! Ein rhaglen ymgysylltu â myfyrwyr flaenllaw yw'r **Wobr Dinesydd Byd-Eang**

Mae cwblhau'r wobr yn cyfrannu at dy gofnod academaidd ac mae'n addysgu ystod eang o sgiliau i ti.

**abertawe.ac.uk/cynaliadwyedd**




"Plastigau, gan gynnwys poteli plastig untro, yw'r math o sbwriel a ddarganfyddir amlaf ar draethau'r DU ac nid oes rhaid i ti edrych yn bell i'w canfod yn sbwriel ein trefi a'n mannau gwyrdd hefyd.

Mae Prifysgol Abertawe yn brifysgol gynaliadwy flaenllaw ac rydym wrth ein bodd yn gallu cefnogi Refill (cynllun sy'n darparu gorsafoedd ail-lenwi dŵr mewn lleoliadau ledled Abertawe a'r Brifysgol) gyda'n partneriaid yn Abertawe Plastig Am Ddim ac Undeb y Myfyrwyr. Mae Swyddogion Undeb Myfyrwyr wedi bod yn brysur iawn yn cefnogi lansio'r ymgyrch; bellach, mae gennym o leiaf 30 o orsafoedd Ail-lenwi ar draws ein campysau Bae a Pharc Singleton i'r gymuned gyfan eu defnyddio."

**Teifion Maddocks**
Rheolwr Cynaliadwyedd, Prifysgol Abertawe

6 CLEAN WATER AND SANITATION — SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

**4YDD YN Y DU**
**47AIN YN Y BYD**

(Times Higher Education Impact Rankings 2023)

# RYDYM YMA *i dy Helpu*

Gelli fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau cymorth myfyrwyr yn ystod dy astudiaethau ôl-raddedig, gan sicrhau bod dy amser yma ym Mhrifysgol Abertawe mor ddi-straen a hwylus â phosib.

## MYUNIHUB – Sut y gallwn dy helpu?

Mae MyUniHub yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyriwr o gofrestru i raddio. Mae'r tîm hefyd yn darparu cyngor, arweiniad ac atgyfeiriadau ar gyfer dy holl ofynion cymorth yn ystod dy amser ym Mhrifysgol Abertawe. Gelli ymweld â'n timau profiadol a chyfeillgar ar Gampws Singleton ac ar Gampws y Bae.

"Rwyf wedi tyfu cymaint fel person trwy gydol fy nghyfnod fel myfyriwr israddedig yn Abertawe a nawr yn ystod fy nghyfnod fel myfyriwr ôl-raddedig yn ogystal ac rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus yn fy hun. Rwyf wedi sylweddoli cymaint fy mod yn dwlu ar ddysgu o'i gymharu â fy nghyfnod yn yr ysgol am fy mod wedi dewis astudio rhywbeth sy'n llawer mwy pleserus nag astudio ar gyfer arholiadau TGAU neu Safon Uwch lle teimlais nad oedd modd i mi ddysgu am y pethau yr oeddwn yn dymuno dysgu amdanynt.

Rwyf wedi bod yn rhan o gymdeithasau ers y pedair blynedd diwethaf ac maent wedi gwella fy nghyfnod yn y Brifysgol mewn ffordd na allwn fod wedi'i dychmygu. Mae cynifer o bethau ar gael ac mae cychwyn dy gymdeithas dy hun yn hawdd iawn os nad oes rhywbeth at dy ddant. Trwy fod yn aelod o bwyllgor rwyf wedi gwella fy sgiliau arweinyddiaeth a threfnu a byddwn yn ailadrodd hyn mewn chwinciad.

Mae'r adborth academaidd yn dda iawn, caiff gwaith ei farcio'n brydlon ac fel arfer cei sylwadau ac awgrymiadau sy'n ddefnyddiol iawn ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi defnyddio canolfan gyngor y Brifysgol ar sawl achlysur ac mae'r staff wedi bod yn anhygoel. Roedd modd i mi weld rhywun ymhen ychydig o ddyddiau a derbyniais gyngor a chymorth defnyddiol iawn."

**Caroline**
(Myfyriwr Ôl-raddedig Prifysgol Abertawe, adolygiad WhatUni)

★★★★★

www.whatuni.com



# YN DY *Gefnogi*

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2023
7FED SAFLE ÔL-RADDEDIG



## Cymorth dynodedig i ti fel myfyriwr ôl-raddedig:

- Rhaglenni hyfforddiant sgiliau penodol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ac ôl-raddedig a addysgir
- Cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr/myfyrwyr aeddfed gyda chyfrifoldebau gofalu
- Meithrinfa ar y campws gydag opsiynau gofal plant hyblyg
- Swyddogion Undeb y Myfyrwyr dynodedig i gynrychioli cymuned ôl-raddedig Abertawe sy'n tyfu

**DARGANFYDDA FWY**

**abertawe.ac.uk/astudio/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr**

## GWYBODAETH AM IECHYD


Mae gofal deintyddol y Brifysgol yn cynnig ystod lawn o driniaethau'r GIG a phreifat i fyfyrwyr. Lleolir Meddygfa a Deintyddfa ar Gampws Singleton.

## SWYDDFA ANABLEDDAU

Yn sicrhau'r un profiad i'r holl fyfyrwyr. Mae Canolfan Drawsgrifio Prifysgol Abertawe (SUTC), er enghraifft, yn wasanaeth trawsgrifio arbenigol sy'n darparu adnoddau dysgu hygyrch i'w hargraffu ar gyfer myfyrwyr anabl.

## GWASANAETHAU LLES

Amrywiaeth o wasanaethau am ddim sy'n hybu ac yn edrych ar ôl lles myfyrwyr, gan gynnwys gwasanaeth cymorth iechyd meddwl, cymorth LGBTQ+, myfyrdod, gwasanaeth gwrando a chymorth mewn profedigaeth – popeth wedi'i ddarparu gan ein tîm **@BywydCampws** cyfeillgar.




## ARIAN (BYWYDCAMPWS)

Mae'r tîm hwn bob amser wrth law i dy helpu i wneud y gorau o dy arian a chadw llygad ar dy gyllideb.



# Dy Ganllaw

## I ADRAN Y CYRSIAU




### Talfyriadau a symbolau a weli di:

#### SYMBOLAU

DoB – Opsiwn dysgu o bell ar gael. Rydym yn croesawu ymholiadau gan ymgeiswyr sy'n dymuno archwilio'r posibilrwydd o astudio eu PhD trwy ddysgu o bell

ALl – Astudiaeth llawn amser

RhA – Astudiaeth rhan amser

– Modiwlau Cymraeg ar gael

ION – Mae'r holl **Raglenni a Addysgir** a restrwyd yn y tudalennau cyrsiau yn dechrau ym mis Hydref. Caiff y cyrsiau sy'n derbyn myfyrwyr newydd ym mis Ionawr eu nodi gan y symbol hwn. Gall dyddiadau cychwyn rhaglen **Ymchwil Ôl-raddedig** amrywio a bydd ganddi ddyddiad cychwyn ychwanegol, gweler tudalennau gwe'r cyrsiau unigol.

#### LLE BYDDI DI'N ASTUDIO







#### MATH O RADDAU

| | |
|---|---|
| **DBA** | Doethur mewn Gweinyddu Busnes |
| **DProf** | Mae'r cwrs gradd Doethuriaeth mewn Astudiaethau Proffesiynol ar gyfer ymarferwyr uwch. Ar ôl cwblhau'r arholiad yn llwyddiannus, byddi di ennill doethuriaeth a gellir cyfeirio atat fel Doctor. |
| **EdD** | Doethuriaeth mewn Addysg |
| **EngD** | Doethuriaeth mewn Peirianneg |
| **LLM** | Meistr yn Y Gyfraith |
| **MA** | Meistr yn y Celfyddydau |
| **MBA** | Meistr mewn Gweinyddu Busnes |
| **MBBCH** | Baglor mewn Meddygaeth a Llawfeddygaeth |
| **MD** | Doethur mewn Meddygaeth |
| **MEng** | Meistr mewn Peirianneg |
| **MPAS** | Meistr mewn Astudiaethau Cydymaith Meddygol |
| **MPhil** | Meistr mewn Athroniaeth |
| **MRes** | Meistr drwy Ymchwil |
| **MSc** | Meistr mewn Gwyddoniaeth |
| **PGCert** | Tystysgrif i Raddedigion |
| **PGDip** | Diploma Ôl-raddedig |
| **PhD** | Doethuriaeth mewn Athroniaeth. Gradd PhD yw'r radd lefel ddoethuriaeth a ddyfernir mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau. |



# ADDYSG
## CAMPWS SINGLETON

YSTYRIR BOD
**81%**
**YMCHWIL MEWN ADDYSG, CYMDEITHASEG & PHOLISI CYMDEITHASOL**
YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Addysg PhD/MPhil** ALl RhA
- **Doethur mewn Addysg EdD** RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Addysg MA/PGDip/PGCert** ALl RhA
- **Addysg (Cymru) MA** RhA
- **Addysg (Cymru): Anghenion Dysgu Ychwanegol MA** RhA
- **Addysg (Cymru): Arweinyddiaeth MA** RhA
- **Addysg (Cymru): Cwricwlwm MA** RhA
- **Addysg (Cymru): Ecwiti mewn Addysg MA** RhA

Mae ein rhaglenni yn datblygu graddedigion â meddylfryd byd-eang â phrofiad addysgol perthnasol ac eang, wedi'u cyfuno ag arbenigedd ymarferol.

Rydym yn arwain ar ymchwil/ymholi sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi ymarferwyr addysg ar bob lefel. Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn canolbwyntio ar bolisi ac yn ymateb i bolisi.

Yn fyd-eang, mae addysg yn wynebu newid digynsail gyda diwygiadau addysg sylweddol mewn llawer o wledydd. Mae cyfleoedd o'r fath yn ei gwneud yn amser cyffrous i astudio am radd ôl-raddedig mewn addysg ym Mhrifysgol Abertawe.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, gyda llawer o gyfleoedd i wneud cysylltiadau ar draws disgyblaethau.
- Mynediad at adnoddau hyfforddiant gwerthfawr.
- Amgylchedd cydweithredol a chefnogol i ddatblygu dy wybodaeth a dy sgiliau yn y sector.
- Rhagolygon ar gyfer y dyfodol: Mae'r MA Addysg yn cynnig llwybr rhagorol at ymchwil bellach neu astudio yn y gwyddorau cymdeithasol; neu yrfaoedd yn y sector addysg, gwaith polisi, ymchwil a datblygu.
- Bydd astudio ar y rhaglen MA mewn Addysg yn rhoi cyfle i ti ddatblygu:
  – Gwybodaeth a sgiliau i ddadansoddi polisi addysg, addysgeg ac athroniaeth
  – Dealltwriaeth o faterion allweddol mewn addysgu a dysgu i gefnogi dy ymarfer proffesiynol
  – Sgiliau ymchwil a dadansoddi uwch
  – Dylunio a chwblhau dy brosiect ymchwil gwreiddiol dy hun

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn cynnig rhaglenni ôl-raddedig wedi'u llywio gan y diweddaraf mewn ymchwil ac arloesi.
- Elwa o'n partneriaethau rhyngwladol a'n dull cydweithredol unigryw o ymchwilio a dysgu.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Cynradd gyda SAC, PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Bioleg, PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Cemeg, PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Cyfrifiadureg, PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Cymraeg, PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Dylunio a Thechnoleg, PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Ffiseg, PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg, Sbaeneg), PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Mathemateg, PGCert
- TAR Uwchradd gyda SAC: Saesneg, PGCert

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Ysgoloriaethau Cymraeg ar gael, gweler tudalen 50

# ASTUDIAETHAU AMERICANAIDD
## CAMPWS SINGLETON



### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Astudiaethau Americanaidd MA drwy Ymchwil/MPhil** AU RhA
- **Astudiaethau Americanaidd PhD** AU

Ymchwilia mewn i fyd hynod ddiddorol a chymhleth yr Unol Daleithiau gyda'n rhaglen Astudiaethau Americanaidd.

Gyda ffocws ar hanes, llenyddiaeth, gwleidyddiaeth, a diwylliant, mae ein rhaglen MA drwy Ymchwil, MPhil neu PhD yn ymdrin â themâu megis mewnfudo, democratiaeth, caethwasiaeth, imperialaeth, amlddiwylliannaeth, hil ac ethnigrwydd, hanes trefol, yr economi, a therfysgaeth. Nid yw'r themâu hyn yn gyfyngedig i'r gorffennol yn unig, ond maent yn parhau i lywio'r byd rydym yn byw ynddo heddiw. Gad inni dy helpu i archwilio a dadansoddi tirwedd amlochrog yr Unol Daleithiau trwy ddull personol a deniadol o ddysgu.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Prifysgol Abertawe yw'r ganolfan Astudiaethau Americanaidd fwyaf blaenllaw yng Nghymru, sy'n cydweithredu â nifer o brifysgolion ledled yr Unol Daleithiau ar brosiectau ymchwil, yn ogystal â chynnig rhaglen lawn o siaradwyr gwadd.
- Mae MA drwy Ymchwil, PhD neu MPhil mewn Astudiaethau Americanaidd yn galluogi myfyrwyr i ymgymryd â phrosiect sylweddol wedi'i arwain gan eu diddordebau personol. Mae ein staff academaidd yn ysgrifennu ac yn cyhoeddi'n eang ac yn cynnig goruchwyliaeth arbenigol unigol ar draws amrywiaeth helaeth o bynciau mewn amgylchedd ymchwil byw a deinamig.
- Byddi d'n astudio amrywiaeth eang o ddiddordebau ymchwil, gan gynnwys llenyddiaeth, hanes, gwleidyddiaeth a llywodraeth, ffilm a diwylliant America.
- Gall raglen MA drwy Ymchwil, PhD neu MPhil mewn Astudiaethau Americanaidd, arwain at yrfa yn y byd academaidd, mewn addysg, llywodraeth neu yn y sector preifat.

**10 UCHAF**
YN Y DU
**ASTUDIAETHAU AMERICANAIDD**
(Times Good University Guide 2023)**

### PAM ABERTAWE?

- Cei di fynediad at ein casgliadau llyfrgell helaeth i gefnogi dy anghenion ymchwil. Mae hyn yn cynnwys Casgliad Allan Milne o dros 3,000 o ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn perthynas â Rhyfel Cartref America – un o'r casgliadau mwyaf o'i fath yn y DU.
- Bydd ein staff yn dy gefnogi drwy dy ddatblygiad academaidd a phroffesiynol. Byddi di'n cael manteisio ar fannau astudio dynodedig â chyfleusterau TG a chei dy annog i fod yn rhan o'n cymuned ymchwil fywiog.
- Wedi'i leoli ar gampws Parc Singleton, byddi di'n gallu mwynhau bywyd campws i'r eithaf, gan elwa o amrywiaeth eang o wasanaethau, gweithgareddau a chlybiau – i gyd mewn lleoliad hyfryd ar lan y môr, yn agos at ganol dinas fywiog a hanesyddol.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Cysylltiadau Rhyngwladol, MA
- Gwleidyddiaeth, MA
- Hanes, MA
- Hanes, MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil
- Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth, MA
- Hanes Modern, MA
- Rhyfel a Chymdeithas, MA

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Safleoedd sy'n benodol i israddedigion sy'n cynnwys asesu ansawdd ymchwil sefydliad.

# ASTUDIAETHAU CANOLOESOL

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Astudiaethau Canolesol MA** ALl RhA

Byddi di'n gweithio gyda haneswyr, ysgolheigion llenyddol ac archeolegwyr sy'n arbenigo mewn meysydd rhywedd a rhywioldeb, crefydd a chred, datblygiad trefol a thirweddau, hanes cyfreithiol a diwylliant dogfennol, meddygaeth, hil a hunaniaeth, a brenhiniaeth, aristocratiaid a rhyfela.

Mae'r MA hwn yn ymdrin â hanes o'r cynfyd hwyr i'r dadeni, a rhanbarthau o Ynysoedd Prydain, i'r Normaniaid yng Ngorllewin Ewrop, Môr y Canoldir a'r Dwyrain Lladin.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Hyfforddiant mewn dulliau ac ymagweddau uwch ar gyfer astudio'r gorffennol canoloesol.
- Cyfle i astudio Saesneg Canol.
- Elwa ar ein partneriaethau cryf gyda sefydliadau fel Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru), ac Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru.
- Ymuna ag amgylchedd ôl-raddedig cefnogol a chydweithredol gyda mynediad i gyfleusterau ein Canolfan Graddedigion.
- Cwrs sy'n cyfuno disgyblaethau hanes ac astudiaethau llenyddol ond sy'n rhoi cyfle i ti ddilyn un llwybr neu eu cyfuno yn dy draethawd estynedig terfynol.

YSTYRIR BOD

**100%**

**EFFAITH YMCHWIL YN YR ADRAN HANES**

**YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL**

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### PAM ABERTAWE?

- Byddi di'n astudio mewn dinas, rhanbarth a chenedl a chanddynt dreftadaeth ganoloesol gyfoethog.
- Byddi di'n cael cyfle i weithio gyda chanolfannau ymchwil y brifysgol gan gynnwys MEMO, Canolfan Abertawe ar gyfer Ymchwil Ganoloesol a Modern Cynnar.
- Cei gyfleoedd i ymgysylltu â sefydliadau gan gynnwys, Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg a Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Henffordd.
- Cei dy addysgu gan academyddion y barnwyd bod eu hymchwil yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Hanes, MA
- Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth, MA

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# BIOWYDDORAU
## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Biowyddorau MRes ALl RhA
- Gwyddorau Biolegol MPhil/PhD ALl RhA DoB

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Bioleg Amgylcheddol: Cadwraeth a Rheoli Adnoddau MSc ALl RhA

Mae Abertawe'n cynnig amgylchedd eithriadol i fyfyrwyr Biowyddorau gyda chanolfannau ymchwil o'r radd flaenaf, labordai llawn offer, a pharcdir ac arfordir syfrdanol. Mae Cwm Tawe, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Phenrhyn Gŵyr gerllaw (sy'n safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU), yn darparu cynefinoedd amrywiol i fyfyrwyr eu harchwilio a dysgu oddi wrthynt. Mae'n lleoliad delfrydol i fyfyriwr y Biowyddorau ffynnu ynddo, gan ei wneud yn ddewis rhagorol i unrhyw un sydd am ddilyn gyrfa yn y maes hwn.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae ein rhaglenni’n canolbwyntio ar y perthnasoedd rhwng organeddau byw a'r amgylcheddau tirol, dŵr croyw a dyfrol, ynghyd â rhyngweithio sy'n ganlyniad prosesau naturiol ac anthropogenig.
- Rydym ni'n cynnal ymchwil ar draws y gwyddorau naturiol, sy'n cyfuno gwyddoniaeth sylfaenol a chymhwysol i roi amgylchedd ymchwil cynhwysfawr.
- Mae ein hymchwil yn canolbwyntio ar bedair thema, sydd wedi'u hintegreiddio yn ein cenhadaeth addysg: Systemau Morol a Dŵr Croyw, Ymddygiad Ecoleg ac Esblygiad, Bioamrywiaeth ac Ecosystemau, Cynnyrch Naturiol ac Adnoddau Amgylcheddol.
- Byddi di'n cael dy addysgu gan amrywiaeth o arbenigwyr ysbrydoledig y biowyddorau, gan gynnwys Dr Richard Unsworth, ymgynghorydd ar gyfres fyd-enwog y BBC, Blue Planet II a'r Athro Carlos Garcia de Leaniz, sy'n arbenigwr mewn ymddygiad, cadwraeth ac ecoleg eogiaid ac sy'n arweinydd prosiect AMBER Ewropeaidd aml-bartner.

**350 UCHAF**
YN Y BYD
**BIOWYDDORAU**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Mae gennym ni gysylltiadau dylanwadol mewn sefydliadau rhyngwladol a chenedlaethol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Mamaliaid Prydain a Chanolfan Gwlypdiroedd Naturiol Cymru i ychwanegu gwerth at dy astudiaethau.
- 11eg yn y DU am Ansawdd Ymchwil (The Complete University Guide 2024).
- Ystyrir 90% o'n hallbynnau ymchwil yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Bydd myfyrwyr yn elwa o'n cyfleusterau addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf, gan gynnwys y Ganolfan Ymchwil Ddyfrol Gynaliadwy sy'n cynnwys labordai a reolir, gyda systemau dyfrol ailgylchredeg.
- Mae hefyd gennym ni gwch arolygu dosbarth catamarán 18 metr a chanolfan ddelweddu sy'n unigryw yn y byd sy'n dangos gwybodaeth ddimensiynol o ddata olrhain anifeiliaid.
- Mae rhai o'n graddedigion diweddar wedi symud ymlaen i yrfaoedd llwyddiannus fel Ecolegwyr, Swyddogion Hydrometreg a Thelefetreg, Tacsonomyddion Dyfynforol a Swyddogion Bywyd Gwyllt ac Addysg.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**



# Chloe Robinson

MSc Bioleg Amgylcheddol,
PhD Gwyddorau Biolegol

Y peth mwyaf a helpodd i mi gyrraedd lle rydw i heddiw oedd y cyfleoedd a gefais gan Brifysgol Abertawe o ran cyflwyno gerbron fy nghyd-fyfyrwyr a'n darlithwyr mewn seminarau megis Cyfres Seminarau i Ôl-raddedigion a alluogodd i mi ddatblygu fy sgiliau a lleddfu fy mhryderon mewn awyrgylch ddiogel lle nad oeddwn yn cael fy meirniadu.

Pe bai rhywun wedi dweud wrthyf y byddwn i'n cael fy mhenodi'n 'Gynrychiolydd Allgymorth Ysgolion' pan oeddwn i yn y brifysgol ni fyddwn wedi'i gredu. Trwy gydol fy ngradd israddedig ym Mhrifysgol Abertawe roedd cyflwyno a siarad gerbron pobl yn codi ofn enfawr arnaf ac roeddwn i'n osgoi hynny cymaint â phosib. Fodd bynnag, derbyniais i hyfforddiant rhagorol gan ddarlithwyr yn yr Adran Biowyddorau ar ddiwedd fy nghwrs gradd BSc ac yn ystod fy nghwrs gradd MSc gan fy helpu i fynd i'r afael â'm hofnau a dechrau magu fy hyder.

> "Cyfres Seminarau i Ôl-raddedigion a alluogodd i mi ddatblygu fy sgiliau a lleddfu fy mhryderon mewn awyrgylch ddiogel lle nad oeddwn yn cael fy meirniadu."

# CEMEG
## CAMPWS SINGLETON

YSTYRIR BOD **97.9%** CYHOEDDIADAU YMCHWIL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Cemeg MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA

Mae Cemeg yn ffynnu yn Abertawe, gan bontio amrywiaeth eang o feysydd, a disgwylir y bydd ein hymchwil yn lluosi'n gyflym dros y tair blynedd nesaf. Mae ein grwpiau ymchwil ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar bedair thema: Ynni; Iechyd; Moleciwlau a Deunyddiau Newydd ac Uwch; a Dŵr a'r Amgylchedd. Mae'r mentrau hyn yn mynd y tu hwnt i ffiniau disgyblaethau traddodiadol ac yn integreiddio meysydd craidd o gemegolion organig, anorganig, ffisegol a dadansoddol, yn ogystal â thorri ar draws disgyblaethau eraill sy'n ymwneud â pheirianneg, meddygaeth a gwyddoniaeth.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae ymchwil effaith uchel eisoes yn cael ei gwneud mewn canolfannau o'r radd flaenaf yn Abertawe, gan gynnwys: Y Ganolfan NanoIechyd, Y Sefydliad Sbectrometreg Màs, Sefydliad y Gwyddorau Bywyd, Y Sefydliad Ymchwil i Ddiogelwch Ynni, a'r Ganolfan Nanodechnoleg Aml-ddisgyblaethol, y Ganolfan ar gyfer Technolegau Dŵr ac Ymchwil Amgylcheddol Uwch.
- Mae gennym gysylltiadau eithriadol â diwydiant (gyda pherthnasoedd cydweithredol diwydiannol eang ym maes lled-ddargludyddion, dur, nwyddau fferyllol a synhwyro), ynghyd ag agenda ar gyfer cynhyrchu effeithiau economaidd-gymdeithasol hirdymor sy'n deillio o ymchwil gymhwysol.
- Rydym ni'n gweithio'n agos gydag adrannau eraill ar draws y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, gan alluogi myfyrwyr a staff i feithrin amgylchedd o ragoriaeth ymchwil.
- Ar gyfer ein rhaglenni ymchwil, rydym ni'n gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys iawn y mae eu diddordeb ymchwil yn canolbwyntio ar thema Ynni Cemeg; Cemeg Iechyd, Bwyd a Chyffuriau; Cemeg Deunyddiau; Cemeg Lled-ddargludyddion a Chemeg Arwyneb; a Sbectrosgopeg.

### PAM ABERTAWE?

- Mae gan ein Hadran Gemeg gyfleusterau o'r radd flaenaf gan gynnwys Hyb Cemeg pwrpasol sy'n cynnwys labordai addysgu modern, mannau ymchwil a mynediad i amrywiaeth eang o isadeileddau ymchwil.
- Gelli di elwa o'n profiad labordy ymarferol yn ein Canolfan Nanodechnoleg gwerth £22 miliwn a'n Canolfan ar gyfer Deunyddiau Lled-ddargludol Integredig newydd gwerth £30 miliwn.
- Byddi di'n cael profiad o dechnolegau sydd ar flaen y gad, ac yn rhyngweithio ag arbenigwyr o fyd diwydiant, yn datblygu set sgiliau eang a rhwydwaith o gysylltiadau a fydd yn gwella dy gyfleoedd cyflogaeth, megis yn y diwydiant lled-ddargludyddion sy'n ehangu'n gyflym.
- Mae ein hymchwil yn hanfodol i helpu cwmni sydd wedi'i leoli yn Abertawe i ddatblygu ei dechnoleg micronodwyddo a dod â'r dechnoleg honno i'r farchnad. Rydym yn gweithio gyda chwmni lled-ddargludyddion arweiniol i arallgyfeirio ei bortffolio o gymwysiadau a'i wybodaeth am brosesau, gan ei alluogi i ehangu i farchnadoedd newydd.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Peirianneg Electonig a Thrydanol, MSc
- TAR Uwchradd gyda SAC: Cemeg, PGCert

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**



# John Hudson

PhD mewn Cemeg
**Grŵp ReD / SerSAM**

Mae Prifysgol Abertawe wedi rhoi cyfle i mi fynd ar drywydd ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang gan ddarganfod rhai o leoliadau cefn gwlad mwyaf prydferth Cymru ar yr un pryd. Mae'r cyfleusterau ar Gampws Singleton a Champws y Bae wedi bod yn gefnogaeth ardderchog i fy ymchwil, ac rwy'n llawn cyffro am y gwaith y byddaf yn gallu parhau i'w wneud trwy weddill fy noethuriaeth.

Gan fod Cemeg yn adran weddol newydd yn Abertawe, mae'n deimlad cyffrous bod yn rhan o gymuned o ymchwilwyr sydd oll yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth a chyfrannu at eu meysydd priodol. Fel myfyriwr PhD newydd, roedd sylfaen gref Abertawe mewn ymchwil gydweithredol yn amlwg iawn, ac rwyf wedi teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi'n fawr wrth ddysgu am gyfleusterau neu ddisgyblaethau ymchwil newydd.

Mae'r ymdeimlad cydweithredol hwn yn amlwg nid yn unig o fewn yr adran ond ar draws y cyfadrannau, gyda fy ymchwil i yn cyffwrdd â'r grwpiau SerSAM yn Ffiseg a SPECIFIC yn yr adran beirianneg – ac mae pawb yno wedi bod yn groesawgar iawn, ac wedi gwneud fy amser yn Abertawe mor bleserus a gwerth chweil.

Rwy'n teimlo bod yr amgylchedd ymchwil cyfan hwn wedi fy nghefnogi trwy gydol fy noethuriaeth. Gyda'u cymorth nhw, cefais fy enwebu yn ddiweddar i restr fer gwobrau STEM i Brydain 2022. Cefais y cyfle i gyflwyno fy ymchwil i wleidyddion yn Senedd y Deyrnas Unedig ac esbonio effaith y gwaith rydym yn ei wneud ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd yn fraint cael derbyn y Wobr Efydd mewn Cemeg fel rhan o hwn, yn ogystal â'r lle cyntaf yng ngwobrau Dyson am Ymchwil tuag at greu Dyfodol Mwy Cynaliadwy.

“Gan fod Cemeg yn adran weddol newydd yn Abertawe, mae'n deimlad cyffrous bod yn rhan o gymuned o ymchwilwyr sydd oll yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth a chyfrannu at eu meysydd priodol.”

# Y CLASURON, HANES YR HENFYD AC EIFFTOLEG

## CAMPWS SINGLETON

YN Y SAFLE
**51-90**
YN Y BYD
**Y CLASURON A HANES YR HENFYD**
(QS World University Rankings 2023)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Y Clasuron MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil AU RhA
- Eifftoleg MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil AU RhA
- Hanes yr Henfyd MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil AU RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Hanes yr Henfyd a Diwylliant Clasurol MA AU RhA
- Llên Naratif yr Henfyd MA AU RhA

Dechreua dy astudiaethau ôl-raddedig gan ganolbwyntio ar hanes, diwylliant, ieithoedd neu lenyddiaeth yr henfyd. Mae ein cyrsiau hynod ddiddorol a thrylwyr yn cynnwys gwareiddiadau hen Roeg, Rhufain a'r Aifft, a'u cymdogion, gan ddefnyddio tystiolaeth hynafol a syniadau modern i archwilio'r cymeriad, effaith, etifeddiaeth a threftadaeth y gwareiddiadau hynafol hyn.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Byddi di'n datblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol i wella dy ddealltwriaeth o'r henfyd.
- Cei ddewis o amrywiaeth helaeth o fodiwlau ar draws disgyblaethau hanes a diwylliant, ieithoedd a llenyddiaeth, gan roi cyfle i ti ganolbwyntio ar dy ddiddordebau personol a'r hyn sy'n tanio dy frwdfrydedd.
- Bydd dy adnoddau astudio yn cynnwys y brif lyfrgell sydd â digonedd o ddeunydd gan gynnwys ffynonellau llenyddol a dogfennol hynafol, cyhoeddiadau archeolegol, epigraffeg a phapurolegol, ynghyd â deunydd ysgolheigaidd modern perthnasol. Mae casgliadau'r llyfrgell yn cynnwys ystod eang o gyfnodolion cyffredinol ac arbenigol, a nifer gynyddol o adnoddau digidol arbenigol. Mae gan fyfyrwyr fynediad hefyd at gasgliadau ac adnoddau'r Ganolfan Eifftaidd ar y campws. Cynigir hyfforddiant arbenigol hefyd drwy'r canolfannau ymchwil.
- Byddi di'n gweithio ochr yn ochr â goruchwylwyr sy'n gwneud ymchwil o'r radd flaenaf mewn llawer o feysydd pwnc amrywiol, gan fireinio a datblygu dy sgiliau ymchwil dy hun.
- Mae'r meysydd arbenigedd presennol yn cynnwys: hanes, cymdeithas a diwylliant yr hen Aifft, a'i rhyngweithiadau â thiriogaethau cyfagos yn Nubia a'r Dwyrain Agos; llenyddiaethau naratif hynafol; Cyprus fel croesffordd o ddiwylliant hynafol; bwyd yn y diwylliant Rhufeinig; Pompeii a Dinasoedd Vesuvius; rhyngweithiadau rhwng y bydoedd Groegaidd a Rhufeinig a thiriogaethau cyfagos ar draws Affro-Ewrasia o'r cyfnod hynafol hyd at y cynfyd hwyr; crefyddau Groeg a Rhufain a Christnogaeth gynnar; diogelu treftadaeth ddiwylliannol hynafol mewn cylchfaoedd rhyfeloedd modern.
- Mae prosiectau PhD presennol a phrosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar yn cynnwys: creu a chylchredeg amwledau yn nelta'r Nîl yn y mileniwm cyntaf cyn yr oes gyffredin; ideolegau o lywodraeth yn yr hen Aifft; cynrychioliadau o Bersiaid mewn nofelau Groeg hynafol; ethnigrwydd a ffederaliaeth yng Ngwlad Roeg hynafol; trawsnewidiadau'r llys Rhufeinig yn y cyfnod hynafol hwyr.

### PAM ABERTAWE?

- Ymuna â chymuned ôl-raddedig glos a chael dy addysgu gan academyddion a gydnabyddir yn rhyngwladol.
- Elwa o fynediad at ein hadnoddau unigryw megis amgueddfa ar-gampws Prifysgol Abertawe, Y Ganolfan Eifftaidd a'i chasgliadau o eitemau Groegaidd-rufeinaidd ac Eifftaidd.
- Bydd yn rhan o gymuned ymchwil ffyniannus ym Mhrifysgol Abertawe, gan gynnwys Grŵp Ymchwil OLCAP (Object and Landscape Approaches to the Past), Canolfan Ymchwil KYKNOS ar gyfer llên naratif yr henfyd.
- Datblyga sgiliau rhyngbersonol trwy gymryd rhan yn ein cymdeithasau myfyrwyr gweithgar, gan gynnwys ein cymdeithasau'r Henfyd a Hanes, a thrwy fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli yn y Ganolfan Eifftaidd.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Astudiaethau Canoloesol, MA
- Hanes, MA
- Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth, MA
- Hanes Modern, MA

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# CYFRIFEG A CHYLLID
## CAMPWS Y BAE

ADDYSGIR YR HOLL FODIWLAU **GAN ACADEMYDDION O'R RADD FLAENAF**

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Cyllid PhD** ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Cyfrifeg a Chyllid Rhyngwladol MSc** ALl
- **Cyllid a Dadansoddeg Data Mawr MSc** ALl
- **Rheoli Ariannol Rhyngwladol MSc** ALl

Rydym yn cynnig rhaglenni Cyfrifeg a Chyllid sy'n addas ar gyfer myfyrwyr ag unrhyw radd israddedig neu sydd am gael gyrfa mewn cyfrifeg neu gyllid.

Mae llawer o'n modiwlau'n cynnig achrediad proffesiynol gan Gymdeithas y Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig (ACCA), Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli (CIMA), Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Lloegr a Chymru (ICAEW) a fydd yn dy gysylltu â chyrff proffesiynol neu'n rhoi eithriadau i ti rhag sefyll arholiadau proffesiynol ac allweddol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Addysgu gan arbenigwyr academaidd sydd wedi cael profiad o fri ym meysydd cyfrifeg a chyllid, gan sicrhau dy fod ti'n dysgu'r wybodaeth fwyaf cyfoes sy'n berthnasol i'r diwydiant.
- Labordy Cyllid pwrpasol sy'n cynnig mynediad at feddalwedd ariannol arbenigol a data marchnadoedd.
- Cymorth rhagorol i fyfyrwyr, ochr yn ochr â dy astudiaethau, gan gynnwys mynediad llawn at dîm o arbenigwyr a chynghorwyr gyrfaoedd.
- Pwyslais ar ymchwil sy'n cynnwys addysgu ymarferol gan dîm o arbenigwyr yn y sector.

### PAM ABERTAWE?

- Achrediad gyda chyrff proffesiynol a chysylltiad â Chymdeithas y Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig (ACCA), Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli (CIMA), a Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yn Lloegr a Chymru (ICAEW).
- Byddi di'n astudio yn adeilad yr Ysgol Reolaeth y buddsoddwyd £22 miliwn ynddo.
- Rydym yn darparu mannau addysgu ac ystafelloedd astudio dynodedig a chyfleusterau TG, i gyd ar gael ar Gampws y Bae arloesol.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Rheoli (Cyllid), MSc
- Rheoli (Dadansoddeg Busnes), MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

ACCA CIMA ICAEW

Proffil Myfyriwr
gweler y dudalen nesaf



# Wing Man Natalie KO

Cyfrifeg Strategol MSc

Roedd yn hanfodol cael addysg fwy trylwyr i'm helpu i baratoi ar gyfer gyrfa mewn cyfrifeg yn fy marn i. Cefais yr wybodaeth angenrheidiol i wella a datblygu fy ngallu yn rhan o'r cwrs.

Mae cynnwys y cwrs wedi'i strwythuro o amgylch arholiadau cyfrifeg broffesiynol, ac rwyf eisoes wedi llwyddo mewn tri o'r arholiadau ACCA allanol drwy'r gwaith paratoi a ddarparwyd yn y modiwlau perthnasol.

Uwch-reoli Perfformiad yw fy hoff fodiwl; mae'r darlithydd yn dda iawn ac fe'm helpodd i ddeall y pwnc go iawn.

Es i rai gweithgareddau a gynhaliwyd gan Gymdeithas Hong Kong gan mai dyma'r tro cyntaf i mi astudio dramor, ac roeddwn i'n gallu cwrdd â nifer o fyfyrwyr eraill o'm gwlad gartref ac ymgyfarwyddo ag ardal Abertawe.

> "Cefais yr wybodaeth angenrheidiol i wella a datblygu fy ngallu yn rhan o'r cwrs."

# CYFRIFEG A CHYLLID – ARBENIGAETHAU

## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Cyllid PhD ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Bancio Rhyngwladol a Chyllid MSc ALl
- Cyfrifeg Broffesiynol MSc ALl
- Cyfrifeg Strategol MSc ALl
- Cyllid Cynaliadwy MSc ALl
- Cyllid Rhyngwladol MSc ALl
- Dadansoddeg Ariannol MSc ALl
- Rheoli Buddsoddiadau MSc ALl
- Technoleg Ariannol (TechAriannol) MSc ALl

Rydym yn cynnig cyfres o raglenni MSc uwch ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes wedi astudio cyfrifeg, cyllid, neu sydd o gefndiroedd israddedig cysylltiedig ac sydd am arbenigo a gwella eu cyflogadwyedd a'u rhagolygon gyrfa.

Mae ein cymuned ffyniannus o fyfyrwyr ôl-raddedig wedi'u denu o bedwar ban byd, a byddi di'n elwa o'n campws arloesol ar Gampws y Bae sy'n cynnig mannau addysgu ac ystafelloedd astudio dynodedig, cyfleusterau TG helaeth ac amrywiaeth o feddalwedd arbenigol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Rhaglenni arbenigol uwch y gellir eu cwblhau mewn un flwyddyn, gyda modiwlau'n cael eu haddysgu gan ein cyfadran o safon fyd-eang sy'n meddu ar wybodaeth ddiwydiannol ac academaidd.
- Labordy Cyllid penodol sy'n cynnig mynediad at feddalwedd ariannol a data marchnadoedd.
- Cymorth rhagorol i fyfyrwyr, ochr yn ochr â dy astudiaethau, gan gynnwys mynediad llawn at dîm o arbenigwyr a chynghorwyr gyrfaoedd.
- Arbenigedd academaidd ym meysydd rheoli ariannol, technoleg ariannol, dadansoddeg, data mawr, buddsoddi a bancio.

MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

CFA Institute

CEI WEITHIO GYDA **THÎM RHYNGWLADOL ARDDERCHOG O ARBENIGWYR ACADEMAIDD**

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn cynnig rhaglenni ôl-raddedig sydd wedi'u llywio gan yr ymchwil a'r arloesi diweddaraf.
- Byddi di'n astudio yn adeilad yr Ysgol Reolaeth y buddsoddwyd £22 miliwn ynddo.
- Rydym yn darparu mannau addysgu ac ystafelloedd astudio dynodedig a chyfleusterau TG, i gyd ar gael ar Gampws y Bae arloesol.
- Achrediad corff proffesiynol a chysylltiadau cryf â'r Sefydliad Ariannol Siartredig (CFA).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Economeg, MSc
- Economeg a Chyllid, MSc
- Gwyddor Actiwaraidd, MSc
- Mathemateg a Chyfrifiadura ar gyfer Cyllid, MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau

# CYFRIFIADUREG

## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Cyfrifiadura Gweledol a Rhyngweithiol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Cyfrifiadura Gweledol MRes ALl
- Cyfrifiadura a Thechnolegau Rhyngweithio'r Dyfodol MRes ALl RhA
- Cyfrifiadureg MSc drwy Ymchwil MPhil ALl RhA
- Cyfrifiadureg PhD ALl DoB
- Cyfrifiadureg Ddamcaniaethol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Rhesymeg a Chyfrifiannu MRes ALl RhA
- Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron MSc drwy Ymchwil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Data Mawr a Deallusrwydd Artiffisial o Safbwynt Defnyddwyr MSc ALl
- Cyfrifiadureg MSc ALl RhA
- Cyfrifiadureg: Informatique (llwybr Abertawe/Grenoble) MSc ALl
- Cyfrifiadureg Uwch MSc ALl RhA ION
- Gwyddor Data MSc ALl RhA
- Seiberddiogelwch MSc ALl RhA
- Technoleg Meddalwedd Uwch MSc ALl RhA

Mae adran Gyfrifiadureg Prifysgol Abertawe wedi mynd trwy dwf sylweddol yn ddiweddar, gyda ffocws ar ymchwil arloesol a thrawsnewidiol mewn meysydd cyfrifiannol a mathemategol.

Mae adeilad newydd y Ffowndri Gyfrifiadol, sy'n cynnwys cyfleusterau o safon fyd-eang, wedi'i sefydlu fel canolbwynt yr adran. Mae'r labordai wedi'u rhwydweithio'n llawn, gan gynnig systemau gweithredu Windows a Linux, ac ystod gynhwysfawr o feddalwedd rhaglenni fel Java, C#, a'r fframwaith .NET, C, C++, Haskell, a Prolog. Mae'r adran yn falch o ddarparu mynediad am ddim i'w holl feddalwedd, sy'n ffynhonnell agored ac sydd ar gael i ti fel myfyriwr.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae ein rhaglenni MSc yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth drylwyr mae eu hangen arnot ti i ragori yn dy faes, boed hynny drwy astudio pellach, ymchwil neu yrfa sy'n rhoi boddhad ym maes cyfrifiadureg neu ddiwydiannau cysylltiedig.
- Caiff prosiectau ymchwil eu llywio drwy gyfranogiad mewn gweithgareddau megis seminarau, gweithdai, gweithgarwch labordy a gwaith maes, yn ogystal â dy gyfranogiad yn un o'n grwpiau ymchwil sefydledig.
- Rydym ni'n gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys iawn y mae eu diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar ein themâu: Grŵp Cyfrifiadura Gweledol a Rhyngweithiol, Grŵp Rhesymeg a Chyfrifiadura, Grŵp Technoleg y Dyfodol a'r Grŵp Diogelwch.

ION **Gelli di ddechrau'r rhaglen hon** ym mis Ionawr hefyd, gweler tudalen 64

**150 UCHAF YN Y BYD CYFRIFIADUREG**

(Times Higher Education World University Rankings (THE) 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Mae Effaith Ymchwil Cyfrifiadureg yn Abertawe wedi cyflawni sgôr o 100% o ran arwain y byd a rhagorol yn rhyngwladol (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Bydd arbenigwyr llawn ysbrydoliaeth yn dy addysgu, pobl fel yr Athro Matt Jones, sy'n cael ei gydnabod yn eang fel arweinydd ym maes grymuso cymunedau digidol gwledig yn y DU a ledled y byd sy'n datblygu.
- Mae'r Ffowndri Gyfrifiadol gwerth £32.5 miliwn wrth wraidd ein holl gyrsiau, gyda chyfleusterau addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf, gan gynnwys Labordy Golwg a Biometreg, Labordy Creu, Labordy Damcaniaeth, Labordy Seiberddiogelwch/Rhwydweithio, Labordy Defnyddwyr ac Ystafelloedd Delweddu.
- Mae ein labordai'n cael eu diweddaru'n rheolaidd i sicrhau nad yw'r cyfarpar byth yn fwy na thair blwydd oed, ac yn anaml ddim yn fwy na dwy flwydd oed.
- Mae ein graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i gael gyrfaoedd llwyddiannus fel Peirianwyr Meddalwedd, Datblygwyr Llif Gwaith, Rhaglennwyr, Datblygwyr Gwe a Dadansoddwyr Cymwysiadau Busnes.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gwyddor Actiwaraidd, MSc
- TAR Uwchradd gyda SAC: Cyfrifiadureg, PGCert

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# Y CYFRYNGAU, CYFATHREBU A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu PhD/MPhil ALl RhA
- Astudiaethau'r Cyfryngau MA drwy Ymchwil ALl RhA
- Dyniaethau Digidol MA drwy Ymchwil ALl RhA
- Sgrinio/Llwyfannu Ewrop MA drwy Ymchwil ALl RhA
- Y Cyfryngau Digidol MA drwy Ymchwil ALl RhA MPhil ALl

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Cyfathrebu, Arferion y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus MA ALl RhA ION
- Cyfathrebu a Newyddiaduraeth Chwaraeon MA ALl RhA
- Newyddiaduraeth Ryngwladol MA ALl RhA
- Rheoli (Cyfryngau) MSc ALl RhA *
- Y Cyfryngau Digidol MA ALl RhA

O'r cyfryngau print a darlledu traddodiadol i ffilm a theledu, cyhoeddi digidol, rhwydweithio cymdeithasol, a chysylltiadau cyhoeddus, mae'r cyfryngau'n dylanwadu'n fwyfwy ar y ffordd rydym yn rhyngweithio â'n cymdeithas. Mae'n llunio ein ffordd o'n gweld ein hunain ac eraill, a gall fod yn arf bwerus i gyflawni newid cymdeithasol, er gwell neu er gwaeth.

Mae ein rhaglenni ôl-raddedig a addysgir ac ymchwil yn dy alluogi i ymchwilio i'r pynciau hyn, ochr yn ochr â mentora personol gan arbenigwyr yn dy faes astudio.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Un o brif elfennau ein rhaglenni yw'r prosiect mawr neu'r traethawd estynedig sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu arbenigedd mewn maes diddordeb penodol.
- Os wyt ti eisoes yn weithiwr proffesiynol yn y diwydiant, mae'r rhaglenni hyn yn cynnig sgiliau a chymwysterau dynamig yn y cyfryngau newydd i roi hwb i dy ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Mae'r adran yn gartref i Ystafell Dylunio Adobe, Ystafell Creadigrwydd y Cyfryngau a Labordy Realiti Rhithwir. Mae'r labordai cyfrifiadurol a'r stiwdios fideo yn cynnwys cyfarpar fel cyfrifiaduron iMAC, offer Realiti Rhithwir, a meddalwedd safonol y diwydiant gan gynnwys Adobe Creative Cloud a Final Cut Pro X.
- Gelli di hefyd fanteisio ar stiwdios cynhyrchu clyweledol yr adran sy'n cynnig ystod lawn o gyfarpar, gan gynnwys sgriniau gwyrdd ac ystafelloedd golygu fideos. Dyma'r cyfle perffaith i ti fireinio dy sgiliau cynhyrchu cyfryngau ymarferol.
- Rydym ni'n gartref i Ganolfan y Celfyddydau a'r Dyniaethau Digidol (CODAH). Mae'r ganolfan yn edrych ar ffyrdd arloesol o ddefnyddio cyfarpar a dulliau digidol ar gyfer ymchwilio i fathau gwahanol o destun, data a chyfryngau, gan greu rhyngweithio rhwng ysgolheigion ar draws disgyblaethau'r dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae CODAH wedi cefnogi amrywiaeth o brosiectau a ariannwyd sydd wedi trawsnewid polisi, treftadaeth, pobl ac arferion.

PARATOI AR GYFER GYRFA YN Y **CYFRYNGAU RHYNGWLADOL CYFOES**

### PAM ABERTAWE?

- Mae ein rhaglenni wedi'u cymeradwyo gan ddiwydiant, sy'n golygu y bydd dy astudiaethau gyda ni yn dy alluogi i ddatblygu portffolio o sgiliau a fydd yn gwella dy ragolygon gyrfa a chyflogadwyedd.
- Caiff yr addysgu ei lywio gan weithgarwch ymchwil y staff a'n cryfderau sefydledig yn y meysydd pwnc hyn.
- Wedi'i leoli'n bennaf ar ein campws ysbrydoledig ym Mharc Singleton, mewn parcdir sy'n edrych dros Fae Abertawe.
- Mae ein myfyrwyr a'n staff hefyd yn cynnal gwefan gymunedol sy'n cynnwys newyddion a barn yr adran.
- Mae Campws Singleton yn gartref i Ganolfan Celfyddydau Taliesin a Chreu Taliesin, sef theatr ddeinamig, sinema a mannau creu cynhwysol ar y campws.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

*Addysgir y cwrs ar **Gampws Singleton a Champws y Bae**

ION Gelli di ddechrau'r rhaglen hon ym mis Ionawr hefyd, gweler tudalen 64

Ysgoloriaethau Cymraeg ar gael, gweler tudalen 50

# CYMDEITHASEG A PHOLISI CYMDEITHASOL

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Cymdeithaseg PhD/MPhil ALl RhA
- Dyniaethau Iechyd PhD/MPhil ALl RhA
- Polisi Cymdeithasol MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Dulliau Ymchwil Gymdeithasol MSc ALl RhA

Achuba ar y cyfle i ymgolli ym myd difyr cymdeithas ac archwilio amrywiaeth eang o bynciau, ynghyd â rhoi sylw i dy ddiddordebau dy hun. Gan astudio mewn amgylchedd ymchwil dynamig, byddi di'n datblygu dy sgiliau dadansoddi ac ymchwil ac yn meithrin meddylfryd hyderus ac annibynnol – priodoleddau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym ni'n darparu'r adnoddau i dy alluogi i ragori yn y maes o dy ddewis wrth feithrin dy dwf personol a phroffesiynol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Gelli di gael hyfforddiant mewn ystod o ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol a ddefnyddir yn y gwyddorau cymdeithasol.
- Byddi di'n dysgu gan arbenigwyr pwnc, gyda chyfoeth o brofiad academaidd ac ymarferol mewn ystod o feysydd ymchwil gan gynnwys: troseddeg, gwaith cymdeithasol, daearyddiaeth ddynol, arweinyddiaeth a rheolaeth ymchwil.
- Mynd i'r afael â materion cymdeithasol o safbwynt cenedlaethol a rhyngwladol.

YSTYRIR BOD **81%** YMCHWIL MEWN ADDYSG, CYMDEITHASEG & PHOLISI CYMDEITHASOL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### PAM ABERTAWE?

- Mae ein hymchwil yn mynd i'r afael â materion cymdeithasol cyfoes allweddol o safbwynt cenedlaethol a rhyngwladol, gan archwilio themâu fel: cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, tegwch, dinasyddiaeth a moeseg ymchwil.
- Mae cynnig ystod eang o fodiwlau dewisol yn golygu y gelli di deilwra dy astudiaethau i dy ddiddordebau a dy nodau.
- Cymorth bugeiliol a chyflogadwyedd rhagorol, gan dy baratoi ar gyfer dy yrfa.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Daearyddiaeth Ddynol, PhD/MPhil
- Datblygiad a Hawliau Dynol, MA
- Gwyddor Chwaraeon, PhD/MPhil
- Hanes yr Henfyd a Diwylliant Clasurol, MA
- Troseddeg, PhD/MPhil

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau

MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

UKRI Economic and Social Research Council



# Dr Grug Muse

PhD Cymraeg

Agweddau ar lên taith yn y Gymraeg mewn perthynas ag America Ladin

Dechreuodd yr ymchwil oherwydd y diddordeb sydd gen i mewn gwleidyddiaeth a llenyddiaeth, a'r cwestiynau moesegol am lên taith yn benodol. Yn yr ymchwil felly dewisais ganolbwyntio ar destunau yn y Gymraeg, wedi eu hysgrifennu am America Ladin, gan gynnwys y Wladfa, ond hefyd pethau sydd wedi eu hysgrifennu am wledydd fel Mecsico, Periw, a Bolifia. Mae'r ymchwil yn edrych ar werth dros ganrif o lyfrau, gan gynnwys awduron fel Eluned Morgan, T.H. Parry-Williams a T. Ifor Rees. Wrth ddarllen y testunau hyn roeddwn yn holi am rôl trefedigaethedd, imperialaeth, hunaniaeth Gymraeg, a gwrth-imperialaeth yn y gweithiau, a sut yr oedd hynny yn amrywio dros amser, ac mewn gwahanol rannau o America Ladin.

Rydw i yn awdur a golygydd, ac yn gwneud gwaith ysgrifennu copi ac ati o ddydd i ddydd, felly roedd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn help mawr i mi. Er gymaint yr o'n i'n casáu gramadeg, dwi'n ddiolchgar am y gwersi hynny yn awr.

Roedd yr adran yn apelio oherwydd y darlithwyr ac ymchwilwyr gwych sydd yno, a'r naws llai traddodiadol sydd i'r adran i gymharu efo rhai prifysgolion eraill. Ac wrth gwrs mae Abertawe yn lleoliad bendigedig i fyw ac astudio, dafliad carreg o Benrhyn Gŵyr. Mi gefais i brofiad da yn Abertawe, mae'r gymuned yn un fach ond clos, a chefnogol iawn.

Fy nghyngor i, i unrhyw un sy'n bwriadu astudio cwrs ôl-radd yma ym Mhrifysgol Abertawe yw cysylltu efo'r adran er mwyn sgwrsio efo'r staff academaidd am dy syniadau, maen nhw'n gefnogol iawn.

> "Roedd yr adran yn apelio oherwydd y darlithwyr ac ymchwilwyr gwych sydd yno, a'r naws llai traddodiadol sydd i'r adran i gymharu efo rhai prifysgolion eraill."

# CYMRAEG
## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Cymraeg MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Cyfieithu Proffesiynol MA ALl RhA

Wyt ti'n angerddol dros yr iaith Gymraeg a'i diwylliant? Ymuna â ni yn Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe, rydym yn cynnig goruchwyliaeth ymchwil ardderchog mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys y cyfryngau a ffilm, llenyddiaeth, polisi dwyieithog, ysgrifennu creadigol, hanes diwylliannol a chymdeithasol a chynllunio iaith. Cei di gyfle hefyd i ymchwilio i'r pynciau sydd o ddiddordeb mwyaf i ti a chyfrannu at dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae PhD, MPhil neu MA drwy Ymchwil yn y Gymraeg yn dy alluogi i ymgymryd â phrosiect sylweddol yn seiliedig ar dy frwdfrydedd a dy ddiddordebau personol mewn diwylliant Cymraeg.
- Gall y rhaglenni ymchwil gynnig llwybr i yrfa academaidd, neu ehangu dy gyfleoedd i ddod o hyd i swydd mewn meysydd megis addysg, y llywodraeth neu'r sector preifat.
- Mae meysydd ymchwil yn cynnwys; dwyieithrwydd a chynllunio ieithyddol, ysgrifennu creadigol, diwylliant cymoedd diwydiannol De Cymru, datganoli, drama a ffilm, llenyddiaeth drwy'r oesoedd, beirniadaeth Lenyddol, sosioieithyddiaeth, technegau a thechnoleg cyfieithu, Cymraeg i oedolion a chaffael iaith.
- Mae’r MA a addysgir mewn Cyfieithu Proffesiynol yn rhoi cyfle i ti ddatblygu sgiliau arbenigol mewn dehongli i wasanaethau cyhoeddus, cyfieithu clywedol, cyfieithu peirianyddol a lleoli meddalwedd, rheoli terminoleg a mwy.
- Mae ein staff sy'n weithgar ym maes ymchwil yn gweithio’n gyson i wneud gwahaniaethau a chyfraniadau go iawn yng Nghymru a thu hwnt.

YSTYRIR BOD **100%** AMGYLCHEDD YMCHWIL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### PAM ABERTAWE?

- Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil yn rhan o'n Canolfan y Graddedigion, sy'n darparu cymorth bugeiliol a gweinyddol. Mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth sgiliau ymchwil, yn ogystal â hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i'r gymuned ymchwil ôl-raddedig.
- Mae gennym labordai â'r feddalwedd ddiweddaraf yn y diwydiant cyfieithu, ynghyd ag ystafell sy'n efelychu cyfieithu ar y pryd mewn cynhadledd a'r cyfarpar diweddaraf i olrhain symudiadau'r llygad.
- Byddi di'n astudio ar ein campws Parc Singleton llawn bwrlwm, mewn parcdir sy'n edrych dros Fae Abertawe.
- Mae academyddion Adran y Gymraeg wedi cyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru fel beirniaid yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac fel golygyddion cylchgronau, megis Barn, Taliesin, Ysgrifau Beirniadol a Dwned. Mae tri aelod o staff yr Adran hefyd wedi ennill y Gadair a'r Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- TAR Uwchradd gyda SAC: Cymraeg, PGCert
- Llenyddiaeth Saesneg Cymru, MA

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Proffil Myfyriwr gweler y dudalen flaenorol

Ysgoloriaethau Cymraeg ar gael, gweler tudalen 50

# MEDDYLIAU MAWR

# Tudur Hallam

## CADAIR Y GYMRAEG

Tudur Hallam yw Athro'r Gymraeg a Chyfarwyddwr Ymchwil Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n Brifardd, yn Gymrawd Fulbright ac yn aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru, lle y mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor y Gymraeg. Mae'n Gadeirydd hefyd ar Gymdeithas Astudiaethau'r Gymraeg ac mae'n aelod o fwrdd gweithredu'r Ganolfan Hyfforddi Ddoethurol ym maes Astudiaethau Celtaidd dan nawdd Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Fe'i penodwyd gan HEFCW/HEFCE yn asesydd ar gyfer panel Ieithoedd Modern ac Ieithyddiaeth REF 2021 (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil), gan ymuno â thîm o arbenigwyr i asesu gwaith ymchwilwyr ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig. Yn lleol, mae'n llywodraethwr ysgol ac yn hyfforddwr pêl-droed i adran ferched Sir Gaerfyrddin.

Ymunodd ag Adran y Gymraeg, Abertawe yn 1999. Fe'i benodwyd i Gadair y Gymraeg yn 2011. Mae wedi dysgu modiwlau ym maes cymdeithaseg iaith, gramadeg, cyfieithu, llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol. Ei brif arbenigedd ymchwil yw barddoneg, sef edrych ar sut y mae iaith yn gweithio ac yn cael ei defnyddio, gan feirdd, ond gan bawb hefyd.

Enillodd yr Athro Hallam ei ddoethuriaeth yn 2005. Cyfarwyddwyd ei draethawd gan yr Athro John Rowlands (Aberystwyth) a'r Athro Dafydd Johnston (Abertawe), a datblygodd y traethawd yn llyfr a'i gyhoeddi yn 2007, sef Canon Ein Llên. Cyhoeddodd ail fonograff yn 2013, Saunders y Dramodydd, ac yn fwy diweddar, Llawlyfr Meistroli'r Gymraeg yn 2018 a'i gasgliad cyntaf o gerddi, Parcio, yn 2019. Mae hefyd wedi cyhoeddi nifer o benodau ac ysgrifau ar wahanol agweddau o ddiwylliant y Gymraeg, gan gynnwys ambell un ar gyfer cynulleidfa ddi-Gymraeg, e.e. y ddarlith Chatterton ar farddoniaeth i'r Academi Brydeinig.

Yn 2016-2017, enillodd gymrodoriaeth Fulbright i fyw a gweithio yn UDA, gan gymharu sefyllfa'r Gymraeg â'r diwylliant Latino yn bennaf. Gellir gweld ei ymateb creadigol i'r cyfnod hwn yn ei gyfrol farddoniaeth, Parcio, ac mae'r elfen gymharol – cymharu diwylliant Cymru ag eiddo gwledydd eraill – yn hydreiddio ei waith.

Mae wedi cyfarwyddo ac arholi nifer o draethodau ymchwil MA a PhD ym maes ysgrifennu creadigol (barddoniaeth, drama a rhyddiaith), beirniadaeth a theori lenyddol, ôl-drefedigaethedd, cyfieithu, addysg a chynllunio ieithyddol, llenyddiaeth ganoloesol a chyfoes, ynghyd â llenyddiaeth deithio.

Yn ystod ei ugain mlynedd yn Abertawe, mae'r Athro Hallam wedi creu a dysgu pob math o fodiwlau i fyfyrwyr ym maes iaith a chyfathrebu, cyfieithu, dwyieithrwydd ymarferol, hanes Cymru a'r Gymraeg, llenyddiaeth, drama ac ysgrifennu creadigol.

> "Rydw i'n rhan o dîm egnïol o staff dysgu yn Adran y Gymraeg. Dw i wrth fy modd yn gweld myfyrwyr yn datblygu, a'r pleser mwyaf i mi yw eu gweld yn llwyddo, gydag ambell un yn ennill gwobrau cenedlaethol, gan gynnwys Gwobr Goffa Gwyn Thomas a Gwobr Goffa Merêd (Coleg Cymraeg Cenedlaethol), Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol a chategori barddoniaeth Llyfr y Flwyddyn."



# DAEARYDDIAETH

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Arsylwi'r Ddaear MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Astudiaethau Trefol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Cyfryngau Daearyddol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Daearyddiaeth Ddynol PhD/MPhil ALl RhA
- Daearyddiaeth Ffisegol PhD/MPhil ALl RhA
- Damcaniaeth a Gofod Cymdeithasol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Deinameg Amgylcheddol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Modelu Amgylcheddol Byd-eang MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Rhewlifeg MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Ymfudo Byd-eang MSc drwy Ymchwil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Cymdeithas, Amgylchedd a Newid Byd-Eang MSc ALl
- Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd MSc ALl RhA
- Gwybodaeth Ddaearyddol a Newid yn yr Hinsawdd MSc ALl RhA
- Synhwyro o Bell Drôn Amgylcheddol MSc ALl

Dechreua ar daith gyffrous o ddarganfod, gan astudio Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Mae gan ein hadran arbenigwyr byd-enwog mewn daearyddiaeth ddynol a ffisegol, sy'n ymrwymedig i ddarparu addysgu ac ymchwil heb ei ail.

Ymuna â'n cymuned fywiog o ymchwilwyr ôl-raddedig ac ymgolli mewn amgylchedd deinamig lle mae ymchwil arloesol yn cyfrannu'n weithredol at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Gweithredu ar yr Hinsawdd, Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy, a Dŵr Glân a Glanweithdra.

#### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae dy ddysgu'n elwa o arbenigedd ymchwil staff Daearyddiaeth a'r Biowyddorau ym maes gwybodaeth ddaearyddol, deinameg amgylcheddol a'r hinsawdd, bioleg y môr ac ecosystemau a datblygu cynaliadwy.

**Trosolwg o'r cwrs: MSc Cymdeithas, Amgylchedd a Newid Byd-eang**

- Byddi di'n ennill gwybodaeth drylwyr arnat ti am y materion gwyddonol presennol sy'n sail i'r data daearyddol, deinameg newid yn yr hinsawdd ac amgylcheddol.
- Mae rhywfaint o'n gweithgarwch diweddar wedi cynnwys olrhain silff iâ Larsen C, gan nodi coed olewydd wedi'u heintio drwy ddelweddu o bell, a monitro ansawdd dŵr yn dilyn tanau gwyllt yn Sydney.

**250 UCHAF YN Y DU GWYDDORAU AMGYLCHEDDOL**
(QS World University Rankings 2023)

#### PAM ABERTAWE?

- Mae dau o'n rhaglenni MSc wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol (ar y cyd ag IBG).
- Mae Amgylchedd Ymchwil ac Effaith Systemau'r Ddaear a'r Gwyddorau Amgylcheddol yn Abertawe wedi cyflawni sgôr o 100% o ran arwain y byd a rhagorol yn rhyngwladol (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Mae ein cyfleusterau'n cynnwys pymtheng gorsaf weithio dau brosesydd ar gyfer Arsylwi'r Ddaear, clwstwr Beowulf Amlbrosesydd 20 nod, ac uwch-gyfrifiadur 'Blue Ice' IBM yr Adran, sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer modelu hinsoddol a rhewlifegol.
- Mae rhai o'n hacademyddion o fri rhyngwladol yn cynnwys yr Athro Tavi Murray, sef y fenyw gyntaf erioed i dderbyn Medal Begwn am wasanaeth rhagorol i ymchwil begynol; a'r Athro Adrian Luckman, a ddenodd sylw rhyngwladol am ymchwil i argyfwng yr hinsawdd i chwalu silff iâ Larsen C.
- Byddi di hefyd yn cael dy addysgu gan yr Athro Peter North, a wnaeth gydweithio â NASA i wneud yr Amazon yn 'wyrddach'; a'r Athro Siwan Davies, y mae ei gwaith yn canolbwyntio ar gadarnhau pam mae newid yn yr hinsawdd wedi newid yn sydyn dros y 100,000 o flynyddoedd diwethaf, drwy archwilio dyddodion llwch llosgfynyddoedd mewn iaennau.

#### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Ysgoloriaethau Cymraeg ar gael, gweler tudalen 50



# Morgan Lees

MSc Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd

Dewisais astudio MSc mewn Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd oherwydd yr amryw o gyfleoedd gyrfa y byddwn yn eu hennill a'r set sgiliau eang y byddwn i'n ei chyflawni o'i hastudio. Mae'r cwrs yn ymdrin ag ystod eang o bynciau ac yn caniatáu i mi arbenigo yn fy hoff agweddau o ddaearyddiaeth yn ogystal â galluogi'r defnydd o feddalwedd gymhleth fel arcGIS, sy'n sgìl y mae cyflogwyr yn gofyn amdano'n benodol.

Fe wnes i astudio Daearyddiaeth ar lefel israddedig ym Mhrifysgol Abertawe gyda phwyslais ar ddaearyddiaeth ddynol. Mae Abertawe yn brifysgol wych oherwydd y lleoliad ger y môr ac mae hi mor agos at y Gŵyr. Ar ben hyn mae yna deimlad o gymuned yn deillio o fod yn brifysgol campws. Fe benderfynais i barhau gyda fy astudiaethau ôl-raddedig yn Abertawe er mwyn parhau i dderbyn cymorth i astudio yn y Gymraeg ac i brofi'r lleoliad hardd am flwyddyn ychwanegol.

Y peth rwy'n ei fwynhau mwyaf am y cwrs yw'r amrywiaeth o bynciau a'r sbectrwm eang o wybodaeth fanwl y mae'r modiwlau'n ei ddarparu. Mae astudio newid yn yr hinsawdd yn fwy perthnasol nawr nag erioed, ac mae yna gyflenwad diddiwedd o wybodaeth a data ffres ar gael sy'n gwneud y cwrs yn un hynod o gyfredol ar hyn o'r bryd.

Mae astudio yn y Gymraeg yn ddewis naturiol i mi. Roedd cyflawni fy nhraethawd estynedig yn y Gymraeg yn broses bleserus a syml. Byddaf yn derbyn Bwrsari Llywodraeth Cymru gwerth £1,000 am ddilyn elfen o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y dyfodol dwi'n gobeithio parhau i weithio ym maes ymchwil, yn enwedig ymchwil amgylcheddol, neu efallai rhyw fath o swydd ymgynghori amgylcheddol. Dwi'n gobeithio dod o hyd i swydd yng Nghymru er mwyn parhau gweithio trwy'r iaith Gymraeg.

> "Mae astudio newid yn yr hinsawdd yn fwy perthnasol nawr nag erioed, ac mae yna gyflenwad diddiwedd o wybodaeth a data ffres ar gael sy'n gwneud y cwrs yn un hynod o gyfredol ar hyn o'r bryd."

**MEDDYLIAU MAWR**
gweler y dudalen nesaf

MEDDYLIAU MAWR

# Yr Athro Siwan Davies

**PENNAETH ADRAN: YMCHWILYDD BLAENLLAW AR NEWID SYDYN YN YR HINSAWDD**

Mae Siwan Davies yn Athro mewn Daearyddiaeth ac mae hi'n astudio lludw folcanig i ddatblygu ein dealltwriaeth o newidiadau sydyn yn ein hinsawdd dros y canrifoedd. Mae hi'n wyddonydd arloesol ac wedi derbyn Gwobr Philip Leverhulme (2011) a Chronfa Lyell (2013). Mae hi hefyd yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Magwyd yr Athro Davies yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, ac ar ôl graddio mewn Daearyddiaeth o Brifysgol Rhydychen, cwblhaodd radd Meistr a PhD yn Royal Holloway, Prifysgol Llundain yn 2002. Yn dilyn penodiadau ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol Stockholm a Phrifysgol Copenhagen, ymunodd â Phrifysgol Abertawe fel Darlithydd yn 2004 a chamodd ymlaen yn ei gyrfa academaidd yn gyflym, gan dderbyn Cadair Bersonol yn 2012.

Mae ei hymchwil wedi sicrhau cyllid gan NERC, Ymddiriedolaeth Leverhulme, Cyngor Ymchwil Ewrop (ERC) a'r Gymdeithas Frenhinol. Nod ei gwaith ymchwil yw defnyddio haenau o lwch folcanig yng nghreiddiau iâ'r Ynys Las ac Antarctica, a chofnodion morol i asesu ymateb yr atmosffer a'r cefnforoedd yn ystod newidiadau hinsawdd sydyn y gorffennol.

Dywedodd yr Athro Davies: "Mae hwn yn ymchwil o bwys yng ngwyddorau'r hinsawdd a gall defnyddio gronynnau o lwch microsgopig ddarparu atebion sydd wedi bod tu hwnt ein gafael hyd yma. Mae'r gwaith yn gyffrous ond yn heriol hefyd ac rwy'n dwlu arno. Mae hefyd yn wefr arwain ac ysbrydoli tîm o ymchwilwyr tuag at ein nodau gwyddonol."

Mae'r Athro Davies hefyd yn cyflwyno ei gwaith i'r cyhoedd ac yn gyflwynydd cyfres ddogfen hynod lwyddiannus ar S4C sef "Her yr Hinsawdd". Teithiodd ledled y byd er mwyn rhannu profiadau cymunedau sydd eisoes yn teimlo effaith newid yn yr hinsawdd a'u hymateb nhw i heriau'r dyfodol.

Ar ben hyn, mae'r Athro Davies hefyd yn cyfrannu at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Abertawe a ledled Cymru ac yn ymwneud â gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

> "Mae fy ngwaith ar ronynnau lludw microscopig yn gyffrous ond hefyd yn heriol a dwi wrth fy modd yn ei wneud. Mae hefyd yn wefr arwain ac ysbrydoli tîm o ymchwilwyr tuag at ein nodau gwyddonol."



# ECONOMEG

## CAMPWS Y BAE & CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Economeg PhD/MPhil** ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Economeg MSc** ALl
- **Economeg a Chyllid MSc** ALl

Mae ein rhaglenni MSc Economeg wedi'u teilwra i dy alluogi i feithrin y sgiliau angenrheidiol i ragori yn dy ddewis lwybr gyrfa, boed ym maes busnes neu'r sectorau cyhoeddus, preifat neu drydydd parti. Gyda ffocws cryf ar ymchwil, mae'r rhaglen yn paratoi graddedigion am PhD Economeg neu yrfa sy'n canolbwyntio ar ymchwil.

Byddi di'n dysgu sut mae economeg yn chwarae rôl hanfodol ym mhrosesau penderfynu rheolwyr a chyfarwyddwyr drwy ddarparu mewnwelediad i ymddygiad amrywiaeth o randdeiliaid, megis cwsmeriaid, cyflenwyr, cystadleuwyr, cyflogwyr a chyllidwyr. Caiff y cyrsiau eu haddysgu gan weithwyr proffesiynol mawr eu parch yn y diwydiant ac arbenigwyr ymchwil o'r radd flaenaf ag enw rhyngwladol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Cymorth eithriadol i fyfyrwyr, tîm cyflogadwyedd pwrpasol a chysylltiadau cryf â sefydliadau proffil uchel.
- Graddau a addysgir a graddau ymchwil arbenigol.
- Addysgir pob modiwl gan ein cyfadran o'r radd flaenaf sydd â gwybodaeth helaeth am fyd diwydiant a'r byd academaidd.
- Cyfleusterau gwych sy'n cynnwys gofod addysgu ac ardaloedd astudio pwrpasol, a chyfleusterau TG helaeth gyda meddalwedd arbenigol.

**500 UCHAF**
YN Y BYD
**ECONOMEG**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn cynnig rhaglenni ôl-raddedig wedi'u llywio gan y diweddaraf o ran ymchwil ac arloesi.
- Mae ein hamgylchedd ymchwil astudiaethau busnes a rheoli (gan gynnwys economeg) yn cael ei raddio fel 100% ffafriol i gynnal ymchwil sy'n rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y byd (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Cyfrifiadureg, MSc
- Dadansoddeg Ariannol, MSc
- Dulliau Ymchwil Cymdeithasol, MSc
- Gwleidyddiaeth, MA
- Gwyddor Actiwaraidd, MSc
- Polisi Cyhoeddus, MA
- Technoleg Ariannol (FinTech), MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# FFISEG
## CAMPWS SINGLETON

## RHAGLENNI YMCHWIL

- Ffiseg MPhil ALl RhA
- Ffiseg PhD ALl RhA DoB
- Ffiseg Arbrofol MSc drwy Ymchwil ALl
- Ffiseg Ddamcaniaethol MSc drwy Ymchwil ALl
- Ffiseg Gymhwysol a Defnyddiau MSc drwy Ymchwil ALl

Ym Mhrifysgol Abertawe, mae ein Hadran Ffiseg yn ymrwymedig i ymchwil mewn ffiseg arbrofol, gymhwysol a damcaniaethol. Mae ein gwaith yn cael ei gefnogi gan grantiau o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys yr UE, CCAUC, a ffynonellau diwydiannol a llywodraethol. Drwy raglen newydd SêrSAM, rydym ni'n archwilio deunyddiau uwch ag ynni ymgorfforedig isel at ddibenion optoelectroneg a bioelectroneg. Mae ein rhaglenni ôl-raddedig yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ymchwilio'n ddyfnach i feysydd megis lled-ddargludyddion y genhedlaeth nesaf, deunyddiau electronig-ïonig dargludol hybrid, ffotoddatgelu ac ynni solar. Ymuna â ni a bydd yn rhan o'n taith gyffrous ym maes ffiseg.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Rydym ni'n cynnig cwricwlwm sy'n seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil ein harbenigwyr rhyngwladol-flaenllaw ag amrywiaeth eang o ddiddordebau ymchwil, gan gynnwys ffiseg ronynnol a chosmoleg; ffiseg gymhwysol a deunyddiau; a ffiseg atomig, foleciwlaidd a chwantwm.
- Caiff prosiectau eu llywio drwy gyfranogiad mewn gweithgareddau megis seminarau, gweithdai, gweithgareddau labordy a gwaith maes, yn ogystal â dy gyfranogiad yn un o'n grwpiau ymchwil sefydledig.
- Mae natur fyd-eang yr ymchwil yn golygu bod gennym ni gysylltiadau a chydweithwyr byd-eang, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau graddfa fawr megis CERN.
- Mae aelodau o staff yn arwain cydweithrediad ALPHA yn CERN, gyda'r nod o greu, dal a defnyddio gwrth-hydrogen.

**250 UCHAF**
YN Y BYD
**AM FFISEG A SERYDDIAETH**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Roedd 97% o'n cyhoeddiadau ar draws Ffiseg Arbrofol, Gymhwysol a Damcaniaethol wedi'u dyfarnu'n 'arwain y byd' ac yn 'rhagorol yn rhyngwladol' (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Mae'r Athro Lyn Evans, sy'n arweinydd y prosiect Gwrthdaro Hadronau Mawr yn CERN yn un o gyn-fyfyrwyr Ffiseg nodedig Abertawe.
- Mae'r Athro Higgs Boson, sef enillydd y Wobr Nobel am Ffiseg, a wnaeth gynnig y gronynnyn Boson, yn Gymrawd er Anrhydedd ym Mhrifysgol Abertawe ac mae ganddo gysylltiadau agos â'n hadran.
- Mae ein cyfleusterau o'r radd flaenaf yn cynnwys: pelydr positron ynni isel gydag offeryniaeth bwrpasol er mwyn astudio positroniwm; systemau tonnau parhaus a laserau â phwls; microsgopau optegol maes agos ac electron twnelu sganio; Microsgop Raman; Clwstwr paralel CPU; a'r uwch-gyfrifiadur 'Blue C' a adeiladwyd gan IBM.
- Mae gennym ni enghreifftiau o fyfyrwyr sy'n astudio yn CERN neu'n ennill interniaethau ymchwil yn yr adran a'n cyrsiau arbenigol sy'n estyn myfyrwyr i ddeall galwadau ymchwil – p'un ai bod hynny'n ffiseg neu'n ddisgyblaethau sy'n perthyn i'w gilydd.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- TAR Uwchradd gyda SAC: Ffiseg PGCert

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**



# Valeria Italia

PhD Ffiseg – Gradd Gyfun Ar
Y Cyd ag Université Grenoble Alpes
Grŵp Ymchwil Ffiseg Gymhwysol a Deunyddiau

Rwy'n fyfyriwr PhD yn yr Adran Ffiseg ac yn gynrychiolydd myfyrwyr ar y rhaglen Abertawe-Grenoble Co-tutelle. Rwy'n gwneud gradd gyfun ar y cyd gydag Université Grenoble Alpes sy'n cynnwys treulio 18 mis yn Abertawe ac 18 mis yn Grenoble.

Ffocws fy ymchwil yw deall deunydd biogydnaws newydd sydd wedi'i seilio ar brotein, o'r enw Ubx, y gellir ei ddefnyddio mewn dyfeisiau wedi'u mewnblannu er mwyn adnewyddu meinwe. Hynny yw, gellir defnyddio'r deunydd hwn i adnewyddu meinwe sydd wedi'i niweidio, megis yn y galon yn dilyn trawiad ar y galon.

Yn rhyfeddol, flynyddoedd yn ôl, darganfuwyd y protein hwn drwy ddamwain gan fy mentor gwyddonol. Ffurfiodd deunydd pan na chafodd colofn ei glanhau tan y diwrnod nesaf. Weithiau, gall damweiniau arwain at ddarganfyddiadau o bwys.

A dweud y gwir, dau labordy'n unig yn y byd sy'n gallu creu'r protein sy'n rhan o'r broses o greu'r deunydd hwn yn effeithiol ac mewn sympiau mawr, ac un o'r labordai hyn yw Adran Ffiseg Prifysgol Abertawe.

Rwy'n falch iawn ac yn gyffrous i fod yn rhan o'r tîm hwn, i gyfrannu at ddarganfyddiadau newydd a datblygu potensial y deunydd diddorol hwn. Mae'r Adran Ffiseg yn darparu amgylchedd gweithio dynamig, ysgogol ac amlddiwylliannol ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau newydd a galluoedd arwain ac rwy'n hapus iawn y dewisais i ddod yma i wneud fy PhD.

> "Mae'r Adran Ffiseg yn darparu amgylchedd gweithio dynamig, ysgogol ac amlddiwylliannol ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau newydd a galluoedd arwain."

# GOFAL IECHYD CYMUNEDOL, IECHYD Y CYHOEDD A GOFAL IECHYD SYLFAENOL

## CAMPWS SINGLETON

**12fed** YN Y DU **NYRSIO** (Times Good University Guide 2023)

## RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Dyfarniad Ymarfer Arbenigol Astudiaethau Iechyd Cymunedol mewn Nyrsio Ardal MSc/PGDip/BSc/Grad Dip** AU RhA
- **Nyrsio Gofal Critigol ar gyfer Oedolion PGCert** RhA
- **Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Nyrsio mewn Ysgolion) MSc/PGDip/BSc/Grad Dip** AU RhA
- **Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Nyrsio mewn Ysgolion) gyda V100 wedi'i integreiddio MSc/PGDip/BSc/Grad Dip** AU RhA
- **Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Ymwelwyr Iechyd) gyda V100 wedi'i integreiddio MSc/PGDip/BSc/Grad Dip** AU RhA
- **Nyrsio Ymarfer Cyffredinol BSc** RhA
- **Ymarfer Clinigol Uwch: (Gofal Sylfaenol) MSc/PGDip** RhA
- **Ymarfer Gofal Iechyd Cymunedol a Sylfaenol MSc/PGDip/PGCert** RhA
- **Ymarfer Gofal Iechyd MSc/GradDip** RhA

Drwy ein gwaith gyda'r GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r sector preifat, rydym yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Datblygwyd ein hystod o raglenni gofal iechyd cymunedol, iechyd y cyhoedd, a gofal iechyd sylfaenol ar gyfer nyrsys cymwysedig a chofrestredig, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a hoffai ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus, symud ymlaen i astudiaethau lefel uwch, neu ddatblygu a gwneud cynnydd yn eu gyrfaoedd.

Ymuna ag un o ddarparwyr hyfforddiant meddygol a gofal iechyd mwyaf blaenllaw'r DU er mwyn meithrin y rhinweddau academaidd, ymarferol a phersonol angenrheidiol ar gyfer ymarfer proffesiynol parhaus.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Cyfleusterau o'r radd flaenaf, gan gynnwys ystafelloedd clinigol ac efelychu realistig lle cei gyfle i roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith.
- Mae'r modiwlau DPP sydd ar gael yn cynnwys nyrsio ardal, nyrsio mewn ysgolion ac ymwelwyr iechyd. Bydd y rhain yn dy helpu i ddatblygu dy sgiliau a gwella dy ragolygon gyrfa.
- Byddi di'n gallu teilwra dy astudiaethau i gyd-fynd â dy ddiddordebau arbennig a dy faes ymarfer gyda'n hamrywiaeth helaeth o fodiwlau dewisol.
- Staff â chymwysterau deuol sy'n weithredol mewn amrywiaeth eang o feysydd ymchwil, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, seicoleg, cymdeithaseg, bydwreigiaeth a nyrsio plant, gan gynnig cyfuniad ardderchog o safonau academaidd uchel, profiad proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.

**Darganfydda fwy am gyfleuster Efelychu Prifysgol Abertawe – SUSiM**

### PAM ABERTAWE?

- Caiff ein cyrsiau gofal iechyd cymunedol, iechyd y cyhoedd a gofal iechyd sylfaenol eu haddysgu yn yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Byddi di'n elwa o amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, lle bydd llawer o gyfleoedd i greu cysylltiadau ar draws disgyblaethau.
- Byddi di hefyd yng nghwmni arbenigwyr byd-eang ym meysydd meddygaeth, iechyd a gwyddor bywyd, y mae 85% o'u hymchwil wedi cael ei chydnabod am arwain y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 (REF, 2021).
- Addysg ryngbroffesiynol, gan elwa o dechnoleg ddysgu ymdrochol arobryn gwerth £5.2 miliwn

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gofal Cymdeithasol
- Iechyd y Cyhoedd a'r Boblogaeth
- Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio
- Seicoleg a Niwrowyddoniaeth
- Y Gwyddorau Meddygol a Bywyd
- Y Proffesiynau Perthynol i Iechyd

### CYLLID

Mae llawer o'n rhaglenni Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio wedi'u hariannu'n llawn gan Gynllun Bwrsariaethau GIG Cymru. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau. Ymweld â:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# GWAITH CYMDEITHASOL
## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol PhD/MPhil** ALl RhA

### TAUGHT PROGRAMMES

- **MSc Gwaith Cymdeithasol** ALl

Meithrin gyrfa wobrwyol sy'n helpu i wella bywydau rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan weithio gyda phlant a'u teuluoedd, oedolion ag anghenion dysgu neu iechyd meddwl, neu'r rhai hynny ag anfanteision cymdeithasol.

Wedi'i hachredu gan Ofal Cymdeithasol Cymru a'i chydnabod gan y cyrff rheoleiddiol yng nghenhedloedd eraill y DU, bydd cwblhau'r radd meistr a addysgir llwybr carlam 2 flynedd yn llwyddiannus yn dy alluogi i gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol cymwysedig.

Yn ystod dy astudiaethau, byddi di'n cwblhau 8 modiwl gorfodol a thraethawd hir, gan fireinio sgiliau ymchwil a dadansoddi pwysig o ran ymarfer a pholisi gwaith cymdeithasol a datblygu dulliau myfyrio proffesiynol. Bydd hanner dy amser yn cael ei dreulio ar leoliad, gan weithio gydag asiantaethau gwaith cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i ddatblygu dy sgiliau a dy brofiad drwy arsylwi ac ymarfer.

Er mwyn bod yn gymwys i gyflwyno cais am y rhaglen meistr a addysgir hon, rhaid i'r holl ymgeiswyr ymgymryd â thros 300 awr o waith gofal cymdeithasol uniongyrchol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Staff addysgu sy'n ymwneud â gweithgarwch ymchwil yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gynnwys meysydd amrywiol megis plant sy'n derbyn gofal, defnyddwyr gwasanaeth a chyfranogiad gofalwyr mewn addysg, plant sy'n ceisio lloches ac ymfudo, a chynhwysiant cymdeithasol ac anghenion gofal pobl hŷn
- Cyfuniad cyfartal o addysgu wyneb yn wyneb a dysgu ymarferol drwy leoliadau, lle gelli roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith
- Cysylltiadau cryf â byrddau iechyd Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i helpu dy brofiad a dy sgiliau rhwydweithio

MAE ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

**1af**
YN Y DU
**RHAGOLYGON GRADDEDIGION**
(Complete University Guide 2024)**

### PAM ABERTAWE?

- Mae ein cyrsiau mewn Gwaith Cymdeithasol yn cael eu cyflwyno yn yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Bod yng nghanol tîm ymchwil addysgu ac ymchwil amrywiol o arbenigwyr byd-eang, gyda llawer o gyfleoedd i wneud cysylltiadau ar draws disgyblaethau
- Addysg ryngbroffesiynol, gan elwa o dechnoleg ddysgu ymdrochol arobryn gwerth £5.2 miliwn

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gofal Cymunedol, Iechyd Cyhoeddus a Gofal Iechyd Sylfaenol
- Iechyd Cyhoeddus a'r Boblogaeth
- Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio
- Proffesiynau Perthynol i Iechyd
- Y Gwyddorau Meddygol a Bywyd

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Safleoedd sy'n benodol i israddedigion sy'n cynnwys asesu ansawdd ymchwil sefydliad.

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

**Proffil Myfyriwr** gweler y dudalen nesaf



# Sian Eynon-Jones

MSc Gwaith Cymdeithasol

Mae fy nghyfnod fel myfyriwr ôl-raddedig yn yr Adran Gwaith Cymdeithasol wedi bod yn un gwerth chweil a phleserus gyda staff cyfeillgar a chefnogol. Cefais swydd yn syth ar ôl cwblhau MSc mewn Gwaith Cymdeithasol, yn ogystal â dysgu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i symud yn hyderus i amrywiaeth eang o leoliadau, o ofal plant i iechyd meddwl. Rwy'n teimlo'n ffodus iawn o fod wedi cael y cyfle i astudio a dechrau gyrfa newydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol oedolion, a mwynheais y cwrs cyfan.

Rydw i bellach yn fyfyriwr PhD o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn astudio am ddoethuriaeth mewn trawma dirprwyol ymysg gweithwyr cymdeithasol, sef yr hyn sydd yn digwydd o ganlyniad i fod yn dyst i drawma. Rydw i'n astudio Cymraeg ochr yn ochr â'r ddoethuriaeth er mwyn cyflawni'r dystysgrif sgiliau iaith a chyflwyno fy noethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gen i gefndir mewn dysgu ysgol gynradd a gwaith cymdeithasol i oedolion. Hoffwn gyfuno'r profiadau a'r sgiliau rwyf wedi'u datblygu yn ystod fy ngyrfa er mwyn dysgu gwaith cymdeithasol a hyrwyddo'r Gymraeg yn y Brifysgol.

Os oes gen ti ddiddordeb yn y gwyddorau dynol ac iechyd ac eisiau astudio mewn prifysgol gyfeillgar a chefnogol ar lan y môr, yna rwy'n argymell dy fod yn dod i Abertawe!

> “Rwy'n teimlo'n ffodus iawn o fod wedi cael y cyfle i astudio a dechrau gyrfa newydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol oedolion, a mwynheais y cwrs cyfan.”

# GWEINYDDU BUSNES, MBA

## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Doethur mewn Gweinyddu Busnes, DBA RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Gweinyddu Busnes, MBA ALl RhA

Mae ein rhaglen MBA yn rhoi pwyslais ar werthoedd dynol, yn ogystal â gwerth i gyfranddalwyr, gan dy alluogi i feithrin gwybodaeth uwch am arferion busnes allweddol. Mae'r rhaglen hon yn addas i ymarferwyr proffesiynol sydd â thair blynedd o brofiad perthnasol yn y sector.

Wedi'i chynllunio i dy alluogi i feithrin y sgiliau i drefnu, cystadlu a chydweithredu yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, bydd y rhaglen hon yn sicrhau dy fod yn barod i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol. Dyma raglen wahanol sy'n cynnig ymagwedd fodern at reoli.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Caiff ei haddysgu gan arbenigwyr academaidd sydd â gwybodaeth ddiwydiannol ac academaidd mewn agweddau allweddol ar fusnes a rheoli.
- Cyfleusterau dysgu proffesiynol sydd newydd eu hadeiladu ar gyfer addysgu a gweithio cydweithredol.
- Cymorth rhagorol i fyfyrwyr ochr yn ochr â dy astudiaethau, gan gynnwys mynediad llawn at dîm o arbenigwyr a chynghorwyr gyrfaoedd.
- Cysylltiadau ardderchog â busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Cyfle i ennill Tystysgrif mewn Llythrennedd Carbon yn ystod dy astudiaethau fel rhan o'n menter Cynaliadwyedd.

CER I'R AFAEL

## Â HERIAU CYMDEITHASOL ALLWEDDOL

### PAM ABERTAWE?

- Mae ein rhaglen MBA wedi'i lywio gan yr ymchwil a'r arloesi diweddaraf.
- Cei dy addysgu yn adeilad yr Ysgol Reolaeth y buddsoddwyd £22 miliwn ynddo.
- Rydym yn darparu mannau addysgu ac ystafelloedd astudio dynodedig a chyfleusterau TG, i gyd ar gael ar Gampws y Bae arloesol.
- Byddi di'n astudio yn un o'r 150 o Ysgolion Busnes a Rheoli gorau yn y byd (QS World Rankings 2023).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Doethur mewn Gweinyddu Busnes, DBA
- Marchnata Strategol, MSc
- Rheoli Anoddau Dynol, MSc
- Rheoli Twristiaeth Ryngwladol, MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

MAE ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

AACSB Business Education Alliance Member

# GWLEIDYDDIAETH, ATHRONIAETH A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

CAMPWS SINGLETON

YSTYRIR BOD **100%** EFFAITH YMCHWIL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

## RHAGLENNI YMCHWIL

- Astudiaethau Datblygu PhD/MPhil AU RhA
- Athroniaeth MA drwy Ymchwil AU RhA
- Athroniaeth PhD/MPhil AU RhA
- Cysylltiadau Rhyngwladol MA drwy Ymchwil AU RhA
- Cysylltiadau Rhyngwladol MPhil AU
- Datblygu Rhyngwladol MA drwy Ymchwil AU RhA
- Gwleidyddiaeth MA drwy Ymchwil AU RhA
- Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol PhD/MPhil AU RhA

## RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Cysylltiadau Rhyngwladol MA AU RhA
- Cysylltiadau Rhyngwladol (Estynedig) MA AU RhA
- Datblygu a Hawliau Dynol MA AU RhA
- Diogelwch a Datblygu Rhyngwladol MA AU RhA
- Diogelwch a Datblygu Rhyngwladol (Estynedig) MA AU RhA
- Gwleidyddiaeth MA AU RhA
- Polisi Cyhoeddus MA AU RhA

Mae astudio gwleidyddiaeth, polisi cyhoeddus, cysylltiadau rhyngwladol, athroniaeth, ac astudiaethau datblygu wedi llywio'r ffordd rydym yn deall ac yn ymdrin â phroblemau a heriau cyfoes mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. P'un a wyt ti'n frwdfrydig am ddamcaniaeth neu ymarfer, llywodraeth neu bolisi cyhoeddus, gwleidyddiaeth neu faterion rhyngwladol, mae'r meysydd disgyblaethol hyn yn cynnig posibiliadau di-ben-draw am dwf personol a phroffesiynol.

Wrth i ti ddatblygu dy wybodaeth am y disgyblaethau hyn, a chymhwyso eu gwersi i sefyllfaoedd yn y byd go iawn, byddi di'n datblygu sgiliau meddwl methodolegol, digidol a meddwl yn feirniadol yn ogystal â meithrin dealltwriaeth well o'n byd cymhleth a'i amrywiaeth ddiderfyn. Dere i ymuno â ni ar y daith gyffrous hon i ddarganfod ac archwilio potensial diderfyn y gwyddorau cymdeithasol a sut i'w defnyddio yng nghyd-destunau ymarferol ac yn y byd go iawn.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Cymorth eithriadol i fyfyrwyr, ystod o fentrau cyflogadwyedd, a chysylltiadau â chyflogwyr allweddol i roi hwb i dy brofiad i'r potensial uchaf.
- Addysgir pob modiwl gan ein cyfadran o'r radd flaenaf sydd â gwybodaeth helaeth am ddiwydiant ac academaidd yn y maes.
- Mae gan fyfyrwyr fynediad at adnoddau hyfforddiant gwerthfawr i wella eu taith ddysgu.
- Amryw o gyfleoedd i ddatblygu dy broffil ar gyfer y dyfodol gyda phrosiect traethawd estynedig a phrofiad gwaith.
- Cyfleoedd rheolaidd i gyfranogi a rhwydweithio â siaradwyr gwadd ac ymarferwyr rhyngwladol.
- Caiff myfyrwyr eu hannog i ddatrys problemau a datblygu sgiliau ymarferol sy'n addas ar gyfer y gweithle proffesiynol.

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn cynnig rhaglenni ôl-raddedig wedi'u llywio gan y diweddaraf o ran ymchwil ac arloesi.
- Ystyrir bod 69% o'r ymchwil ym maes Gwleidyddiaeth, Astudiaethau Rhyngwladol ac Astudiaethau Cyfryngau yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Gelli di elwa o'n partneriaethau rhyngwladol a'n hymagwedd cydweithredol unigryw at ymchwil a dysgu.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Economeg, MSc
- Economeg a Chyllid, MSc
- Hawliau Dynol, LLM

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# MEDDYLIAU MAWR

## Dr Krijn Peters

Mae Krijn Peters yn gymdeithasegydd datblygu gwledig sydd wedi arbenigo mewn gwrthdaro arfog ac ailadeiladu yn dilyn rhyfel mewn gwledydd nad ydynt yn y gorllewin. Wedi'i addysgu ym Mhrifysgol Wageningen yn yr Iseldiroedd, dysgodd werthfawrogi pwysigrwydd gwaith maes trylwyr.

Fel myfyriwr israddedig treuliodd 6 mis yn Sierra Leone, oedd wedi'i rhwygo gan y rhyfel, er mwyn cyfweld â phlant-filwyr oedd wedi'u rhyddhau o'r fyddin ac yna aeth i Gambodia er mwyn astudio proses ailintegreiddio ymladdwyr Khmer Rouge. Ar ôl graddio, gweithiodd am flwyddyn i Achub y Plant gan werthuso ei rhaglenni rhyddhau o'r fyddin ac ailintegreiddio ar gyfer cyn-filwyr plant yn Liberia. Ar gyfer ei PhD dychwelodd i Sierra Leone er mwyn astudio'r mudiad gwrthryfelgar gwaradwyddus RUF, a arweiniodd at y monograff 'War and the Crisis of Youth in Sierra Leone' (2012, Gwasg Prifysgol Caergrawnt). Mae ei ymchwil bresennol – a ariennir gan ESRC/DFID – yn archwilio rôl adeiladu ffyrdd gwledig ac effaith hynny ar liniaru tlodi yn y Liberia wledig wedi'r rhyfel. Mae llawer o'r cyn-ymladdwyr a gyfwelwyd gan Krijn wedi dod yn rhan o sector tacsis beiciau modur ffyniannus Gorllewin Affrica, ond mae rhoddwyr cymorth a llywodraethau yn dal i fod yn amharod – heb ddata cadarn – i fuddsoddi yn yr hyn sydd wedi dod yn drafnidiaeth fodur fwyaf cyffredin ardaloedd gwledig (a threfol). Cred Krijn yn gryf y dylai addysg prifysgol fod yn seiliedig cymaint â phosibl ar ymchwil yn y byd go iawn.

Mae'r astudiaeth a nodir uchod a nifer o brosiectau ymchwil eraill ar ieuenctid a thechnoleg y mae Krijn yn ymwneud â nhw wrth wraidd gradd MSc newydd a chyffrous a gyflwynir gan adran Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol a Choleg Peirianneg Prifysgol Abertawe, ar y cyd â Sefydliad y Tywysog, sef 'Peirianneg Gynaliadwy ar gyfer Datblygu Rhyngwladol'.

> "Rwy'n credu'n gryf y dylai addysg prifysgol fod yn seiliedig cymaint â phosibl ar ymchwil yn y byd go iawn."



# GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Gwyddor Chwaraeon MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil** ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Gwyddor Perfformiad Chwaraeon Uwch MSc** ALl
- **Seicoleg Chwaraeon, MSc** ALl **(yn dod yn fuan ym mis Medi 2024)**

Astudia ar un o'n rhaglenni Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff ac archwilio maes hynod ddiddorol perfformiad y corff dynol. Gyda ffocws ar faterion cymdeithasol ehangach, o foeseg i bolisi cymdeithasol, seicoleg chwaraeon, a maetheg, byddwn yn dy baratoi ar gyfer gyrfa llawn boddhad mewn sectorau amrywiol. Mae ein meysydd arbenigedd yn cynnwys Chwaraeon Elît a Phroffesiynol; Meddygaeth ac Iechyd Ymarfer Corff; Moeseg Chwaraeon; Uniondeb a Llywodraethu; Biomecaneg; Maetheg; Ffisioleg; Seicoleg Chwaraeon a Pholisi Cymdeithasol. P'un a oes gen ti ddiddordeb mewn perfformiad chwaraeon elît, gofal iechyd neu astudiaethau fferyllol, mae gennym yr adnoddau a'r wybodaeth i dy helpu i lwyddo.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae ein rhaglenni wedi'u hadeiladu ar arbenigedd staff a phartneriaethau i sicrhau bod myfyrwyr wedi'u harfogi â'r sgiliau damcaniaethol ac ymarferol allweddol sy'n ofynnol er mwyn gweithio ym maes diwydiant neu ymchwil.
- Cei dy addysgu gan arbenigwyr ac ymchwilwyr blaenllaw, a byddi di'n cael y cyfle i gydweithio ag arweinwyr diwydiant ac ymarferwyr.
- Mae gan staff gyfoeth o wybodaeth a phrofiad perthnasol gan eu bod yn ymgynghori'n rheolaidd mewn lleoliadau ymarfer corff â phoblogaethau â chlefyd cronig, gan gynnwys: diabetes, adferiad cardiaidd a gofal arennol.
- Byddi di'n defnyddio ein cyfleusterau o'r radd flaenaf yn helaeth, gan gynnwys y Labordy Biomecaneg, y Labordy Ffisioleg Ymarfer Corff a Labordy Ymchwil A-STEM.

**100 UCHAF YN Y BYD**
**GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn un o'r 51-100 o Adrannau Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff Uchaf yn y Byd (QS World Rankings 2023).
- Rydym ni ymhlith yr 20 Uchaf yn y DU am Ansawdd Ymchwil (The Complete University Guide 2024) a dyfarnwyd bod 100% o'n Hymchwil 'yn arwain y byd' ac 'yn rhagorol yn rhyngwladol' (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Mae gan ein hadran gysylltiadau cryf â sefydliadau a phartneriaid masnachol megis Diabetes UK, y Sugar Bureau, Haemair, Haemaflow Ltd, Chwarae Cymru, Ymddiriedolaethau'r GIG Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, Undeb Rygbi Cymru, yr Uwch-gynghrair ac Actif Abertawe.
- Rydym ni hefyd wedi gweithio gyda thimoedd chwaraeon elît, gan gynnwys Chwaraeon y DU, Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, Rygbi'r Scarlets, Rygbi Biarritz, Rygbi'r Gweilch, Rygbi 7 Undeb Rygbi Cymru, Nofio Prydain Fawr, a Bobslei Prydain Fawr.
- Bydd ein graddedigion yn barod am amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa cyffrous, gan gynnwys Gwyddonydd Perfformiad, Gwyddonydd Chwaraeon, Ffisiolegydd Chwaraeon, Rheolwr Perfformiad, Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru, ac Ymchwilydd.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# GWYDDORAU MEDDYGOL A BYWYD – RHAGLENNI A ADDYSGIR

CAMPWS SINGLETON

5 UCHAF YN Y DU
ANSAWDD YMCHWIL CYFFREDINOL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

## RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Addysg Feddygol MSc/PGDip/PGCert** ALl RhA ION
- **Ffiseg Ymbelydredd Meddygol MSc** ALl RhA ION
- **Gwyddor Biofeddygol (Biocemeg Glinigol) MSc/PGDip** ALl RhA ION
- **Gwyddor Biofeddygol (Microbioleg Glinigol) MSc/PGDip** ALl RhA ION
- **Gwyddor Biofeddygol (Patholeg Celloedd a Moleciwlaidd) MSc/PGDip** ALl RhA ION
- **Gwyddor Glinigol (Ffiseg Feddygol) MSc** RhA
- **Meddygaeth Genomig MSc/PGDip/PGCert** ALl RhA
- **Nanofeddygaeth MSc/PGDip/PGCert** ALl RhA ION
- **Niwrowyddoniaeth Feddygol MSc** ALl RhA ION

Mae ein cyrsiau ôl-raddedig a addysgir yn y gwyddorau meddygol a bywyd yn opsiwn astudio perffaith i wella dy sgiliau, dy wybodaeth arbenigol a dy ragolygon gyrfa mewn meysydd gofal iechyd a'r gwyddorau bywyd lle mae galw mawr, gan weithio i fynd i'r afael ag anghenion presennol gweithlu'r GIG a gwella gwasanaethau gofal iechyd.

Byddi di'n cael dy addysgu gan academyddion sy'n arbenigwyr yn eu meysydd, gan ddefnyddio eu dealltwriaeth a'u hymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang i lywio dy brofiad dysgu ac addysgu. Mae ein fframweithiau modiwlaidd wedi'u dylunio i gyd-fynd â bywydau prysur gweithwyr proffesiynol ym maes meddygaeth ac iechyd.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mynediad at ein Sefydliad Gwyddor Bywyd gwerth £100 miliwn ynghyd ag ystafelloedd Delweddu Clinigol sy'n cynnwys delweddu 3T, MRI a CT cydraniad uchel.
- Addysg ryngbroffesiynol, gan elwa o dechnoleg ddysgu ymdrochol arobryn gwerth £5.2 miliwn.
- Teilwra dy opsiynau astudio ar gyfer dysgu llawn amser neu ran amser, ar-lein, ar y campws neu ddysgu cyfunol.
- Perthynas weithio agos rhwng Prifysgol Abertawe a'r GIG yng Nghymru, gan hwyluso addysgu ac ymchwil ar y cyd.

### PAM ABERTAWE?

- Caiff ein cyrsiau gwyddorau meddygol a bywyd eu haddysgu yn ein Hysgol Feddygaeth sy'n ymhlith y 5 Uchaf yn y DU (Times Good University Guide 2023)¨.
- Byddi di'n elwa o amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, lle bydd llawer o gyfleoedd i greu cysylltiadau ar draws disgyblaethau.
- Byddi di yng nghwmni arbenigwyr byd-eang ym meysydd meddygaeth, iechyd a gwyddor bywyd, y mae 85% o'u hymchwil wedi cael ei chydnabod am arwain y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 (REF 2021).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gofal Iechyd Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd a Gofal Iechyd Sylfaenol
- Gwaith Cymdeithasol
- Iechyd y Cyhoedd a'r Boblogaeth
- Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio
- Proffesiynau Perthynol i Iechyd
- Seicoleg a Niwrowyddoniaeth

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

¨Safleoedd sy'n benodol i israddedigion sy'n cynnwys asesu ansawdd ymchwil sefydliad.

**Gelli di ddechrau'r rhaglen hon** ym mis Ionawr hefyd, gweler tudalen 64

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

# GWYDDORAU MEDDYGOL A BYWYD - RHAGLENNI YMCHWIL

## CAMPWS SINGLETON

**5 UCHAF YN Y DU**
**ANSAWDD YMCHWIL CYFFREDINOL**
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd PhD/MD/MPhil/MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Addysg Glinigol PhD ALl RhA
- Canser a Genomeg PhD ALl RhA
- Ffiseg a Delweddu Meddygol ALl RhA
- Gwyddor Ddadansoddol Gymhwysol (LCMS) MRes ALl RhA
- Microbioleg ac Imiwnoleg PhD ALl RhA
- Nanofeddygaeth PhD ALl RhA
- Niwrowyddoniaeth Feddygol PhD ALl RhA
- Tocsicoleg a Ffarmacoleg PhD ALl RhA

Mae ein cyrsiau ymchwil ôl-raddedig yn y gwyddorau meddygol a bywyd wedi'u dylunio i dy helpu i gymryd y camau nesaf yn dy yrfa neu fynd â dy astudiaethau academaidd ymhellach. Manteisia'n llawn ar ein cyfleusterau o'r radd flaenaf, ein harbenigedd rhyngddisgyblaethol a'n henw da sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ar gyfer ymchwil ac arloesi agored.

Mae'r Ysgol Feddygaeth ymysg y goreuon yn gyson yn y DU sy'n golygu bod gennym effaith go iawn o ran gwella iechyd, cyfoeth a lles pobl Cymru a'r byd. Bydd dy ddysgu'n cael ei gyfeirio gan ganfyddiadau diweddaraf staff o'r radd flaenaf ac arloesiadau sy'n torri tir newydd a byddi di'n elwa o ymagwedd ryngbroffesiynol a rhyngddisgyblaethol i wella canlyniadau iechyd.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Cyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf, lle mae 100% o'n hamgylched ymchwil yn rhagorol yn rhyngwladol (REF 2021).
- Mynediad at ein Sefydliad Gwyddor Bywyd gwerth £100 miliwn ynghyd ag ystafelloedd Delweddu Clinigol sy'n cynnwys delweddu 3T, MRI a CT cydraniad uchel.
- Addysg ryngbroffesiynol, gan elwa o dechnoleg ddysgu ymdrochol arobryn gwerth £5.2 miliwn.
- Teilwra dy opsiynau astudio ar gyfer dysgu llawn amser neu ran amser, ar-lein, ar y campws neu ddysgu cyfunol.
- Perthynas weithio agos rhwng Prifysgol Abertawe a'r GIG yng Nghymru, gan hwyluso addysgu ac ymchwil ar y cyd.

**Darganfydda fwy am gyfleuster Efelychu Prifysgol Abertawe – SUSiM**

### PAM ABERTAWE?

- Caiff ein cyrsiau gwyddorau meddygol a bywyd eu haddysgu yn ein Hysgol Feddygaeth sy'n ymhlith y 5 Uchaf yn y DU (Times Good University Guide 2023)
- Byddi di'n elwa o amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, lle bydd llawer o gyfleoedd i greu cysylltiadau ar draws disgyblaethau.
- Byddi di yng nghwmni arbenigwyr byd-eang ym meysydd meddygaeth, iechyd a gwyddor bywyd, y mae 85% o'u hymchwil wedi cael ei chydnabod am arwain y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 (REF 2021).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gofal Iechyd Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd a Gofal Iechyd Sylfaenol
- Gwaith Cymdeithasol
- Iechyd y Cyhoedd a'r Boblogaeth
- Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio
- Proffesiynau Perthynol i Iechyd
- Seicoleg a Niwrowyddoniaeth

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Safleoedd sy'n benodol i israddedigion sy'n cynnwys asesu ansawdd ymchwil sefydliad.

ION **Gelli di ddechrau'r rhaglen hon** ym mis Ionawr hefyd, gweler tudalen 64

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

# Y GYFRAITH
## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Y Gyfraith PhD/MPhil** ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Hawliau Dynol LLM** ALl RhA

Ymuna â chymuned ddeinamig yn Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton sy'n cynnig rhaglenni arloesol a gynlluniwyd i dy baratoi ar gyfer galwadau'r byd cyfreithiol modern sydd o hyd yn newid.

Dysga wrth academyddion o safon fyd-eang sydd â phrofiad helaeth yn y maes, ac archwilio ystod o themâu cyfreithiol blaengar. Mae ein hadeiladau sydd newydd eu hadnewyddu, sef Rhodfa Ysgol y Gyfraith ac Adeilad Richard Price, yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i dy helpu i ragori yn dy astudiaethau.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Cymorth rhagorol i fyfyrwyr, ystod o fentrau cyflogadwyedd a chysylltiadau â chyflogwyr allweddol.
- Graddau ymchwil ac a addysgir arbenigol.
- Grwpiau bach a addysgir gan arbenigwyr gyda llu o brofiad academaidd ac ymarferol.
- Cyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys mannau astudio a chymdeithasol penodol.

**150 UCHAF**
YN Y BYD
**Y GYFRAITH**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn cynnig rhaglenni ôl-raddedig sy'n cael eu llywio gan yr ymchwil a'r arloesi diweddaraf.
- Mae 83.3% o'n hymchwil yn creu effaith sylweddol o ran ei gyrhaeddiad a'i arwyddocâd (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Cyfraith Fasnachol Ryngwladol, LLM
- Cyfraith Fasnachol a Morwrol Ryngwladol, LLM
- Cyfraith Forwrol Ryngwladol, LLM
- Cyfraith Masnach Ryngwladol, LLM
- Cyfraith Olew, Nwy ac Ynni Adnewyddadwy, LLM
- Eiddo Deallusol ac Arloesedd, LLM
- Seiberdroseddu a Therfysgaeth, MA
- TechGyfreithiol a Chyfraith Fasnachol, LLM

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

16 PEACE, JUSTICE AND STRONG INSTITUTIONS
SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

**4ydd YN Y DU**
**11eg YN Y BYD**

(Times Higher Education Impact Rankings 2023)

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

# Y GYFRAITH – CYRSIAU PROFFESIYNOL

## CAMPWS SINGLETON

150 UCHAF YN Y BYD
**Y GYFRAITH**
(QS World University Rankings 2023)

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) PGDip** ALI RhA
- **Y Gyfraith ac Ymarfer Cyfreithiol LLM** ALI
- **Ymarfer Cyfreithiol a Drafftio Uwch LLM** ALI RhA
- **Ymarfer Cyfreithiol Proffesiynol LLM** ALI

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn deall pwysigrwydd o dy baratoi ar gyfer dy yrfa gyfreithiol. Dyna pam mae ein rhaglenni proffesiynol wedi'u cynllunio i roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnat i lwyddo.

Gyda'n cymorth, gelli di fagu'r hyder i gymryd y cam nesaf yn dy yrfa, boed mynd i'r byd gwaith, dilyn hyfforddiant pellach, cychwyn ar gontract hyfforddi neu sefyll Arholiadau Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE).

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Rhaglenni Ôl-raddedig proffesiynol wedi'u haddysgu gan arbenigwyr gyda llu o brofiad a gwybodaeth ymarferol.
- Addysgu mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector.
- Cymorth bugeiliol a chyflogadwyedd ardderchog, gan dy baratoi di ar gyfer dy yrfa.
- Dwy radd LLM wedi'u cynllunio i dy helpu i ddatblygu dy sgiliau ac i baratoi ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithiwr (SQE):

– LLM mewn Ymarfer Cyfreithiol Proffesiynol – Cynlluniwyd ar gyfer graddedigion y gyfraith a luniwyd yn unol â gofynion SQE 1 a 2

– LLM yn Y Gyfraith ac Ymarfer Cyfreithiol – Cwrs trosi ar gyfer graddedigion nad ydynt yn gweithio yn y gyfraith a luniwyd yn unol â gofynion SQE 1

- Ceir amrywiaeth o gymorth ariannol i dy helpu i ymgymryd â rhaglen broffesiynol:

– Bwrsariaethau i raddedigion Abertawe, yn ogystal â chyn-fyfyrwyr prifysgolion Cymru

– Ysgoloriaethau sy'n agored i ddeiliaid cynigion LLM

– Cyllid drwy Gyllid Myfyrwyr ar gyfer unrhyw un o'n rhaglenni LLM

Darganfydda fwy:
**abertawe.ac.uk/y-gyfraith/cycp/cymorth-proffesiynol**

### PAM ABERTAWE?

- Byddi di'n elwa o'n cysylltiadau ardderchog â chwmnïau cyfreithiol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Mae gennym ni dîm Cyflogadwyedd a Lleoliadau Gwaith dynodedig, sy'n trefnu digwyddiadau gyda'n hacademyddion er mwyn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol i ti.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50




# Pino Musolino

LLM mewn Cyfraith Fasnachol a Morwrol Ryngwladol

Mae fy amser yn Abertawe wedi bod yn anhygoel: cwrs anhygoel, athrawon hynod wybodus, cyfleusterau o'r radd flaenaf, gweithgareddau chwaraeon gwych, dinas fywiog, a chyd-fyfyrwyr amrywiol o bedwar ban byd.

Cwblhau fy LLM oedd man cychwyn gyrfa wobrwyol iawn mewn amgylchedd morgludiant rhyngwladol, gan fy ngalluogi i weithio yn Antwerp, Singapore ac yna yn ôl i'r Eidal i weithio mewn lleoedd fel Fenis a Rhufain.

Byddwn yn cynghori unrhyw fyfyriwr ifanc i ganolbwyntio ar ei freuddwydion a dewis Abertawe'n bendant fel y lle i ddechrau ar yrfa lwyddiannus iawn.

“Byddwn yn cynghori unrhyw fyfyriwr ifanc i ganolbwyntio ar ei freuddwydion a dewis Abertawe'n bendant fel y lle i ddechrau ar yrfa lwyddiannus iawn.”

# Y GYFRAITH – LLONGAU A MASNACH

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Cyfraith Fasnach Ryngwladol LLM ALl RhA
- Cyfraith Fasnachol Ryngwladol LLM ALl RhA
- Cyfraith Fasnachol a Morwrol Ryngwladol LLM ALl RhA
- Cyfraith Forwrol Ryngwladol LLM ALl RhA
- Cyfraith Olew, Nwy ac Ynni Adnewyddadwy LLM ALl RhA
- Eiddo Deallusol ac Arloesi LLM ALl RhA
- TechGyfreithiol a Chyfraith Fasnachol LLM ALl RhA

Mae Ysgol y Gyfraith yn gartref i amgylchedd academaidd ffyniannus ac mae'n ymroddedig i ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil, sy'n darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr.

Mae ein hystod o raddau LLM mewn cyfraith llongau a masnach yn cynnig arbenigedd arbenigol sy'n dy baratoi ar gyfer llwyddiant mewn marchnad fyd-eang.

Ymdrocha mewn amgylchedd cyfeillgar, croesawgar a phroffesiynol gyda chymuned amrywiol o fyfyrwyr rhyngwladol o bob rhan o'r byd.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Addysgu gan academyddion sydd ar flaen y gad o ran ysgolheictod eu meysydd, y mae eu haddysgu medrus ac arloesol yn pontio'r bwlch rhwng y byd academaidd ac ymarfer.
- Cymorth bugeiliol a chyflogadwyedd rhagorol a chymuned ryngwladol fywiog.
- Ystod o weithgareddau a mentrau allgyrsiol a fydd yn rhoi'r sgiliau a'r profiad y mae eu hangen arnat i lwyddo.

**150 UCHAF**
YN Y BYD
**Y GYFRAITH**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn elwa o gysylltiadau rhagorol â chyflogwyr ac yn cynnig ystod o fentrau, megis darlithoedd gwadd, sgyrsiau i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, digwyddiadau rhwydweithio, ffair gyrfaoedd LLM flynyddol ac ymweliadau â chwmnïau cyfreithiol blaenllaw yn Llundain.
- Bydd gen ti fynediad at gystadlaethau dadlau mewn ffug lys barn ac ysgolion haf dramor i fireinio dy sgiliau.
- Mae ein modiwl Cyflafareddu Masnachol Rhyngwladol (LACM17) wedi cael ei gydnabod gan Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr (CIArb). Mae hyn yn golygu bydd myfyrwyr LLM sy'n cwblhau'r modiwl Cyflafareddu Masnachol Rhyngwladol yn llwyddiannus yn Abertawe'n gymwys i gyflwyno cais i dderbyn lefel Aelod Cysylltiol CIArb.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Hawliau Dynol, LLM
- Seiberdroseddu a Therfysgaeth, MA

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

Chartered Institute of Arbitrators
CIArb

# HANES
## CAMPWS SINGLETON

**RHAGLENNI YMCHWIL**

- Hanes MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA

**RHAGLENNI A ADDYSGIR**

- Hanes MA ALl RhA
- Hanes Modern MA ALl RhA

Astudia Hanes mewn adran a gydnabyddir yn rhyngwladol am ei chyfraniadau at ddealltwriaeth o'r cyfnodau canoloesol, modern cynnar a modern. Archwilia astudio hanes Prydain, Ewrop, cyfandiroedd America neu'r byd ehangach.

Datblyga amrywiaeth eang o sgiliau y mae galw mawr amdanynt gan gyflogwyr yn y byd academaidd, sefydliadau diwylliannol a busnesau. Bydd gen ti'r rhyddid i archwilio dy ddiddordebau hanesyddol dy hun wrth lunio darn gwreiddiol o ymchwil hanesyddol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Ar gyfer ôl-raddedigion ymchwil, bydd gen ti fynediad i gyfleuster newydd pwrpasol sy'n darparu gofod astudio, hyfforddi a chymdeithasol yng nghanol y campws.
- Hyfforddiant mewn dulliau ymchwil uwch a datblygu sgiliau trosglwyddadwy yn ymwneud ag ymchwil hanesyddol, dadansoddi, ysgrifennu a sgiliau cyflwyno.
- Cymorth ac arweiniad gan arbenigwyr cydnabyddedig ar draws amrywiaeth o ymagweddau a meysydd hanesyddol, gan gynnwys gwrthdaro, diwylliant, anabledd, rhywedd, iechyd ac afiechyd, treftadaeth, hunaniaeth, diwydiant a gwaith, y gyfraith, gwleidyddiaeth, crefydd, gwyddoniaeth a chwaraeon.
- Cyfleoedd i greu gwaith mewn fformatau academaidd traddodiadol ac i feddwl yn greadigol am y ffordd orau o ennyn diddordeb y cyhoedd ehangach mewn ymchwil academaidd.
- Aelodaeth o gymuned o fyfyrwyr ac ysgolheigion sy'n archwilio arwyddocâd y gorffennol wrth fynd i'r afael ag anghenion dybryd y presennol.

**11eg**
YN Y DU
**EFFAITH YMCHWIL**
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### PAM ABERTAWE?

- Byddi di'n astudio mewn dinas a chanddi dros fil o flynyddoedd o hanes a threftadaeth, sy'n gartref i adnoddau ymchwil megis Archifau Richard Burton, Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Llyfrgell Glowyr De Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.
- Byddi di'n cael cyfle i weithio gyda chanolfannau ymchwil yn y brifysgol sy'n ymroddedig i astudio Cymru; gwrthdaro, cof ac ailadeiladu; y dyniaethau meddygol; rhywedd; y cyfnodau canoloesol a modern cynnar; treftadaeth; a'r celfyddydau a'r dyniaethau digidol.
- Cei ddewis ymgymryd â lleoliad gwaith gydag un o amrywiaeth eang o sefydliadau partner lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Cei dy addysgu gan academyddion y barnwyd bod eu hymchwil yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 ac sy'n ymroddedig i uchafu effaith eu hymchwil er lles y cyhoedd.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Astudiaethau Canoloesol, MA
- Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth, MA
- Rhyfel a Chymdeithas, MA

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

# HANES CYHOEDDUS A THREFTADAETH

## CAMPWS SINGLETON

YSTYRIR BOD **100%** EFFAITH YMCHWIL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth MA** ALl RhA
- **Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth MA (Estynedig)** ALl

Lluniwyd y rhaglen hyblyg hon ar gyfer y sawl sy'n dyheu am yrfa mewn hanes a threftadaeth cyhoeddus yn benodol. Bydd hi'n darparu hyfforddiant academaidd ynghyd â sgiliau cyflogadwyedd perthnasol.

Astudia mewn adran sy'n cynnwys arbenigwyr mewn hanes a threftadaeth cyhoeddus, gan ddatblygu dy ddealltwriaeth o sut mae treftadaeth yn cael ei rheoli a'i thrafod. Byddi di'n datblygu sgiliau mewn dehongli a chyflwyno treftadaeth ac mewn cyfleu gwybodaeth am y gorffennol i gynulleidfaoedd cyhoeddus. Byddi di'n cwblhau dy radd gyda thraethawd hir academaidd traddodiadol neu leoliad gwaith ymarferol gyda sefydliad treftadaeth.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Modiwlau hyblyg mewn treftadaeth, hanes cyhoeddus, hanes yr henfyd, diwylliant yr hen Aifft, hunaniaethau Cymreig, theori amgueddfa, ymarfer amgueddfa a lleoliad gwaith.
- Ennill profiad uniongyrchol yn y sector trwy leoliad gwaith gyda sefydliadau treftadaeth.
- Hyfforddiant yn yr agweddau ymarferol, deallusol a moesegol ar dreftadaeth a hanes cyhoeddus; cyfleoedd i astudio hanes a threftadaeth ystod eang o gyfnodau.
- Myfyrio ar hanes cyhoeddus a threftadaeth fel mentrau cymunedol, fel allwedd i hunaniaethau'r presennol, fel asedau twristiaeth ac adfywio economaidd, a'u gallu i sbarduno gwrthdaro ynghylch agweddau gwrthgyferbyniol at y gorffennol.
- Byddi di'n gweithio gyda'r ystod lawn o ffynonellau hanesyddol a deunyddiau treftadaeth, gan gynnwys gwrthrychau archeolegol, dogfennau archifol, yr amgylchedd adeiledig, tirweddau a threftadaeth anniriaethol.

### PAM ABERTAWE?

- Byddi di'n astudio mewn dinas a gafodd ei llunio gan ei threftadaeth ganoloesol a diwydiannol sy'n cynnwys sefydliadau megis Archifau Richard Burton, ein hamgueddfa sydd ar y campws, sef y Ganolfan Eifftaidd, Oriel Gelf Glynn Vivian, Amgueddfa Abertawe ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.
- Cei gyfle i weithio gyda chanolfannau ymchwil y Brifysgol, gan gynnwys CHART, Canolfan Abertawe ar gyfer Ymchwil a Hyfforddiant Treftadaeth, ac OLCAP, Ymagweddau at y Gorffennol sy'n seiliedig ar Wrthrychau a Thirwedd.
- Byddi di'n ymgymryd â lleoliad gwaith gydag un o amrywiaeth eang o sefydliadau partner lleol neu genedlaethol.
- Byddi di'n cael dy addysgu gan ysgolheigion y barnwyd bod eu heffaith ymchwil yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Astudiaethau Canoloesol, MA
- Eifftoleg, MA drwy Ymchwil
- Hanes, MA
- Hanes Modern, MA
- Hanes yr Henfyd a Diwylliant Clasurol, MA
- Rhyfel a Chymdeithas, MA

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

# IAITH SAESNEG, TESOL AC IEITHYDDIAETH GYMHWYSOL

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Ieithyddiaeth Gymhwysol MA drwy Ymchwil ALl RhA
- Ieithyddiaeth Gymhwysol PhD/MPhil ALl RhA DoB

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill MA/PGDip ALl RhA
- Cyfieithu ac Addysgu Iaith Tsieinëeg-Saesneg MA ALl

Mae'r adran Iaith Saesneg, Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL), ac Ieithyddiaeth Gymhwysol ym Mhrifysgol Abertawe wedi'i chydnabod yn rhyngwladol am ei hymchwil a'i haddysg eithriadol mewn addysgu ieithoedd ac ieithyddiaeth gymhwysol. Mae aelodau'r adran yn cynhyrchu ymchwil dylanwadol mewn astudiaethau geirfa, profi, caffael ail iaith, a meysydd cysylltiedig eraill.

Mae'r adran yn cydweithio â sefydliadau blaenllaw ledled y byd i ddatblygu'r maes, gan sefydlu rhwydwaith byd-eang o weithwyr proffesiynol i wella effaith ei hymchwil a'i haddysg ymhellach.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae Labordy Ymchwil newydd yr adran yn cynnig mynediad at feddalwedd dilyn symudiad y llygaid, amser ymateb ac adeiladu arbrofion arloesol, offer corpws a chyfleusterau recordio fideos/recordiadau sain. Mae Labordai Iaith ac Ystafell Cyfieithu ar y Pryd hefyd ar gael i'w defnyddio.
- Mae PhD mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol yn dy alluogi i ymgymryd â phrosiect sylweddol wedi'i arwain gan dy hoffterau a dy ddiddordebau personol. Cei dy oruchwylio'n agos gan staff brwdfrydig sy'n aelodau o'r Ganolfan Ymchwil Iaith (LRC).
- Mae'r cwrs MA mewn Dysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn cynnig cyfuniad o brofiadau dysgu damcaniaethol ac ymarferol, sy'n dy alluogi i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnat i ymwneud yn llwyddiannus â chyd-destunau a heriau amrywiol addysg ieithoedd.
- Mae ein rhaglenni'n elwa o bartneriaeth agos ag uned hyfforddi iaith Saesneg y Brifysgol, ac ymarferwyr addysgu ieithoedd eraill.
- Mae ein rhaglenni'n edrych ar ffyrdd o ddadansoddi gwybodaeth am iaith a'r defnydd o iaith ar draws ystod eang o gyd-destunau, ac yn ymwneud â materion y byd go iawn ac effeithiau hollbwysig ar unigolion a chymunedau.

**150 UCHAF YN Y BYD**
**IAITH A LLENYDDIAETH SAESNEG**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Mae gan yr adran hanes ardderchog o oruchwylio traethodau estynedig dylanwadol o safon uchel, ac mae myfyrwyr ymchwil yn gweithio gyda staff i feithrin cymuned academaidd ddeinamig.
- Ar y cyd â phrifysgolion Bangor a Chaerdydd, mae'r adran yn cynnig Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol ESRC ym meysydd thematig Ieithyddiaeth a Dwyieithrwydd. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnig ysgoloriaethau i sicrhau'r llif o bobl gymwysedig iawn i yrfaoedd ymchwil yn y byd academaidd a'r tu allan iddo.
- Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil yn rhan o'n Canolfan y Graddedigion, sy'n darparu cymorth bugeiliol a gweinyddol. Mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth sgiliau ymchwil, yn ogystal â hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i'r gymuned ymchwil ôl-raddedig. Gall myfyrwyr hefyd ymuno â'n Canolfan Ymchwil Iaith, ac elwa o ddigwyddiadau pwrpasol, hyfforddiant, a chysylltu â'u rhwydwaith byd-eang.
- Byddi di'n astudio ar ein campws Parc Singleton llawn bwrlwm, mewn parcdir sy'n edrych dros Fae Abertawe.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- TAR Uwchradd gyda SAC: Saesneg, PGCert

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# IECHYD Y CYHOEDD A'R BOBLOGAETH

CAMPWS SINGLETON

## RHAGLENNI YMCHWIL

- Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd MSc drwy Ymchwil/PhD/MD/MPhil ALl RhA
- Economeg Iechyd MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil/MSc ALl RhA
- Gerontoleg a Heneiddio PhD/MPhil ALl RhA
- Gwybodeg Iechyd MRes ALl RhA
- Gwyddor Data'r Boblogaeth ac Iechyd PhD ALl RhA
- Iechyd a Lles MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Iechyd y Cyhoedd PhD/MPhil ALl RhA
- Polisi Iechyd PhD/MPhil ALl RhA
- Rheoli Gofal Iechyd PhD/MPhil ALl RhA
- Ymchwil mewn Addysg y Proffesiynau Iechyd DProf/MRes ALl RhA

## RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Gwybodeg Iechyd MSc/PGDip/PGCert ALl RhA ION
- Gwyddor Data Iechyd MSc/PGDip/PGCert ALl RhA ION
- Iechyd y Cyhoedd a Hybu Iechyd MSc/PGDip ION
- Rheoli Gofal Iechyd MSc ALl RhA ION

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â heriau byd-eang a gwella iechyd, cyfoeth a lles cymdeithas. Bydd dy astudiaethau'n cyfuno damcaniaeth ac ymarfer, gan arwain at effaith yn y byd go iawn a chanlyniadau gwell i gleifion ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Wrth astudio gyda myfyrwyr o ystod eang o ddiwydiannau a galwedigaethau, byddi di'n datblygu dealltwriaeth o natur amlddimensiwn iechyd y cyhoedd a'r boblogaeth, gan ystyried ystod eang o safbwyntiau, o feddygaeth draddodiadol i dechnoleg, economeg gymdeithasol a pholisi rhyngwladol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Integreiddio damcaniaeth ac ymarfer i ddarparu cyfraniadau sylweddol i heriau iechyd y cyhoedd ac iechyd y boblogaeth.
- Elwa o fodiwlau ac addysgu a gynlluniwyd ac a gaiff eu llywio gan ein hymchwil yn ogystal â pholisi rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang.
- Mynediad at gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf, gan gynnwys y Canolfannau Rhagoriaeth ar gyfer Data Gweinyddol ac Ymchwil e-Iechyd.
- Byddi di'n cael dy addysgu gan academyddion blaenllaw sy'n adnabyddus am ddefnyddio'r gwyddorau i gyflawni newid er budd cleifion a'r gymdeithas.

**100%**
**AMGYLCHEDD YMCHWIL**
YN CREU YMCHWIL SY'N ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### PAM ABERTAWE?

- Caiff ein cyrsiau mewn Iechyd y Cyhoedd a'r Boblogaeth eu haddysgu yn yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe.
- Byddi di'n elwa o amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, lle bydd llawer o gyfleoedd i greu cysylltiadau ar draws disgyblaethau.
- Byddi di yng nghwmni arbenigwyr byd-eang ym meysydd meddygaeth, iechyd a gwyddorau bywyd, y mae 85% o'u hymchwil wedi cael ei chydnabod am arwain y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021.
- Addysg ryngbroffesiynol, gan elwa o dechnoleg ddysgu ymdrochol arobryn gwerth £5.2 miliwn.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gofal Iechyd Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd a Gofal Iechyd Sylfaenol
- Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio
- Proffesiynau Perthynol i Iechyd
- Seicoleg a Niwrowyddoniaeth
- Y Gwyddorau Meddygol a Bywyd

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

ION **Gelli di ddechrau'r rhaglen hon** ym mis Ionawr hefyd, gweler tudalen 64

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

# IEITHOEDD MODERN, CYFIEITHU A CHYFIEITHU AR Y PRYD

## CAMPWS SINGLETON

**350 UCHAF YN Y BYD IEITHOEDD MODERN** (QS World University Rankings 2023)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Astudiaethau America Ladin MA drwy Ymchwil ALl RhA
- Cyfieithu PhD/MPhil ALl RhA
- Cyfieithu Llenyddol MA drwy Ymchwil ALl RhA
- Ieithoedd Modern MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA
- Ieithoedd Modern Prifysgol Abertawe ac Université Grenoble Alpes PhD ar y Cyd ALl RhA
- Sgrinio/Llwyfannu Ewrop MA drwy Ymchwil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd MA ALl RhA
- Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd (Estynedig) MA ALl RhA
- Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd (Estynedig gydag Université Grenoble Alpes) MA ALl
- Cyfieithu Proffesiynol MA ALl RhA
- Cyfieithu Proffesiynol (Estynedig) MA ALl RhA
- Cyfieithu Proffesiynol (Estynedig gydag Université Grenoble Alpes) MA ALl
- Technoleg Cyfieithu PGCert ALl

Ym Mhrifysgol Abertawe, mae ein rhaglenni cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ôl-raddedig yn gyfle ardderchog i ddatblygu sgiliau iaith. Mae ein staff arbenigol, sydd â phrofiad helaeth o'r diwydiant gwasanaethau ieithoedd, wedi cynllunio ein rhaglenni a addysgir i fod yn ymarferol ac yn berthnasol i dy yrfa. Rydym ni'n ymfalchïo yn ein gallu i gynnig cyfran uchel o asesiadau sy'n seiliedig ar brosiectau i sicrhau dy fod yn barod i gamu i’r diwydiant yn hyderus. Mae gan ein staff, sy'n gwneud ymchwil hefyd, ddiddordebau amrywiol, o ieithyddiaeth i dechnolegau cyfieithu, gan ddarparu amgylchedd dysgu deinamig a diddorol. Fel myfyriwr ymchwil, byddi di'n rhan o'n cymuned gefnogol a deallusol ysgogol, a bydd amrywiaeth o ddigwyddiadau a chymorth ar gael i ti.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae gennym gyfleusterau rhagorol, gan gynnwys Ystafell Cyfieithu ar y Pryd gyda'r feddalwedd ddiweddaraf, labordai iaith gydag offer sain a gweledol, a'r meddalwedd dilyn symudiad y llygaid o'r radd flaenaf ar gyfer ymchwil i gaffael iaith.
- Caiff pob myfyriwr fynediad at sianeli iaith ac archif helaeth o ffilmiau mewn ieithoedd tramor.
- Mae dysgu ac addysgu ar ein graddau'n cael eu hatgyfnerthu gan weithgareddau allgyrsiol a drefnir gan gymdeithasau iaith dan arweiniad myfyrwyr Prifysgol Abertawe, caffis iaith wythnosol a digwyddiadau cymdeithasol eraill. Mae aelodau staff yn yr Adran yn cefnogi'r holl ddigwyddiadau hyn.

### PAM ABERTAWE?

- Mae gennym gyfleusterau o'r radd flaenaf sy'n bodloni safonau'r diwydiant, ynghyd â rhwydwaith byd-eang cadarn o sefydliadau allanol i helpu i lywio dy astudiaethau.
- Rydym yn dod â sefydliadau a mudiadau o bedwar ban byd ynghyd i greu a datblygu rhaglenni rhyngwladol arloesol, cydweithrediadau a phartneriaethau strategol â phrifysgolion o safon fyd-eang.
- Mae gan ein rhaglenni MA a addysgir hanes hir o ysbrydoli ieithyddion cyffredinol ardderchog i ddod yn gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd proffesiynol.
- Rydym yn cynnig hyfforddiant ôl-raddedig er mwyn ehangu datblygiad academaidd a phroffesiynol ac yn hwyluso rhaglenni seminar, gweithdai a chynadleddau rhyngwladol.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, MA/PGDip
- Cyfieithu ac Addysgu Iaith Tsieinëeg-Saesneg, MA
- TAR Uwchradd gyda SAC: Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg, Sbaeneg), PGCert

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

**Proffil Myfyriwr** gweler y dudalen nesaf



# Rebecca Lavis

PhD, Ysgol Ieithoedd Modern,
Cyfieithu A Chyfieithu Ar Y Pryd

Roeddwn yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe bum mlynedd ar hugain yn ôl gan raddio gyda Dosbarth Cyntaf mewn Ffrangeg a Chymraeg! Mae atgofion bendigedig gen i o fy nyddiau fel myfyriwr israddedig yma. Yna cyflawnais Ddiploma ôl-raddedig yn y Gyfraith gyda Phrifysgol Morgannwg. Treuliais i bum mlynedd yn Adran Adnoddau Dynol Coleg Castell-nedd Port Talbot ac wedyn ar ôl penderfynu mynd yn rhan amser i fagu teulu, llwyddais i gael swydd fel cyfieithydd rhan amser yn y Coleg yn 2006 ac rwyf wrth fy modd yn dal i wneud yr un swydd heddiw.

Wrth i'r plant dyfu, dechreuais feddwl o ddifrif am ddychwelyd i addysg ac ar yr un pryd, gwelais yr hysbyseb am ysgoloriaeth ym maes yr anghyfieithadwy a phenderfynais achub ar y cyfle perffaith ac ymgeisio. Roeddwn i wrth fy modd i ennill ysgoloriaeth a ariennir gan Brifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Wrth gyfuno'r ysgoloriaeth gyda gwaith rhan amser, mae hyn yn fy ngalluogi i astudio heb effeithio ar fywyd teuluol ac rydw i'n ddiolchgar dros ben. Heb y gefnogaeth ariannol ni fyddai modd i mi gyflawni fy PhD ar hyn o bryd.

Teitl fy noethuriaeth yw Gwir Arwyddocâd yr Anghyfieithadwy parthed y Gymraeg: Ymagwedd Gyfannol o'r Theori i'r Gweithle. Rydw i'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae hyn yn ddewis naturiol i mi ar ôl astudio fy ngradd israddedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd ysgrifennu'r PhD trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o amodau'r ysgoloriaeth ond yn bwysig iawn i mi yn bersonol hefyd. Mae Prifysgol Abertawe yn lle ffantastig heb unrhyw amheuaeth!

Mae'r cyfleusterau o'r radd flaenaf. Mae'r llyfrgell yn cynnig gwasanaeth ffantastig ar-lein a llyfrgellwyr cymwynasgar. Cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddi yn ddiweddar ac roeddwn i wrth fy modd i allu gwneud sawl un trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. cyfeirnodi. Ac wrth gwrs, mae lleoliad y Brifysgol heb ei ail!

Mae haenau amrywiol i fy uchelgais mewn gwirionedd. Hoffwn ysgrifennu darn o waith dylanwadol o safon uchel. Yn fwy na dim, hoffwn wneud cyfraniad at ymchwil Cymraeg gan godi proffil yr iaith a diddordeb ym maes cyfieithu a dwyieithrwydd yng Nghymru. Erbyn diwedd y PhD, hoffwn deimlo fel fy mod wedi llwyddo i wneud rhyw fath o gyfraniad gwreiddiol at y maes a mân gyfraniad at ddyfodol ymchwil Cymraeg yn gyffredinol.

> "Roedd ysgrifennu'r PhD trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o amodau'r ysgoloriaeth ond yn bwysig iawn i mi yn bersonol hefyd. Mae Prifysgol Abertawe yn lle ffantastig heb unrhyw amheuaeth!"

# LLENYDDIAETH SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Llenyddiaeth Saesneg MA drwy Ymchwil ALl RhA
- Llenyddiaeth Saesneg PhD/MPhil ALl RhA
- Ysgrifennu Creadigol PhD/MPhil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Llenyddiaeth Saesneg MA ALl RhA
- Llenyddiaeth Saesneg Cymru MA ALl RhA
- Ysgrifennu Creadigol MA ALl RhA
- Ysgrifennu Creadigol (Estynedig) MA ALl RhA

Dechreua daith lenyddol drwy ddilyn ein rhaglenni Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ôl-raddedig, dan arweiniad tîm o awduron ac academyddion nodedig sydd ag arbenigedd mewn ystod hynod eang o genres a sgiliau ysgrifennu.

Mae'r rhaglenni arloesol hyn yn meithrin amgylchedd cydweithredol a rhyngddisgyblaethol sy'n dy annog di i estyn ffiniau dy greadigrwydd. Byddi di'n ennill amrywiaeth o sgiliau, yn dod yn rhan o gymuned ymchwil ddeinamig, yn cymryd rhan mewn trafodaethau ymchwil bywiog sy'n cynnwys sawl genre amrywiol ac yn derbyn gwasanaeth mentora personol, a fydd yn dy baratoi di at yrfa wobrwyol yn y byd llenyddol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Amrywiaeth eang o opsiynau a modiwlau sy'n elwa o arbenigedd ymchwil unigol aelodau staff.
- Mae'r adran Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol hefyd yn gartref i ganolfannau ymchwil cyffrous, megis Canolfan Ymchwil Llenyddiaeth ac Iaith Saesneg yng Nghymru (CREW). Fel yr arweinydd rhyngwladol cydnabyddedig yn y maes hwn o astudiaethau llenyddol a diwylliannol, mae CREW wedi datblygu rhaglen addysgu ac ymchwil helaeth. Caiff fudd o adnoddau unigryw, gan gynnwys dyddiaduron Richard Burton, papurau Raymond Williams, a llyfr nodiadau a ailddarganfuwyd yn ddiweddar yn perthyn i Dylan Thomas.
- Mae'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil Canoloesol a Chyfnod Modern Cynnar (MEMO) yn cynorthwyo staff academaidd a myfyrwyr ôl-raddedig sy'n gweithio ar bynciau hanesyddol, ieithyddol, a llenyddol o'r Cynfyd Diweddar i tua 1800. Mae ei haelodau wedi cael symiau sylweddol o gyllid gan AHRC, Ymddiriedolaeth Leverhulme, ac Ymddiriedolaeth Wellcome dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae'r Ganolfan Ymchwil i'r Rhywiau a Diwylliant mewn Cymdeithas (GENCAS) yn gorff ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n dwyn ynghyd staff a myfyrwyr ôl-raddedig o bob rhan o'r Brifysgol sy'n ymchwilio i rywedd, gan alluogi aelodau i rannu eu harbenigedd a chydweithio.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**150** UCHAF YN Y BYD
**IAITH A LLENYDDIAETH SAESNEG**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Mae galw mawr am lawer o'n staff i roi eu barn arbenigol ar raglenni radio a theledu, ac maent yn ysgrifennu'n rheolaidd ar gyfer y papurau newydd o safon ac adolygiadau o bwys.
- Amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys sesiynau dan arweiniad ysgrifenwyr gwadd a gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant.
- Mae Campws Singleton yn gartref i Ganolfan Celfyddydau Taliesin a Chreu Taliesin, sef theatr ddeinamig, sinema a mannau creu cynhwysol ar y campws.
- Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil yn rhan o'n Canolfan y Graddedigion, sy'n darparu cymorth bugeiliol a gweinyddol. Mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth sgiliau ymchwil, yn ogystal â hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i'r gymuned ymchwil ôl-raddedig.
- Ganed un o feirdd gorau'r ugeinfed ganrif yn Abertawe, sef Dylan Thomas, ac mae'r brifysgol yn cynnal Gwobr Lenyddol Ryngwladol Dylan Thomas bob blwyddyn – gwobr gyfoethocaf y byd i awduron o dan 40 oed. Mae'r cyswllt hwn â'r diwydiant llenyddol wrth wraidd rhaglen Ysgrifennu Creadigol Abertawe ac mae'n cysylltu myfyrwyr ag asiantiaid, golygyddion, cyhoeddwyr, awduron, perfformwyr a chynhyrchwyr. Mae'r Sefydliad Diwylliannol, y mae ei aelodau'n rheoli Gwobr Dylan Thomas, yn cynnal sgyrsiau a gweithdai drwy gydol y flwyddyn.

**Ysgoloriaethau Cymraeg**
ar gael, gweler tudalen 50

**Meddyliau Mawr**
gweler y dudalen nesaf

# MEDDYLIAU MAWR
# Daniel Williams

## CADAIR BERSONOL, LLENYDDIAETH SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL

Mae'r Athro Daniel G. Williams yn feirniad diwylliannol ac yn un o ddeallusion cyhoeddus blaenllaw Cymru. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn amrywio o'r 19eg ganrif hyd heddiw ac yn cwmpasu llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg ar ddwy ochr yr Iwerydd. Mae'r diddordebau hyn yn gysylltiedig â'i ddiddordeb mewn cenedlaetholdeb, ethnigrwydd a hunaniaeth.

Mae'r Athro Williams yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac yn Gymrawd Etholedig yr Academi Gymreig. Fe yw Cyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Cymreig Richard Burton ac mae wedi gwasanaethu fel Llywydd NAASWCH (Cymdeithas Gogledd America ar gyfer Astudio Diwylliant a Hanes Cymru). Ers 2016 mae'r Athro Williams wedi bod yn Gadeirydd Panel Dyfarnu Grantiau Cyngor Llyfrau Cymru (yn yr iaith Saesneg).

Wedi derbyn ei addysg yn Ysgol Gyfun Penweddig, a Phrifysgolion Dwyrain Anglia, Harvard (lle fu'n gymrawd Frank Knox) a Chaergrawnt, dechreuodd yr Athro Williams ddysgu ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Ionawr 2000. Roedd yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CREW (Canolfan Ymchwil i Lenyddiaeth ac Iaith Saesneg Cymru) rhwng 2001 a 2007 ac fe olynodd yr Athro M. Wynn Thomas fel Cyfarwyddwr rhwng 2007 – 2010. Dyfarnwyd Cadair Bersonol iddo yn 2013.

Mae'n dysgu ar draws y mwyafrif o gyfnodau, gyda ffocws penodol ar lenyddiaeth Affro-Americanaidd, Gwyddelig a Chymreig. Anela, yn ei ddysgu, at ddatblygu dulliau o gymharu traddodiadau llenyddol. Mae'n cydlynu cyrsiau ar yr MA Llên Saesneg Cymru ac wedi cyfarwyddo wyth PhD hyd at eu cwblhau, gyda'r pynciau'n amrywio o'r bardd Harri Webb i'r nofelydd Affro-Americanaidd Ishmael Reed, o Farcsiaeth Ewropeaidd i ôl-drefedigaethedd.

"Un o'r pynciau sydd wedi cymryd fy niddordeb yn arbennig yn ddiweddar yw'r modd y mae'r Cymry wedi cymharu eu hunain â phobloedd eraill. Gall hyn ymddangos yn or-ddramatig a di-chwaeth ar brydiau. Pwy yw'r Cymry i gymharu eu hunain â'r Iddewon (fel wna'r athronydd J. R. Jones), neu frodorion America (fel y gwna'r bardd R. S. Thomas)? Ar ba sail y gellid gwneud cymariaethau o'r fath? Y berthynas rhwng cymathu i ddiwylliant mwy a'r ymdrech i gynnal hunaniaeth leiafrifol yw'r cysylltiad. Yn wahanol i lyfrau hanes neu areithiau gwleidyddol, gall gwaith o lenyddiaeth gynnal sawl safbwynt ac hunaniaeth sydd yn ymrafael â'i gilydd, a hynny'n aml y tu hwnt i reolaeth yr awdur. Os am ddeall y modd y mae'r Cymry wedi meddwl am eu safle yn y byd, at ein llenyddiaeth – yn y ddwy iaith – y mae'n rhaid troi!"

Fe yw golygydd y gyfres ryng-ddisgyblaethol Safbwyntiau: Gwleidyddiaeth, Diwylliant, Cymdeithas a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru. Mae fe wedi ysgrifennu tri llyfr: Ethnicity and Cultural Authority: from Arnold to Du Bois (2006), Black Skin, Blue Books: African Americans and Wales 1845 – 1945 (2012) a Wales Unchained: Literature and Politics in the American Century (2015) a gyrhaeddodd restr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r Athro Williams yn cwblhau, ar y cyd â Damian Walford Davies, cyfrol olaf yr 'Oxford Literary History of Wales', Welsh Writing in English, 1914 to the Present: Deaths and Entrance.



# MARCHNATA
## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Marchnata Strategol MSc** AU RhA

Mae'r MSc mewn Marchnata Strategol wedi'i ddatblygu i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o farchnata modern, lle byddi di'n ennill sgiliau ymarferol a damcaniaethol i'w defnyddio mewn unrhyw ddiwydiant.

Mae ein rhaglen yn pwysleisio cyfrifoldeb cymdeithasol, cynaliadwyedd, a chyflogadwyedd, gan sicrhau y byddi di'n graddio gyda'r sgiliau i greu strategaethau marchnata arloesol a moesegol ar gyfer y dyfodol.

Ar ôl cwblhau'r elfennau a addysgir o'r cwrs, cei di gyfle i ymgymryd â phrosiect marchnata sy'n seiliedig ar waith, gan roi dy sgiliau a dy wybodaeth newydd ar waith.

Mae ein MSc hefyd yn rhan o Raglen Gradd Achrededig y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM), sy'n golygu y gallai ein myfyrwyr, ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, raddio gydag eithriadau o asesiadau CIM proffesiynol, gan leihau'r amser y byddai'n ei gymryd i ennill cymhwyster cydnabyddedig CIM.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Cyfle i gwblhau lleoliad gwaith tri mis, neu gelli di ddewis y llwybr mwy traddodiadol a chwblhau traethawd estynedig mewn agwedd arbenigol ar farchnata.
- Ar ôl cwblhau'r MSc bydd gan fyfyrwyr eithriadau ar gyfer Tystysgrif neu Ddiploma Marchnata'r CIM.
- Cymorth eithriadol i fyfyrwyr ochr yn ochr â dy astudiaethau, gan gynnwys mynediad llawn at y tîm gyrfaoedd.
- Mae ein holl fyfyrwyr yn elwa o rannu'r safle arloesol ar Gampws y Bae â phartneriaid diwydiannol.

MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

CIM The Chartered Institute of Marketing

### ACHREDIAD
Y SEFYDLIAD MARCHNATA SIARTREDIG
CIM

### PAM ABERTAWE?
- Yn addas i raddedigion marchnata a busnes neu weithwyr proffesiynol gyda gradd israddedig berthnasol sy'n cwmpasu cysyniadau marchnata craidd.
- Wedi'i hachredu gan y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM), corff proffesiynol byd-eang.
- Mannau addysgu ac astudio yn adeilad yr Ysgol Reolaeth y buddsoddwyd £22 miliwn ynddo ar Gampws y Bae.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED
- Cyfryngau Digidol, MA
- Cyfathrebu a Newyddiaduraeth Chwaraeon, MA
- Cyfathrebu, Arferion y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus, MA
- Newyddiaduraeth Ryngwladol, MA
- Rheoli (Marchnata), MSc
- Rheoli Twristiaeth Ryngwladol, MSc

### CYLLID
Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Proffil Myfyriwr gweler y dudalen nesaf



# Bianca Kronemann

MSc Marchnata Strategol

Cwblheais fy semester cyfnewid ym Mhrifysgol Abertawe pan oeddwn yn astudio fy ngradd israddedig yn Nenmarc. Sylweddolais pa mor dda oedd Prifysgol Abertawe yn ystod y cyfnod hwn. Cefais y syniad o ddychwelyd i Abertawe i gwblhau gradd meistr ar ôl un ddarlith yn benodol. Cadwais mewn cysylltiad â'r brifysgol drwy gydol y broses gwneud cais ac roedd y tîm mor gymwynasgar.

Mae astudio cwrs ôl-raddedig yn golygu y gelli feithrin perthnasoedd hyd yn oed yn gryfach â darlithwyr, ac mae hyn yn wych. Roeddwn i'n dwlu ar y modiwlau roedd modd i mi eu dewis, a oedd yn cynnwys marchnata digidol a marchnata mewn cymdeithas.

Rwyf wedi cwrdd â chynifer o fyfyrwyr o bedwar ban byd ac erbyn hyn mae gen i ffrindiau o Fongolia a Thsieina. Roedd ymgartrefu'n hawdd: mae Abertawe'n ddinas ddiogel sydd â chymuned gyfeillgar, ac mae'n wych bod mor agos at draeth mor hardd.

> “Cwblheais fy semester cyfnewid ym Mhrifysgol Abertawe pan oeddwn yn astudio fy ngradd israddedig yn Nenmarc. Sylweddolais pa mor dda oedd Prifysgol Abertawe yn ystod y cyfnod hwn.”

# MATHEMATEG
## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Mathemateg MSc drwy Ymchwil/ PhD/MPhil** ALl RhA
- **Prosesau Stocastig: Damcaniaeth a Chymhwyso MRes** ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Gwyddor Actiwaraidd MSc** ALl RhA
- **Gwyddor Data Gymhwysol MSc** ALl
- **Mathemateg MSc** ALl RhA
- **Mathemateg a Chyfrifiadureg ar gyfer Cyllid MSc** ALl RhA

Dechreua ar dy astudiaethau ôl-raddedig mewn mathemateg yn Abertawe gyda'n hadeilad Ffowndri Gyfrifiadol gwerth £32.5 miliwn, sy'n cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer addysgu ac ymchwil. Mae ein tîm o arbenigwyr yn arbenigo mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys Algebra a Thopoleg, Dadansoddi Stocastig, Addysg Mathemateg, Biofathemateg, Mathemateg Gyfrifiadurol, a Dadansoddi a Hafaliadau Differol Rhannol Aflinol.

Fel myfyriwr, bydd gen ti fynediad i'n cyfleusterau o'r radd flaenaf, gan gynnwys mannau rhwydweithio ac ysbrydoli, a chei gyfle i gydweithio â phartneriaid diwydiannol ar heriau'r byd go iawn.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae ein rhaglenni MSc yn ddelfrydol os wyt ti am ehangu dy wybodaeth BSc drwy amrywiaeth ehangach o bynciau, a dangos dy sgiliau llenyddiaeth ymchwil drwy draethawd estynedig.
- Gelli di ddisgwyl astudio elfennau gwahanol ar fathemateg, megis elfennau mathemategol cyfrifiadura a damcaniaethau ystadegol.
- Byddi di'n datblygu dy sgiliau ymchwil, rheoli prosiect a marchnata, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig.
- Pan fyddi di'n graddio, byddi di'n fathemategwr gwybodus gyda'r sgiliau profedig i gyflawni prosiect sylweddol yn annibynnol, gan roi mantais unigryw i ti yn y farchnad swyddi, sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol.

**250 UCHAF YN Y BYD MATHEMATEG**
(QS World University rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Cyflawnodd Gwyddorau Mathemategol 100% ar gyfer effaith flaenllaw a byd-eang yn ei gyhoeddiadau ymchwil (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Mae ein cwrs Gwyddor Actiwaraidd wedi'i achredu gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid.
- Mae ein staff yn arbenigwyr yn eu meysydd mathemategol, ac mae'r rhan fwyaf wedi'u cydnabod gan yr Academi Addysg Uwch gyda naill ai Cymrodoriaeth neu Uwch-gymrodoriaeth.
- Mae gan ein hadran gyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer y gwyddorau mathemategol a chyfrifiadurol yn adeilad y Ffowndri Gyfrifiadol gwerth £32.5 miliwn, gan roi mynediad i fyfyrwyr i leoedd a ddyluniwyd i fathemategwyr.
- Rydym ni'n rhoi pwyslais cryf ar gynyddu cyflogadwyedd, ac mae llawer o'n graddedigion yn mynd ymlaen i gyflogaeth gydag amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys: AXA, BA, Deutsche Bank, Shell Research, Zurich Financial Services, awdurdodau iechyd, a llywodraeth leol.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- TAR Uwchradd gyda SAC: Mathemateg, PGCert

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Proffil Myfyriwr gweler y dudalen nesaf



# Jiao Song


MRes Prosesau Stocastig: Damcaniaeth a Chymwyso
PhD Mathemateg

Ers cwblhau fy BSc, datblygais ddiddordebau ymchwil mewn tebygolrwydd, a dod yn angerddol am greu atebion i broblemau byd go iawn gyda fy set o sgiliau. Mae'r Adran Fathemateg ym Mhrifysgol Abertawe ar flaen y gad o ran arloesi yn y maes ac mae ganddi ddiwylliant ymchwil cryf. Ymhellach, mae gan staff ymchwil yn yr adran feysydd arbenigedd gan gynnwys disgyblaethau craidd damcaniaethau tebygolrwydd a phrosesau stocastig, a meysydd rhyngddisgyblaethol ystadegau cymhwysol a biofathemateg. Mae'r adran yn gweithio'n agos gyda sefydliadau proffesiynol, hynny yw, Cymdeithas Fathemategol Llundain a'r Sefydliad a Chyfadran Actiwarïaid.

Cefais fentora a goruchwyliaeth academaidd ardderchog gan fy ngoruchwylwyr yn ystod fy ngradd MRes mewn Prosesau Stocastig a fy PhD mewn Mathemateg, ac roedd aelodau staff bob amser ar gael ar gyfer ymgynghoriadau pan oedd angen.

Mae'r Adran Fathemateg hefyd yn cefnogi rhaglenni hyfforddiant, adnoddau ar sgiliau ymchwil a datblygiad proffesiynol gan gynnwys ysgrifennu gwyddonol, rheoli prosiectau a sgiliau cyfathrebu. Drwy gydol fy amser yn Abertawe, gwnes i fwynhau beicio neu gerdded yn ling-di-long i'r Mwmbwls ar hyd y traeth yn benodol, yn ogystal â pha mor gyflym roedd hi i gyrraedd y campws, y traeth a'r dref.

Mae bellach gen i swydd ystadegydd yn yr adran Ymchwil a Datblygu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rwy'n rhoi cyngor ac arweinyddiaeth o ran dylunio a dadansoddi rhaglenni ymchwil a gwerthuso cymhleth i gefnogi iechyd y boblogaeth. Bydd effaith ac effeithiolrwydd polisïau iechyd cyhoeddus ac ymyriadau yn gwella drwy ddefnyddio cofnodion iechyd electronig a gesglir yn rheolaidd a chymhwyso dulliau modelu mathemategol ac ystadegol i ddata mawr ym maes iechyd, gan arbed bywydau yn y pen draw.



> “Mae'r Adran Fathemateg ym Mhrifysgol Abertawe ar flaen y gad o ran arloesi yn y maes ac mae ganddi ddiwylliant ymchwil cryf.”

# MEDDYGAETH, GOFAL IECHYD A NYRSIO

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Addysg Glinigol PhD ALl RhA
- Fferylliaeth PhD ALl RhA
- Meddygaeth Gardiofasgwlaidd a Metabolig PhD ALl RhA
- Nyrsio PhD/MPhil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Addysg Feddygol MSc/PGDip/PGCert ALl RhA ION
- Astudiaethau Cydymaith Meddygol MPAS ALl
- Meddygaeth i Raddedigion MBBCh ALl
- Nyrsio Gofal Critigol ar gyfer Oedolion PGCert RhA
- Nyrsio – Iechyd Meddwl MSc ALl
- Nyrsio – Oedolion MSc ALl
- Nyrsio – Plentyn MSc ALl
- Ymarfer Diabetes MSc/PGDip/PGCert ALl RhA

Drwy ein gwaith gyda'r GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r sector preifat, rydym yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Mae ein cyrsiau, ein modiwlau a'n prosiectau ymchwil i gyd yn cael eu datblygu mewn ymateb i'r galw gan y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ac i dy helpu i gymryd y camau nesaf yn dy yrfa.

Ymuna ag un o ddarparwyr mwyaf blaenllaw'r DU i feithrin y rhinweddau academaidd, ymarferol, a phersonol y mae eu hangen ar gyfer ymarfer proffesiynol cymwys a hyderus.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Addysgu wyneb yn wyneb ar y campws wedi'i ategu gan sesiynau sgiliau ymarferol, seminarau efelychu, gweithdai a lleoliadau clinigol sy'n dy alluogi wybodaeth ddamcaniaethol ar waith.
- Cysylltiadau cryf â byrddau iechyd Cymru, gan gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i leoliadau gwaith mewn gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Staff â chymwysterau deuol, sy'n dod â chyfuniad eithriadol o drylwyredd academaidd, mewnwelediad proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.
- Addysg ryngbroffesiynol, gan elwa o dechnoleg ddysgu ymdrochol arobryn gwerth £5.2 miliwn.

**Darganfydda fwy am gyfleuster Efelychu Prifysgol Abertawe – SUSiM**

**Sganio i ddarllen ein Canllaw Gyflym i Yrfaoedd GIG**

**5 UCHAF YN Y DU MEDDYGAETH**
(Times Good University Guide 2023)**

### PAM ABERTAWE?

- Caiff ein cyrsiau Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio eu haddysgu yn yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe.
- Byddi di'n elwa o amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, lle bydd llawer o gyfleoedd i greu cysylltiadau rhyngddisgyblaethol a rhyngbroffesiynol.
- Byddi di yng nghwmni arbenigwyr byd-eang ym meysydd meddygaeth, iechyd a gwyddor bywyd, y mae 85% o'u hymchwil wedi cael ei chydnabod am arwain y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gofal Iechyd Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd a Gofal Iechyd Sylfaenol
- Gwaith Cymdeithasol
- Iechyd y Cyhoedd a'r Boblogaeth
- Proffesiynau Perthynol i Iechyd
- Seicoleg a Niwrowyddoniaeth
- Y Gwyddorau Meddygol a Bywyd

### CYLLID

Mae llawer o'n rhaglenni Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio wedi'u hariannu'n llawn gan Gynllun Bwrsariaethau GIG Cymru.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau. Ymweld â:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Safleoedd sy'n benodol i israddedigion sy'n cynnwys asesu ansawdd ymchwil sefydliad.

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

**Meddyliau Mawr gweler y dudalen nesaf**

MEDDYLIAU MAWR

# Yr Athro Angharad Puw Davies

**MAE'R ATHRO ANGHARAD PUW DAVIES YN FICROBIOLEGYDD MEDDYGOL ACADEMAIDD AC YN IS-LYWYDD ER DYSG COLEG BRENHINOL Y PATHOLEGWYR. MAE EI GWAITH YN ABERTAWE YN CWMPASU ADDYSGU, YMCHWIL A GWAITH CLINIGOL.**

Graddiodd fel meddyg o Brifysgol Caergrawnt gan arbenigo mewn microbioleg feddygol yn ysbyty'r Royal Free yn Llundain, cyn gwneud doethuriaeth yng Ngholeg y Brifysgol Llundain. Mae'n addysgwr blaenllaw mewn microbioleg a phatholeg glinigol, yn goruchwylio cwricwla ac arholiadau ôl-radd proffesiynol Coleg Brenhinol y Patholegwyr, ac yn cynghori nifer o bwyllgorau a phrosiectau addysgol cenedlaethol y DU. Mae'n un o Brif Gymrodorion yr Academi Addysg Uwch ac yn aelod o gyngor Academi'r Addysgwyr Meddygol.

Mae'r Athro Davies yn arbenigwr mewn addysg ôl-radd a rhyngbroffesiynol ym maes iechyd, yn enwedig mewn ymwrthedd a stiwardiaeth gwrthficrobaidd, ar gyfer meddygon, fferyllwyr, gwyddonwyr biofeddygol ac eraill.

'Mae'r dechnoleg newydd i astudio dilyniannau genomeg dynol ac organebau wedi agor y drws i ddatblygiadau cyffrous tu hwnt, ac mae angen hyfforddiant a sgiliau newydd ar weithwyr iechyd er mwyn defnyddio'r dechnoleg yma i'w llawn botensial. Un arall o brif heriau gofal iechyd heddiw yw ymwrthedd gwrthfiotig. Mae cyfran fwyfwy o'r triniaethau sydd gennym ar gyfer heintiau yn dod yn llai effeithiol o ganlyniad i orddefnydd, ac mae angen gweithlu arbenigol i sicrhau defnydd cyfrifol ohonynt. Mae'n faes sy'n symud yn gyflym ac yn newid yn gyson. Mae fy mhractis proffesiynol fel meddyg yn hollbwysig i sicrhau bod yr addysg rwy'n ei darparu'n parhau'n gyfredol.'

Mae'r Athro Davies yn ymgynghorydd microbioleg feddygol er anrhydedd ar gyfer Uned Gyfeiriol Cryptosporidium Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Heintiau Cryptosporidium yw ei phrif ddiddordeb ymchwil ac mae hi wedi cyhoeddi'n eang yn y maes. Hi yw Arweinydd Arbenigedd Haint Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chafodd ei hymchwil ei ariannu gan Sefydliad Bill a Melinda Gates, ymysg eraill. Mae hi hefyd yn cefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel darlithydd cysylltiol ac yn aelod o'r Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi.

> "Y chwyldro genomeg, ac ymwrthedd gwrthfiotig yw dau o brif heriau meddygaeth fodern. Ar gyrsiau ôl-radd Abertawe cei gyfle i archwilio'r heriau yma mewn dyfnder, efo athrawon clinigol sy'n gweithio yn y maes."



# PEIRIANNEG - DOETHURIAETH PEIRIANNEG

## CAMPWS Y BAE

**231** UCHAF
YN Y BYD
**PEIRIANNEG**
(QS World University Rankings 2023)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Doethuriaeth Peirianneg EngD** ALl

Mae'r Ddoethuriaeth Peirianneg (EngD) yn fersiwn amgen i'r PhD traddodiadol sy'n cyfuno her ddeallusol PhD wrth ennill profiad diwydiannol gwerthfawr.

Fel Peiriannydd Ymchwil (Myfyriwr EngD), bydd dy ymchwil yn cael ei harwain gan ddiwydiant a bydd dy brosiect yn cynnwys gweithio gyda chwmni. Mae'r rhaglen yn cynnwys cydran a addysgir, sy'n cynnwys hyfforddiant technegol, rhyngbersonol a rheoli, gan dy arfogi ti â'r sgiliau angenrheidiol i ddatrys problemau diwydiannol, torri tir newydd ym meysydd academaidd a rhagori yn dy yrfa yn y pen draw.

Sefydlwyd y cynllun EngD gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (yr EPSCRC) i ddarparu hyfforddiant ar lefel doethuriaeth i raddedigion uchelgeisiol a mawr eu cymhelliant, gan roi syniadau newydd ar waith yn ymarferol a datblygu gyrfaoedd i gyrraedd swyddi uwch ym myd diwydiant.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

Fel Myfyriwr EngD yn Abertawe, byddi di'n elwa o:

- Ehangu dy wybodaeth a dy sgiliau i fod yn arweinydd diwydiant yn y dyfodol
- Gwella dy ragolygon a dy gyfleoedd gyrfa
- Ennill profiad gan ddefnyddio'r technegau diweddaraf drwy dy brosiect ymchwil dy hun
- Datblygu dy arbenigedd drwy ystod o fodiwlau a addysgir
- Ymuno â rhwydwaith o beirianwyr ymchwil eraill a chysylltiadau mewn diwydiant

Mae prosiectau blaenorol wedi cynnwys:

- Synwyryddion trawsdermol wedi'u caenu ar gyfer cymwysiadau diagnostig
- Swbstradau gwydr ar gyfer cymwysiadau ynni
- Diddoddiannol: Elwa o dechnolegau paent cynaliadwy ar gyfer cynnyrch dur
- Argraffu celloedd solar ar gyfer technolegau'r dyfodol
- Pecynnu bwyd gwell ar gyfer dyfodol cynaliadwy
- Datblygu micronodwyddion silicon wedi'u caenu ar gyfer diweddariadau clyfar i frechiadau
- Cymryd camau tuag at gynaliadwyedd a datgarboneiddio – effaith cynnwys uwch wedi'u hailgylchu a chastio uwch ar gynnyrch ffurfiadwyedd uchel
- Dulliau rheoli heintiau arloesol ar gyfer wynebau metalig gwrthficrobaidd
- Mapio electrodau batris a galluogwyr uwch drwy sbectrosgopeg in situ
- Modiwlau ffotofoltäig perofsgît rholyn i rolyn cyswllt cefn llawn y gellir eu haddasu gan ddefnyddio swbstrad boglynnog 3D masnachol.
- Datblygu dyfeisiau silicon carbid ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gylchedweithiau sy'n atal ymchwydd ac electronig pŵer.
- Cenhedlaeth newydd o nanoddeunyddiau gweithredol: synthesis diddoddiannol o nanoronynnau a ddewisir yn ôl maint, delweddu atomig a chymwysiadau ym meysydd catalyddu, synwyryddion meddygol, optegau cwantwm ac ynni
- Effeithiau'r gwynt ar berfformiad synwyryddion amperometrig mewn cymwysiadau monitro ansawdd aer clyfar.
- Datblygu dulliau adneuo anwedd moleciwlaidd ar gyfer systemau batris/dyfeisiau integredig iawn

### PAM ABERTAWE?

- Mae gan Abertawe enw da sefydledig am ei rhaglen ymchwil ddoethurol mewn Peirianneg, ac mae wedi cynnig y rhaglen ers ei chreu gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) ym 1992.
- Mae'r rhaglen 4 blynedd o hyd yn cyfuno prosiect ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant, wedi'i ddiffinio a'i noddi gan bartner diwydiannol, ynghyd â modiwlau sgiliau technegol, ymchwil a phroffesiynol gyda'r nod o wella cyflogadwyedd Peirianwyr Ymchwil.

# PEIRIANNEG – RHAGLENNI A ADDYSGIR

## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Arweinyddiaeth a Rheoli Peirianneg MSc ALl
- Mecaneg Gyfrifiadurol MSc ALl
- Peirianneg Adeiladu MSc ALl
- Peirianneg Awyrofod MSc ALl RhA
- Peirianneg (Awyrofod) MSc ALl ION
- Peirianneg Biofeddygol MSc ALl
- Peirianneg Bŵer ac Ynni Cynaliadwy MSc ALl RhA ION
- Peirianneg Deunyddiau MSc ALl RhA
- Peirianneg Electronig a Thrydanol MSc ALl RhA ION
- Peirianneg Fecanyddol MSc ALl RhA ION
- Peirianneg Gemegol MSc ALl ION
- Peirianneg Gyfrifiadurol MSc ALl RhA
- Peirianneg Sifil MSc ALl ION
- Realiti Rhithwir MSc ALl RhA
- Realiti Rhithwir gyda Diwydiant MSc ALl

Mae Peirianneg ym Mhrifysgol Abertawe yn enwog am ei gwaith arloesol ym maes technegau rhifol. Un o lwyddiannau mwyaf yr adran yw datblygu'r dull elfennau cyfyngedig a gydnabyddir fel un o'r 100 darganfyddiad a datblygiad gorau gan brifygsol yn y DU sydd wedi newid y byd.

Mae'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg yn ymrwymedig i gynnig ystod o raglenni a mentrau i gefnogi a grymuso grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys menywod mewn peirianneg a myfyrwyr o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, gan hyrwyddo diwylliant o degwch a chynhwysiant i feithrin cenhedlaeth o arweinwyr peirianneg amrywiol yn y dyfodol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Bydd ein rhaglenni MSc yn dy alluogi i archwilio egwyddorion ac elfennau peirianneg a gwyddonol traddodiadol a modern i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut mae pethau'n gweithio, i wella arnynt, ac i ddatrys problemau.
- Mae ein hamrywiaeth o gyrsiau achrededig yn cynnig yr wybodaeth a'r sgiliau i fyfyrwyr eu defnyddio mewn amrywiaeth eang o sectorau, gan gynnwys awyrenneg, ynni glân, lled-ddargludyddion, roboteg, telegyfathrebu, gweithgynhyrchu uwch, adeiladu, cerbydau, bwyd a diod, cynhyrchion cosmetig, fferylliaeth, gofal iechyd a llawer mwy.
- Mae ein themâu ymchwil trawsbynciol yn cyfuno timoedd amlddisgyblaethol, gan gyfuno sbectrwm eang o ddisgyblaethau peirianneg sy'n ein helpu ni i fynd i'r afael â heriau byd-eang a chael effaith go iawn.

**231** UCHAF YN Y BYD **PEIRIANNEG**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Dyfarnwyd sgôr o 100% a statws 'yn arwain y byd 'neu'n 'rhagorol yn rhyngwladol' i Beirianneg yn Abertawe ar gyfer Amgylchedd Ymchwil (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Rydym ni wedi ein lleoli ar Gampws y Bae gwerth £450 miliwn, gyda lleoliad glan-môr deniadol wrth ymyl bae trawiadol Bae Abertawe, sy'n cynnwys saith adeilad pwrpasol, gyda mwy na 30,000m² o le labordy a swyddfa a chyfarpar ymchwil ac addysgu gwerth mwy na £10 miliwn.
- Mae gennym ni gyfleusterau o'r radd flaenaf, gan gynnwys Labordy Efelychu Hediadau a Thwnnel Gwynt, Labordy Strwythurau Trwm/Concrit, Labordy Meteleg, Gweithdy Mecanyddol a Labordy Ffatri Beilot lle ffilmiwyd pennod o Dr Who.
- Mae ein Hadrannau wedi cynnal rhai o gysylltiadau cryfaf y Brifysgol, felly gall myfyrwyr elwa o berthnasoedd gweithio agos ag arbenigwyr megis Rolls-Royce, Babcock, Airbus, BAE Systems, HP, Tata Steel a mwy.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

ION* **Mae gan y rhaglen hon** ddyddiad dechrau ym mis Ionawr yn unig

ION **Gelli di ddechrau'r rhaglen hon** ym mis Ionawr hefyd, gweler tudalen 64

# PEIRIANNEG – RHAGLENNI YMCHWIL

## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Arloesedd Ynni MSc drwy Ymchwil/PhD ALl RhA
- Dihalwyno ac Ailddefnyddio Dŵr MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Dylunio Cynhyrchion ar sail Efelychu MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Micro-synwyrddion a Micro-ysgogwyr MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Modelu Cyfrifiadurol mewn Peirianneg MRes ALl
- Nanodechnoleg MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA
- Nanoelectronig MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Peirianneg Awyrofod MSc drwy Ymchwil/MPhil ALl RhA
- Peirianneg Awyrofod PhD ALl RhA DoB
- Peirianneg Biofeddygol PhD ALl RhA
- Peirianneg Bio-proses MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Peirianneg Deunyddiau MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA
- Peirianneg Electronig a Thrydanol MSc drwy Ymchwil/MPhil ALl RhA
- Peirianneg Electonig a Thrydanol PhD ALl RhA DoB
- Peirianneg Fecanyddol MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA
- Peirianneg Feddygol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Peirianneg Gemegol MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA
- Peirianneg Meinweoedd a Meddygaeth Atgynhyrchiol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Peirianneg Sifil MSc drwy Ymchwil/MPhil ALl RhA
- Peirianneg Sifil PhD ALl RhA DoB
- Systemau Telathrebu MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Technoleg Pilenni MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Technoleg Tanwydd MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Telathrebu PhD/MPhil ALl RhA

Ein nod ni yw helpu myfyrwyr i fod yn hyrwyddwyr diwydiant, neu eu harfogi ar gyfer gyrfa ym maes ymchwil. Gyda buddsoddiad parhaus a chanolfannau ymchwil o safon fyd-eang, mae astudio yn y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg yn golygu y gelli di fwynhau amgylchedd dysgu eithriadol ar gyfer dy astudiaethau ac ymchwil.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae ein themâu ymchwil trawsbynciol yn cyfuno timoedd amlddisgyblaethol, gan gyfuno sbectrwm eang o ddisgyblaethau peirianneg sy'n ein helpu ni i fynd i'r afael â heriau byd-eang a chael effaith go iawn.
- Mae gennym bum Sefydliad Ymchwil Rhyngddisgyblaethol sy'n dod ag arbenigedd ynghyd mewn meysydd gan gynnwys Gweithredu yn yr Hinsawdd; Technoleg ac Atebion Iechyd; Deunyddiau a Gweithgynhyrchu; Modelu, Data a Deallusrwydd Artiffisial ac Ymchwil Lled-ddargludyddion.
- Mae prosiectau ymchwil yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gydweithio â staff academaidd arbenigol mewn rhai meysydd ymchwil penodol, a gallai hefyd gynnwys cydweithio â diwydiant sy'n gallu cynyddu dy gyflogadwyedd.
- Mae ein hymchwil yn cyfrannu tuag at lwyddiant Nodau Datblygu Cynaliadwy penodol y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys: Iechyd a Llesiant Da; Dŵr Glân a Glanweithdra; Ynni Fforddiadwy a Glân; Diwydiant, Arloesi a Seilwaith; Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy; Treuliant a Chynhyrchu Cyfrifol; a Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd.

**231 UCHAF**
YN Y BYD
**PEIRIANNEG**
(QS World University Rankings 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Dyfarnwyd sgôr o 100% a statws 'yn arwain y byd 'neu'n 'rhagorol yn rhyngwladol' i Beirianneg yn Abertawe ar gyfer Amgylchedd Ymchwil (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Rydym ni wedi ein lleoli ar Gampws y Bae gwerth £450 miliwn, gyda lleoliad glan-môr deniadol wrth ymyl bae trawiadol Bae Abertawe. Mae Campws y Bae yn cynnwys cynnwys saith adeilad pwrpasol, gyda mwy na 30,000m² o le labordy a swyddfa a chyfarpar ymchwil ac addysgu gwerth mwy na £10 miliwn.
- Mae gennym ni gyfleusterau o'r radd flaenaf, gan gynnwys Labordy Efelychu Hediadau a Thwnnel Gwynt, Labordy Strwythurau Trwm/Concrit, Labordy Meteleg, Gweithdy Mecanyddol a Labordy Ffatri Beilot lle ffilmiwyd pennod o Dr Who.
- Mae ein Hadrannau wedi cynnal rhai o gysylltiadau cryfaf y Brifysgol, felly gall myfyrwyr elwa o berthnasoedd gweithio agos ag arbenigwyr megis Rolls-Royce, Babcock, Airbus, BAE Systems, HP, Tata Steel a mwy.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Meddyliau Mawr
gweler y dudalen nesaf

MEDDYLIAU MAWR

# Yr Athro Geraint Williams

**ATHRO MEWN PEIRIANNEG, PENNAETH CANOLFAN YMCHWIL DEUNYDDIAU (MRC)**

Mae Geraint Williams yn Athro yn y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg ac ar hyn o bryd yn Bennaeth ar y Ganolfan Ymchwil Deunyddiau (MRC). Yn wreiddiol o Fynachlogddu, Sir Benfro, bu'n astudio am radd a doethuriaeth Cemeg ym Mhrifysgol Abertawe cyn ymuno â'r staff ymchwil ar ddiwedd yr wythdegau. Fe'i benodwyd yn ddarlithydd Peirianneg a Gwyddor Deunyddiau yn 2007 ac yna i Gadair Bersonol yn 2014.

Gwyddoniaeth Cyrydu (corrosion science) yw prif ddiddordeb ymchwil Geraint ac mae'n arloeswr ym maes deunydd technegau electrocemegol sy'n sganio i ddatblygu technoleg newydd er mwyn atal cyrydu mewn metelau megis dur, alwminiwm a magnesiwm. Mae'n arwain grŵp sy'n cynnwys dwsin o fyfyriwr ôl-radd ac aelodau staff ôl-ddoethurol yn gweithio ar brosiectau sydd wedi'u hariannu gan gwmnïau Tata cyf, BASF, Chemetall, Beckers cyf, Lufer MEL Technologies a'r NNL. Mae hefyd ganddo ddiddordeb mewn gwyddoniaeth fforensig, yn enwedig technoleg sy'n medru datgelu olion bysedd cudd ar wynebau metel.

Mae Geraint wedi ysgrifennu dros 160 o erthyglau mewn cyfnodolion rhyngwladol ac mae fe wedi ennill gwobr menter (venture prize) y cwmni Armourers and Brasiers ar gyfer technoleg newydd atal cyrydu.

> “Amcangyfrifir bod colledion blynyddol byd-eang o achos problemau cyrydu oddeutu dau driliwn o bunnoedd. Felly mae gwella ein dealltwriaeth o'r broses er mwyn datblygu technoleg newydd mwy effeithiol ar gyfer atal cyrydu yn her holl bwysig ym maes peirianneg deunyddiau.”



# PLANT A PHOBL IFANC

## CAMPWS SINGLETON

YSTYRIR BOD **81%** YMCHWIL MEWN ADDYSG, CYMDEITHASEG & PHOLISI CYMDEITHASOL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Plant a Phobl Ifanc PhD/MPhil** ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Astudiaethau Plentyndod MA/PGDip/PGCert** ALl RhA
- **Chwarae Datblygiadol a Therapiwtig MA/PGDip/PGCert** ALl RhA

Mae dilyn gradd meistr mewn Astudiaethau Plentyndod yn cynnig cyfle boddhaus i gefnogi plant a'u teuluoedd ar draws lleoliadau amrywiol.

Mae'r rhaglen yn darparu dealltwriaeth fanwl o ddatblygiad plant yn y gymdeithas gyfoes a chynllunio a darparu polisïau a gwasanaethau i deuluoedd. Mae'r cwrs MA mewn Chwarae Datblygiadol a Therapiwtig yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i ti ar gyfer ymarfer chwarae heb gyfarwyddiadau mewn addysg, iechyd a gwyddorau cymdeithasol, er enghraifft ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan ein staff academaidd gysylltiadau cryf â rhwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn elwa ar y datblygiadau ymchwil, polisi ac ymarfer diweddaraf, gan arwain yn y pen draw at welliannau i blant, rhieni, ymarferwyr, rheolwyr, a llunwyr polisi.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, gyda llawer o gyfleoedd i wneud cysylltiadau ar draws disgyblaethau.
- Amgylchedd cydweithredol a chefnogol i ddatblygu dy wybodaeth a dy sgiliau yn y sector.
- Cei fynediad i dîm addysgu cyfeillgar, gwybodus a chefnogol sy'n arwain myfyrwyr drwy'r modiwlau.
- Cymorth i uwchsgilio a galluogi myfyrwyr i gyflawni eu llwyddiant academaidd.
- Cei dy herio i ymestyn dy wybodaeth a dy ddealltwriaeth o blant.

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn cynnig rhaglenni ôl-raddedig wedi'u llywio gan y diweddaraf mewn ymchwil ac arloesi a addysgir gan staff sy'n ymgymryd ag ymchwil.
- Elwa o'n partneriaethau rhyngwladol a'n hymagwedd gydweithredol unigryw at ymchwilio a dysgu.
- Rydym yn cynnig rhaglen arloesol sydd wedi'i gwreiddio'n dda gyda darlithwyr academaidd profiadol ac ymroddedig.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Addysg, MA
- Doethur mewn Addysg, EdD

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Proffil Myfyriwr
gweler y dudalen nesaf



# Ashelle Paras

MA Astudiaethau Plentyndod

Mae'r MA mewn Astudiaethau Plentyndod yn ffordd wych i roi'r sylfaen ddamcaniaethol a'r ddealltwriaeth i ti o ddatblygiad plentyn. Mae'r ymagwedd amlddisgyblaethol yn helpu i ehangu dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn ac archwilio'r materion cyfredol sy'n ymwneud â datblygiad cynnar plentyn (hynny yw plant sydd wedi'u geni yn yr oes ddigidol) o safbwyntiau rhyngwladol.

Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn dy annog i wneud gwaith gwirfoddol gyda phlant ac mae hyn yn gyfle i weld, i ddeall ac i gymhwyso'r hyn rwyt yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n wych pan rwyt yn darganfod sut mae theori a'r ymarfer yn gweithio.

"Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn dy annog i wneud gwaith gwirfoddol gyda phlant ac mae hyn yn gyfle i weld, i ddeall ac i gymhwyso'r hyn rwyt yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth."

# Y PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD

## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Gerentoleg a Heneiddio PhD/MPhil ALl RhA
- Iechyd a Lles MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Iechyd Meddwl PhD/MPhil ALl RhA
- Rheoli Gofal Iechyd PhD/MPhil ALl RhA
- Seicoleg Iechyd PhD/MPhil ALl
- Y Gwyddorau Iechyd PhD/MPhil ALl RhA
- Ymchwil mewn Addysg y Proffesiynau Iechyd DProf/MRes ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Addysg ar gyfer y Proffesiynau Iechyd MA/PGDip/PGCert RhA MAW
- Addysg Feddygol MSc/PGDip/PGCert ALl RhA ION
- Astudiaethau Gofal Iechyd PGCert RhA
- Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy PGCert ALl
- Rhagnodi Anfeddygol i Fferyllwyr PGCert RhA MAW
- Rhagnodi Anfeddygol i Nyrsys a Bydwragedd PGCert RhA MAW
- Rhagnodi Anfeddygol i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ALl MAW
- Rheoli Gofal Iechyd MSc ALl RhA ION
- Trallwyso Cydrannau Gwaed PGCert RhA
- Ymarfer Bydwreigiaeth Proffesiynol Uwch MSc/PGDip/PGCert RhA
- Ymarfer Clinigol Uwch (Gofal Sylfaenol) MSc/PGDip RhA
- Ymarfer Diabetes MSc/PGDip/PGCert ALl RhA
- Ymarfer Gofal Iechyd MSc/PGDip RhA
- Ymarfer Gofal Iechyd Cymunedol a Sylfaenol MSc/PGDip/PGCert RhA
- Ymarfer Proffesiynol Uwch MSc/PGDip/PGCert RhA
- Ymarfer Uwch mewn Gofal Iechyd MSc/PGDip ALl RhA

Yma ym Mhrifysgol Abertawe, rydym wedi ymrwymo i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r sector preifat i wella canlyniadau i gleifion a mynd i'r afael â'r heriau y mae ein cymdeithas yn eu hwynebu.

Datblygwyd ein cyrsiau, modiwlau a'n prosiectau ymchwil i gyd mewn ymateb uniongyrchol i anghenion gweithwyr professiynol iechyd a gofal cymdeithasol, p'un a wyt am symud dy yrfa ymlaen neu fynd â dy astudiaethau academaidd i'r lefel nesaf. Gyda'n fframwaith modiwlaidd hyblyg, gelli ddewis astudio llawn amser, rhan amser, ar-lein, ar y campws, neu'n gyfunol. Gad inni dy helpu i gyflawni dy nodau a gwneud gwahaniaeth yn y byd.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Staff â chymwysterau deuol, sy'n dod â chyfuniad eithriadol o drylwyredd academaidd, mewnwelediad proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.
- Teilwra dy astudiaethau o amgylch ymrwymiadau presennol gyda'n fframwaith modiwlaidd.
- Cyfleusterau rhagorol gan gynnwys ystafelloedd glinigol realistig ac efelychu sy'n dy alluogi wybodaeth ddamcaniaethol ar waith.
- Addysg ryngbroffesiynol, gan elwa o dechnoleg ddysgu ymdrochol arobryn gwerth £5.2 miliwn.

**7fed** YN Y DU **ASTUDIAETHAU IECHYD** (Complete University Guide 2024)**

### PAM ABERTAWE?

- Caiff ein cyrsiau proffesiynau perthynol i iechyd eu haddysgu yn yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe.
- Byddi di'n elwa o amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, lle bydd llawer o gyfleoedd i greu cysylltiadau ar draws disgyblaethau.
- Byddi di yng nghwmni arbenigwyr byd-eang ym meysydd meddygaeth, iechyd a gwyddor bywyd, y mae 85% o'u hymchwil wedi cael ei chydnabod am arwain y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 (REF 2021).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gofal Iechyd Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd a Gofal Iechyd Sylfaenol
- Gwaith Cymdeithasol
- Iechyd y Cyhoedd a'r Boblogaeth
- Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio
- Seicoleg a Niwrowyddoniaeth
- Y Gwyddorau Meddygol a Bywyd

### CYLLID


Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Safleoedd sy'n benodol i israddedigion sy'n cynnwys asesu ansawdd ymchwil sefydliad.

ION **Gelli di ddechrau'r rhaglen hon** ym mis Ionawr hefyd, gweler tudalen 64

MAW **Gelli di ddechrau'r rhaglen hon** ym mis Mawrth hefyd

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50



# Drew Hodgson

MSc Rheoli Busnes (Marchnata)

Yn ystod fy ngradd israddedig, cefais gyfnod o brofiad gwaith lle wnes i weithio gyda thîm marchnata'r Scarlets. Roedd y profiad hwn yn un bythgofiadwy ac wedi newid fy meddwl i ba faes yr hoffwn weithio ynddo yn y dyfodol. Roedd y profiad wedi fy annog i astudio MSc Rheoli yn y Brifysgol.

Astudiais BA Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Doedd dim amheuaeth fy mod i eisiau astudio gradd ôl-raddedig yma oherwydd cefais brofiad anhygoel wrth astudio ar lefel israddedig ac roeddwn yn awyddus i barhau ym Mhrifysgol Abertawe am flwyddyn arall! Mae Prifysgol Abertawe yn wahanol i Brifysgolion eraill gan fod yna ymdeimlad o berthyn i gymuned, mae yna olygfeydd rhagorol a thraethau arbennig sydd yn hynod o agos i gampysau'r Brifysgol. Mae astudio MSc Rheoli yn brofiad arbennig. Rydw i wedi mwynhau dysgu am y maes rheoli (marchnata) yn benodol. Fel myfyriwr iaith gyntaf Cymraeg doedd dim amheuaeth fy mod i am barhau i astudio fy ngradd ôl-raddedig trwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd yr holl gyfleoedd a gefais wedi rhoi mwy o hyder i mi wrth gyflwyno fy ngwaith.

Byddaf hefyd yn derbyn Bwrsariaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer astudio gwerth 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ôl cwblhau fy nghwrs MSc Rheoli Busnes, hoffwn weithio yn y maes marchnata, yn enwedig gyda thîm chwaraeon!

"Yn ystod fy ngradd israddedig, cefais gyfnod o brofiad gwaith lle wnes i weithio gyda thîm marchnata'r Scarlets. Roedd y profiad hwn yn un bythgofiadwy ac wedi newid fy meddwl i ba faes yr hoffwn weithio ynddo yn y dyfodol."

# RHEOLI
## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Doethur mewn Gweinyddu Busnes DBA RhA
- Rheoli Busnes MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Rheoli Busnes PhD/MPhil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Busnes Rhyngwladol MSc/PGDip/PGCert ALl RhA ION
- Rheoli MSc/PGDip ALl RhA ION
- Rheoli (Busnes Cynaliadwy) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Busnes Digidol) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Chwaraeon) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Cyfryngau) MSc ALl RhA *
- Rheoli (Cyllid) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Dadansoddeg Busnes) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Deallusrwydd Artiffisial) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Marchnata) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Menter ac Arloesi) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Rheoli Adnoddau Dynol) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Rheoli Gweithrediadau a Chyflenwi) MSc ALl RhA ION
- Rheoli (Rheoli Rhyngwladol) MSc ALl RhA ION

Rydym wedi datblygu'r rhaglenni MSc ar gyfer myfyrwyr o unrhyw gefndir gradd israddedig, gydag addysgu ymarferol, wedi'i arwain gan ymchwil gan dîm o arbenigwyr yn y diwydiant.

Ymuna â'n cymuned ffyniannus o fyfyrwyr ôl-raddedig byd-eang ac elwa o'n Gampws y Bae arloesol gyda chyfleusterau TG o'r radd flaenaf a meddalwedd arbenigol i gefnogi dy astudiaethau. Mae ein rhaglenni a addysgir wedi'u cynllunio i wella dy gyflogadwyedd a dy ragolygon gyrfa.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Cymorth rhagorol i fyfyrwyr, ochr yn ochr â dy astudiaethau, gan gynnwys mynediad llawn at dîm o arbenigwyr a chynghorwyr gyrfa.
- Pwyslais ar ymchwil ynghyd ag addysgu ymarferol gan dîm o arbenigwyr rheoli.
- Byddi di'n elwa o gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o sefydliadau proffil uchel, gan gynyddu cyfleoedd i rwydweithio.

MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

CIM The Chartered Institute of Marketing

CMI Chartered Management Institute

**150 UCHAF**
**ASTUDIAETHAU BUSNES & RHEOLI**
(Tablau Prifysgolion y Byd QS fesul Pwnc 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Addysgir ein graddau ôl-raddedig gan ein hacademyddion o'r radd flaenaf sydd â gwybodaeth broffesiynol ac academaidd ym meysydd busnes a rheoli allweddol.
- Dewis o achrediad gyda chorff proffesiynol, sy'n gallu rhoi hwb i dy yrfa.
- Ar gael i ymgeiswyr heb brofiad blaenorol o bynciau sy'n gysylltiedig â busnes neu reoli.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Marchnata Strategol, MSc
- Rheoli Adnoddau Dynol, MSc
- Rheoli Ariannol Rhyngwladol, MSc
- Rheoli Twristiaeth Ryngwladol, MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

*Addysgir y cwrs ar **Gampws Singleton a Champws y Bae.**

ION **Gelli di ddechrau'r rhaglen hon** ym mis Ionawr hefyd, gweler tudalen 64

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler y dudalen 50

**Proffil Myfyriwr gweler y dudalen nesaf**



# Dafydd Manley

MSc Rheoli

Mae astudio fy nghwrs ôl-raddedig trwy gyfrwng y Gymraeg yn brofiad gwych, ac yn fuddiol dros ben wrth i ddatblygu fy sgiliau Cymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig wrth fynd ymlaen i chwilio am swydd. Yn ogystal, mae fy nhiwtor ar gyfer y traethawd hir yn rhugl yn y Gymraeg sy'n hynod o werthfawr wrth i mi allu trafod syniadau yn fy mamiaith ar gyfer fy ymchwil.

Mae Bwrsari Llywodraeth Cymru ar gyfer astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-raddedig yn hynod o ddefnyddiol yn ystod amseroedd caled ofnadwy. Yn ogystal â rhoi'r cyfle i mi ddatblygu sgiliau gyrfaol hollbwysig, a defnyddio'r iaith Gymraeg, mae'r cymorth ariannol wedi galluogi i mi astudio cwrs ôl-raddedig heb orfod poeni am chwilio am swydd gall effeithio ar fy amser astudio wrth gwblhau fy nhraethawd hir.

“Mae astudio fy nghwrs ôl-raddedig trwy gyfrwng y Gymraeg yn brofiad gwych, ac yn fuddiol dros ben wrth i ddatblygu fy sgiliau Cymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig wrth fynd ymlaen i chwilio am swydd.”

# RHEOLI ADNODDAU DYNOL

## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Rheoli Adnoddau Dynol MSc** ALl RhA

Dechreua ar daith i ddatblygu dy sgiliau rheoli gyda'n rhaglen MSc Rheoli Adnoddau Dynol, sy'n cynnig gwybodaeth arbenigol a dealltwriaeth ymarferol ar arferion gwaith yr 21ain ganrif.

Ein nod yw dy helpu i ddod yn rheolwr adnoddau dynol ymaddasol, strategol ac arloesol. Rydym yn darparu'r modd y gelli wneud penderfyniadau gwybodus sy'n ystyried goblygiadau tymor byr a hirdymor. Gyda ffocws ar ddatblygiad a lles gweithwyr, byddi di'n dysgu sut i reoli unigolion a gweithluoedd yn effeithiol, gan sicrhau cynaliadwyedd dy sefydliad.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Pwyslais ar ymchwil ynghyd ag addysgu ymarferol gan dîm o arbenigwyr yn y sector.
- Cyfleusterau sy'n arwain y sector, ynghyd â mannau addysgu ac ystafelloedd astudio dynodedig, a chyfleusterau TG helaeth, i gyd ar gael ar Gampws y Bae arloesol.
- Cymorth eithriadol i fyfyrwyr, ochr yn ochr â dy astudiaethau, gan gynnwys mynediad llawn at y tîm gyrfaoedd.
- Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i dy alluogi i ddod yn weithiwr adnoddau dynol proffesiynol eithriadol; sy'n gweithredu gydag uniondeb ac sy'n gwneud cyfraniadau cadarnhaol ac ystyrlon o fewn sefydliadau.
- Opsiwn i fod yn Aelod Cysylltiol o’r CIPD a defnyddio’r teitl Assoc CIPD ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus, gall roi hwb i dy yrfa.

**150** UCHAF
**ASTUDIAETHAU BUSNES & RHEOLI**
(Tablau Prifysgolion y Byd QS fesul Pwnc 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Caiff pob modiwl ei addysgu gan ein hacademyddion o'r radd flaenaf sydd â gwybodaeth broffesiynol ac academaidd.
- Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â gweithwyr proffesiynol Adnoddau Dynol ac mae wedi'i deilwra ar gyfer graddedigion ac ymarferwyr rheoli sydd eisoes yn gyfarwydd â chysyniadau ac arferion Adnoddau Dynol.
- Cymorth penodol i fyfyrwyr, gan gynnwys mynediad at dîm o arbenigwyr a chynghorwyr gyrfaoedd.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gweinyddu Busnes, MBA
- Rheoli, MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

MAE ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

CIPD Approved centre

# RHEOLI IECHYD A GOFAL UWCH
## (ARLOESI A THRAWSNEWID)
### CAMPWS Y BAE

## RHAGLENNI YMCHWIL

- Rheoli Busnes MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA

## RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (Arloesi a Thrawsnewid) MSc/PGDip ALl RhA

Mae Prifysgol Abertawe'n ysgogi'r broses o drawsnewid gofal iechyd byd-eang drwy ei Hacademïau Dysgu Dwys, sy'n helpu i greu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr byd-eang arloesol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein cyrsiau'n addas i ymarferwyr proffesiynol ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a diwydiannau'r gwyddorau bywyd, ac maent yn grymuso gweithluoedd ledled y byd drwy feithrin yr arbenigedd, y sgiliau a'r hyder i helpu i ailwampio systemau iechyd a gofal, gwella canlyniadau a phrofiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i alluogi rheolwyr canol ac uwch mewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU ac yn fyd-eang i arwain newid trawsnewidiol ac ysgogi arloesi mewn systemau, prosesau a thechnolegau gofal iechyd. Mae gwella dy sgiliau arweinyddiaeth i ymateb i'r gofynion mewn amgylchedd iechyd a gofal modern yn allweddol i sicrhau dy fod yn gallu arwain sefydliadau drwy heriau arloesol a thrawsnewidiol yn llwyddiannus.
- Byddi di'n elwa o gysylltiadau a rhwydweithiau iechyd a gofal rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd ehangder yr arbenigedd ymchwil, addysgu a phroffesiynol yn cyfoethogi dy ddatblygiad yn fawr ym meysydd arloesi a thrawsnewid iechyd a gofal.

Mae modiwlau nodweddiadol yn cynnwys:

- Archwilio Pwrpas Sefydliadol: Hanfodion
- Archwilio Pwrpas Sefydliadol: Ymatebion a Chymwysiadau
- Iechyd a Gofal Darbodus – Polisi ac Arfer
- Llywio Arloesedd a Newid: Hanfodion
- Llywio Arloesedd a Newid: Cymhwysol
- Ymchwil mewn Cyd-destun Iechyd a Gofal

**Darllen y llyfryn MSc Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (Arloesi a Thrawsnewid):**




MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

Faculty of Medical Leadership and Management
FMLM Accredited

Accredited cpd Course
THE CPD STANDARDS OFFICE CPD PROVIDER: 22357 2021-2023

## YMAGWEDD DYSGU CYFUNOL

### PAM ABERTAWE?

Mae'r Academi'n cynnig fframwaith unigryw o gyfleoedd dysgu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Chomisiwn Bevan gan gynnwys:

- Cyrsiau rhagarweiniol (ar-lein/ wyneb yn wyneb)
- Profiadau Dysgu Dwys
- Rhaglenni Academaidd

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r academïau eraill i dy ddarparu ti gydag amrywiaeth gynhwysfawr ac integredig o gyfleoedd dysgu y bwriedir iddynt ddatblygu mewn ymateb i anghenion newidiol y sectorau a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (yn Seiliedig ar Werth), MSc

### CYLLID

Mae'r Brifysgol a Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# RHEOLI IECHYD A GOFAL UWCH
## (YN SEILIEDIG AR WERTH)
### CAMPWS Y BAE

**RHAGLENNI YMCHWIL**

- **Doethur mewn Gweinyddu Busnes DBA** (RhA)

**RHAGLENNI A ADDYSGIR**

- **Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (yn Seiliedig ar Werth) MSc/PGDip** (AU) (RhA)

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn angerddol am ysgogi trawsnewid byd-eang mewn gofal iechyd. Drwy ein Hacademïau Dysgu Dwys, ein cenhadaeth yw i rymuso gweithwyr proffesiynol fel ti i fod y genhedlaeth nesaf o arweinwyr arloesol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

P'un a wyt yn gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, neu'r diwydiannau gwyddorau bywyd, rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r offer sydd eu hangen arnat i ailwampio systemau gofal iechyd, gwella canlyniadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau, a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau o gwmpas y byd. Ymuna â ni ar y daith gyffrous hon tuag at ddyfodol gwell i ofal iechyd.

**YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL**

- Nod y radd meistr hon yw galluogi unigolion i ymgyfarwyddo'n llwyr â pharadeim trawsnewidiol o Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth; sut i'w roi ar waith yn ymarferol ar lefel poblogaeth ac unigolion, gan gyflawni canlyniadau o bwys, defnyddio technolegau digidol, cymhwyso modelau costio newydd, defnyddio ymagweddau caffael arloesol a mabwysiadu ymagwedd llwybr gofal gyfannol.
- Byddi di'n datblygu'r sgiliau angenrheidiol i roi strategaeth arloesol sy'n Seiliedig ar Werth ar waith mewn sefydliad a bydd gen ti gyfle i roi dy ddysgu ar waith wrth i ti astudio.

Mae modiwlau nodweddiadol yn cynnwys:

- Archwilio Pwrpas Sefydliadol.
- Iechyd a Gofal Darbodus – Polisi ac Ymarfer.
- Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth: Datblygu Strategaeth.
- Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth: Rhoi Strategaeth ar Waith.
- Ymchwil mewn Cyd-destun Iechyd a Gofal.

MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:

Faculty of Medical Leadership and Management — FMLM Accredited

Accredited cpd Course — The CPD Standards Office CPD Provider: 22337 2021-2023

YN GYSYLLTIEDIG Â:

European Alliance for Value in Health

**YMAGWEDD DYSGU** CYFUNOL

**PAM ABERTAWE?**

Drwy ei Hacademi Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth a gydnabyddir yn rhyngwladol, Prifysgol Abertawe yw'r unig sefydliad sy'n cynnig gradd meistr â llwybr penodol mewn damcaniaeth Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth a'r cyfle i'w rhoi ar waith yn ymarferol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, a gwyddorau bywyd.

Mae'r modiwlau'n cael eu haddysgu gan ymarferwyr ac academyddion o'r radd flaenaf sydd â phrofiad helaeth o weithio yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gwyddorau bywyd, yn ogystal â'r byd academaidd.

**HEFYD, GELLI DI YSTYRIED**

- Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (Arloesi a Thrawsnewid), MSc

**CYLLID**

Mae'r Brifysgol a Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Darllen y llyfryn Academi Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth:**



# RHYFEL A CHYMDEITHAS
## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Rhyfel a Chymdeithas MA drwy Ymchwil (ALl)

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Rhyfel a Chymdeithas MA (ALl) (RhA)

Mae rhyfel wedi bod yn gatalydd newid pwerus drwy gydol hanes. Mae'r cwrs rhyngddisgyblaethol unigryw hwn yn archwilio rhai o'r digwyddiadau gweddnewidiol sydd wedi arwain at ryfel ac mae'n ymchwilio i'r effaith ar hynt hanes dynol. Mae'r cwrs hynod ddiddorol hwn yn archwilio gwrthdaro, cymdeithas, rhyfel, diwylliant a gwleidyddiaeth. Mae'n elwa o lawer o feysydd cryfder academaidd, gan gynnwys hanes, astudiaethau Americanaidd, y clasuron, hanes yr henfyd ac Eifftoleg, gwleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol, llenyddiaeth a'r cyfryngau a chyfathrebu.

Byddi di'n ymchwilio i ddigwyddiadau sydd wedi llywio ein byd, gan ddatblygu dealltwriaeth gadarn o ganlyniadau rhyfel. Gyda ffocws ar feddwl a dadansoddi'n feirniadol, byddi di'n datblygu sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn gymorth i ti ar dy ddewis lwybr gyrfa.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae'r cwrs cydweithredol a rhyngddisgyblaethol hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymchwilio i ystyr rhyfel drwy amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys rhai gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol, technolegol, hanesyddol, milwrol a'r cyfryngau.
- Ar y rhaglenni a addysgir, bydd myfyrwyr yn astudio dau fodiwl thematig gorfodol (rhyfel, technoleg a diwylliant; a rhyfel, hunaniaeth a chymdeithas). Ymhlith y themâu a astudir mewn perthynas â rhyfel mae: rhyw; celf a diwylliant; y gyfraith a moeseg; rhyfela hybrid a seiber; ffoaduriaid; milwyr cyflog a chwmnïau milwrol preifat; rhyfel llwyr a rhyfel modern. Bydd myfyrwyr hefyd yn cymryd modiwl portffolio ymchwil gorfodol a thri modiwl dewisol yn ogystal â phrosiect traethawd hir.
- Mae modiwlau dewisol eraill yn amrywio o ymagweddau at gysylltiadau rhyngwladol, i wleidyddiaeth ym Mhrydain heddiw, ac o drais, gwrthdaro a datblygu i seiberlywodraethu.
- Mae diddordebau ymchwil gweithredol yn amrywio o Ryfel Cartref America, Rhyfel Cartref Sbaen, effaith rhyfel ar gymdeithas, gwrthdaro a strwythurau cyfreithiol, gwrthdaro arfog ac ailadeiladu ar ôl y rhyfel yn Affrica, hanes diplomyddol Ewrop ac astudiaethau strategol.

YSTYRIR BOD **100%** EFFAITH YMCHWIL HANES YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### PAM ABERTAWE?

- Mae Rhyfel a Chymdeithas yn cael ei ystyried yn eang yn gryfder arbenigol ym Mhrifysgol Abertawe.
- Mae cysylltiad agos rhwng y rhaglen a'r grŵp ymchwil Astudiaethau Rhyngwladol, Gwrthdaro a Diogelwch (ISCAS) a'r grŵp ymchwil Ailadeiladu a Chof ar ôl Gwrthdaro (CRAM) sy'n creu ymchwil o'r radd flaenaf.
- Mae graddedigion yn mynd ymlaen i gael gyrfaoedd mewn llywodraeth a gwleidyddiaeth, sefydliadau dyngarol, sefydliadau milwrol, busnes ac yn y cyfryngau.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Astudiaethau Americanaidd, MA drwy Ymchwil
- Cysylltiadau Rhyngwladol, MA
- Diogelwch a Datblygu Rhyngwladol, MA
- Gwleidyddiaeth, MA
- Hanes, MA
- Hanes, PhD/MPhil

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# SEICOLEG A NIWROWYDDONIAETH
## CAMPWS SINGLETON

**100%**
**AMGYLCHEDD YMCHWIL**
YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Niwrowyddoniaeth Feddygol PhD ALl RhA
- Seicoleg MSc drwy Ymchwil/PhD/MPhil ALl RhA
- Seicoleg Iechyd PhD/MPhil ALl RhA
- Ymchwil Addysg y Proffesiynau Iechyd DProf/MRes ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Dulliau Ymchwil mewn Seicoleg MSc ALl RhA
- Niwrowyddoniaeth Wybyddol MSc ALl RhA
- Seicoleg Fforensig MSc ALl
- Seicoleg Glinigol ac Iechyd Meddwl MSc ALl RhA

Wedi ein lleoli mewn amgylchedd ymchwil ffyniannus sy'n ysgogi staff academaidd, swyddogion ymchwil a myfyrwyr fel ei gilydd, mae Ysgol Seicoleg Prifysgol Abertawe wedi ennill enw rhagorol yn y DU ac yn rhyngwladol fel un o Ysgolion Seicoleg Gorau yn y DU o ran effaith ein hymchwil yn y byd go iawn. Ystyrir bod 100% o'n heffaith ymchwil yn rhagorol yn rhyngwladol (REF2021).

Yn yr Ysgol Seicoleg, rydym ni'n blaenoriaethu profiad myfyrwyr a datblygiad gyrfa drwy fuddsoddi'n barhaus mewn isadeiledd ymchwil, cyfleusterau a staff. Rydym ni hefyd yn cynnal perthnasoedd cryf ag ysbytai, darparwyr addysg a phrifysgolion ym mhedwar ban byd. Ymuna â ni i fwynhau amgylchedd dysgu neilltuol a fydd yn dy helpu di i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i lwyddo yn dy yrfa.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Elwa o fodiwlau ac addysgu a gynlluniwyd ac a gaiff eu llywio gan ein hymchwil.
- Byddi di'n cael dy addysgu gan academyddion blaenllaw sy'n adnabyddus am ddefnyddio'r gwyddorau i gyflawni newid er budd cleifion a'r gymdeithas.
- Addysg ryngbroffesiynol, gan elwa o dechnoleg ddysgu ymdrochol arobryn gwerth £5.2 miliwn.
- Mynediad i gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf gan gynnwys:
  – Ystafell trydanenceffalograffi dwysedd uchel (EEG).
  – Ystafelloedd arsylwi cymdeithasol.
  – Olrhain y llygaid.
  – Seicoffisiolegol, ysgogiad cerrynt uniongyrchol trawsgreuanol (tDCS).
  – Labordy cwsg, cyflyru ac hyd oes gyda'r holl gyfarpar angenrheidiol.
  – Mwy nag 20 ystafell ymchwil aml-bwrpas.

### PAM ABERTAWE?

- Caiff ein cyrsiau seicoleg a niwrowyddoniaeth eu haddysgu yn yr Ysgol Seicoleg ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe.
- Byddi di'n elwa o amgylchedd addysgu ac ymchwil amrywiol, lle bydd llawer o gyfleoedd i greu cysylltiadau rhyngddisgyblaethol a rhyngbroffesiynol.
- Byddi di yng nghwmni arbenigwyr byd-eang ym meysydd meddygaeth, iechyd a gwyddor bywyd, y mae 85% o'u hymchwil wedi cael ei chydnabod am arwain y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2021).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gofal Iechyd Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd a Gofal Iechyd Sylfaenol
- Gwaith Cymdeithasol
- Iechyd y Cyhoedd a'r Boblogaeth
- Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio
- Proffesiynau Perthynol i Iechyd
- Y Gwyddorau Meddygol a Bywyd

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Proffil Myfyriwr
gweler y dudalen nesaf

# Hanna Thomas

PhD Seicoleg



Ar hyn o bryd rwy'n fyfyrwraig PhD ac yn gyd-gyfarwyddwr y Grŵp Ymchwil Dementia yn yr Adran Seicoleg. Cefais gynnig y cyfle i wneud PhD, sydd wedi'i ariannu gan Brifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, pan oeddwn ar fin gorffen fy ngradd meistr ac roedd hi'n gyfle rhy dda i'w golli. Roedd pwnc y PhD, sef dwyieithrwydd Cymraeg Saesneg yng nghyd-destun heneiddio a dementia, wedi bod o ddiddordeb i mi erioed ac wedi bod yn amlwg trwy gydol fy ngyrfa academaidd. Rwyf hefyd yn eiriolwr cryf dros hawliau unigolion Cymraeg yng nghyd – destun darparu gwasanaethau gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y PhD yma yn gyfle i mi gael effaith uniongyrchol ar ymarfer clinigol yng Nghymru ac ateb gofynion nifer o bobl Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae fy ngwaith ymchwil yn edrych ar sut mae dwyieithrwydd yn effeithio ar brosesu gwybyddol wrth i ni heneiddio. Mae prif astudiaeth y PhD yn ceisio dilysu asesiadau clinigol niwroseicolegol yn Gymraeg fel y gall siaradwyr Cymraeg sy'n byw â chlefyd Alzheimer gael mynediad at asesiadau Cymraeg yn y dyfodol.

Astudiais fy ngradd israddedig a gradd meistr ym Mhrifysgol Abertawe. Graddiais gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn BSc Seicoleg yn 2017, a chefais ragoriaeth yn fy ngradd MSc Seicoleg Annormal a Chlinigol yn 2018. Penderfynais ddychwelyd i gwblhau PhD oherwydd faint wnes i fwynhau yn Abertawe trwy gydol fy ngraddau blaenorol. Roedd y staff academaidd bob tro yn barod i helpu ac roeddwn yn hyderus y buaswn yn medru cwblhau PhD i'r safon orau bosib o ganlyniad i hynny.

Un o'r rhesymau yr oeddwn yn awyddus i geisio am Ysgoloriaeth Ymchwil y Coleg Cymraeg oedd i gyfrannu at y rhwydwaith o ymchwilwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r gallu i gynnal ymchwil ac ymdrin â syniadau cymhleth yn ddwyieithog yn fantais fawr wrth chwilio am swydd.

Mae Prifysgol Abertawe yn lle arbennig i astudio. Rwy'n dal i fod yma ar ôl saith mlynedd, dyna'r cyfan sydd angen ei ddweud.

"Rwyf hefyd yn eiriolwr cryf dros hawliau unigolion Cymraeg yng nghyd-destun darparu gwasanaethau gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y PhD yma yn gyfle i mi gael effaith uniongyrchol ar ymarfer clinigol yng Nghymru ac ateb gofynion nifer o bobl Gymraeg."

# TAR – CYNRADD

## CAMPWS SINGLETON

YSTYRIR BOD **81%** YMCHWIL MEWN ADDYSG, CYMDEITHASEG & PHOLISI CYMDEITHASOL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Cynradd gyda SAC PGCert** (All)

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym ni'n ymrwymedig i ddarparu rhaglen TAR cynradd ymarferol ac arloesol.

Ein nod yw rhoi'r hyder, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnat i ysbrydoli ac ysgogi cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein darpariaeth sydd wedi'i chynllunio'n ofalus yn cydbwyso damcaniaeth sy'n ennyn diddordeb ac sydd wedi'i llywio gan dystiolaeth, â gweithgareddau ymarferol. Bydd hyn yn sicrhau dy fod yn meithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol gadarn o sut mae plant yn dysgu, ynghyd â'r sgiliau a'r wybodaeth i'w helpu i ddatblygu. Byddwn yn dy gefnogi bob cam o'r ffordd, wrth i ti ddysgu sut i gynllunio, addysgu, a myfyrio ar gyfleoedd dysgu effeithiol ar draws y cwricwlwm cynradd.

Mae ein rhaglen unigryw yn cael ei haddysgu gan staff profiadol â diddordebau ymchwil amrywiol ac arbenigedd ym maes addysg gynradd. Hefyd, mae gennym gysylltiadau cryf ag ysgolion a sefydliadau addysgol sy'n cynnig cyfleoedd lleoliad gwaith gwerthfawr.

Rydym yn edrych ymlaen at gwrdd â thi!

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Sesiynau prifysgol o safon uchel, gan roi amser i ddatblygu a myfyrio ar natur addysgu mewn ysgolion cynradd.
- Dau leoliad addysgu mewn ysgolion partneriaeth amrywiol a ddewiswyd yn ofalus.
- Profiad o addysgu ar draws y cyfnod cynradd cyn dewis arbenigo mewn cyd-destunau Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 neu Bob Oedran.
- Cyfleoedd i ymgymryd â phrofiad amgen byr mewn lleoliadau fel ysgolion Anghenion Arbennig neu ganolfannau addysgol.
- Cymorth personol gan diwtor profiadol iawn sy'n rhannu dy frwdfrydedd dros addysgu cynradd.
- Mentoriaid cefnogol yn yr ysgol i dy dywys drwy dy leoliadau ysgol.
- Trafodaeth wybodus a beirniadol am Gwricwlwm Cymru a chwricwla eraill. Archwilio cynnwys allweddol megis gwybodaeth am bynciau, llythrennedd, rhifedd, technoleg ddigidol, ymarfer cynhwysol, chwarae a dysgu yn yr awyr agored.

### PAM ABERTAWE?

- Mae ein Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Cynradd yn darparu mynediad i gyfoeth o brofiadau proffesiynol a ddarperir gan dîm partneriaeth brwdfrydig, profiadol ac effeithiol.
- Mae'r tîm yn weithgar ym maes ymchwil gyda chyfoeth o brofiad pwnc a phrofiad o gyfnodau, gyda llawer ohonynt yn arbenigwyr ym maes addysg a gydnabyddir yn rhyngwladol.
- Caiff ein rhaglen gynradd ei llywio gan yr ymchwil addysgol a'r arloesedd diweddaraf.
- Mae'r rhaglen yn elwa o gyfleusterau rhagorol yn y brifysgol megis amgueddfa ar y safle, darpariaeth awyr agored a chyfleusterau addysgu pwrpasol, yn ogystal â chynnig lleoliadau gwaith mewn ysgolion partneriaeth a ddewiswyd yn ofalus.
- Gyda charfanau bach a chymorth wedi'i deilwra (gan gynnwys Timau Cymorth i Fyfyrwyr, Cyflogadwyedd a Lleoliadau Gwaith) byddi di'n dod yn rhan o gymuned ddysgu gydlynol, flaengar, gynhwysol a chefnogol.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Addysg, MA/PGCert/PGDip
- Doethur mewn Addysg, EdD


### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

**Proffil Myfyriwr** gweler y dudalen nesaf



# Megan Colbourne

TAR Cynradd

Roeddwn i'n awyddus i ddilyn cwrs i fod yn athrawes gynradd. Y gallu i ehangu dealltwriaeth disgyblion a'u helpu i feithrin sgiliau ar gyfer eu taith addysgol sy'n fy nenu at addysg. Mae teimlad cartrefol a chyfeillgar i'r Brifysgol ac rydw i bob amser wedi cael y cymorth sydd ei angen arnaf. Rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i gwblhau'r cwrs TAR drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw fy iaith gyntaf a gan fy mod wedi derbyn fy holl addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd y gallu i barhau i astudio trwy'r Gymraeg yn hanfodol.

Y prif beth dw i wedi mwynhau yw gallu mynd ar leoliad gwaith er mwyn ehangu fy mhrofiadau a fy hyder o fewn y dosbarth. Pan fo angen, mae cymorth wedi bod ar gael i mi er mwyn fy helpu ar draws y flwyddyn. Criw bach ohonom sydd wedi cwblhau'r cwrs TAR yn y Gymraeg felly rydym wedi dod yn agos iawn ac mae hyn wedi ein galluogi i helpu ein gilydd ar hyd y daith. Rydw i'n ffodus iawn fy mod wedi cael cynnig swydd mewn ysgol gynradd Gymraeg ar gyfer mis Medi ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ddechrau fy ngyrfa!

“Y prif beth dw i wedi mwynhau yw gallu mynd ar leoliad gwaith er mwyn ehangu fy mhrofiadau a fy hyder o fewn y dosbarth.”

# TAR – UWCHRADD

## CAMPWS SINGLETON

YSTYRIR BOD **81%** YMCHWIL MEWN ADDYSG, CYMDEITHASEG & PHOLISI CYMDEITHASOL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021)

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **TAR Uwchradd gyda SAC: Bioleg PGCert** ALl
- **TAR Uwchradd gyda SAC: Cemeg PGCert** ALl
- **TAR Uwchradd gyda SAC: Cyfrifiadureg PGCert** ALl
- **TAR Uwchradd gyda SAC: Cymraeg PGCert** ALl
- **TAR Uwchradd gyda SAC: Dylunio a Thechnoleg PGCert** ALl
- **TAR Uwchradd gyda SAC: Ffiseg PGCert** ALl
- **TAR Uwchradd gyda SAC: Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg, Sbaeneg) PGCert** ALl
- **TAR Uwchradd gyda SAC: Mathemateg PGCert** ALl
- **TAR Uwchradd gyda SAC: Saesneg PGCert** ALl

Mae ein rhaglen Tystysgrif Addysg i Raddedigion Uwchradd (TAR) wedi'i theilwra i dy helpu i ddod yn athro/athrawes effeithiol a myfyriol sy'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus yn yr ystafell ddosbarth.

Rydym yn dy annog i gymhwyso damcaniaeth ac ymchwil i dy ymarfer dysgu ac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu'r wybodaeth am bynciau, addysgeg ac ymchwil. Gyda'n harweiniad a'n cymorth ni, byddi di'n cyrraedd dy botensial llawn fel athro/athrawes ac yn gallu ymateb yn bwrpasol i anghenion amrywiol dy ddisgyblion. Ymuna â ni a dod yn rym cadarnhaol yn addysg pobl ifanc.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Rhaglen Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) integredig a thrylwyr Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe (PYPA) a fydd yn dy herio'n academaidd ac yn broffesiynol.
- Mae PYPA wedi ymrwymo i ddatblygu ymarferwyr myfyriol wedi'u llywio gan ymchwil a all ddangos creadigrwydd a hyblygrwydd yn eu haddysgu er mwyn i ddysgwyr ddatblygu eu cymhwysedd pwnc mewn amgylchedd sy'n meithrin mwynhad.

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn cynnig rhaglenni ôl-raddedig wedi'u llywio gan y diweddaraf o ran ymchwil ac arloesi.
- Bydd adnoddau hyfforddiant gwerthfawr ar gael i ti.
- Tîm Cyflogadwyedd a Lleoliadau Gwaith pwrpasol ar y safle yn benodol ar gyfer ein myfyrwyr, sy'n darparu awgrymiadau gyrfa, gweithdai a chyngor.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Addysg, MA/PGCert/PGDip
- Doethur mewn Addysg, EdD

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

This programme also has a **January start date available**

**Ysgoloriaethau Cymraeg** ar gael, gweler tudalen 50

**Proffil Myfyriwr gweler y dudalen nesaf**



# Dafydd Prys Roberts

TAR Ffiseg

Mae astudio'r cwrs TAR ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn brofiad hwylus iawn! Roeddwn yn benderfynol o wneud fy TAR trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan Brifysgol Abertawe enw da ac adnoddau safon uchel megis labordai gwyddoniaeth modern. Er fy mod i wedi bod allan o addysg Gymraeg ers pedair blynedd cyn dychwelyd i Gymru i wneud y TAR, roeddwn i'n fawr o dro yn dod i afael yn yr iaith unwaith eto. Mae'r cwrs yn un hyblyg iawn yn nhermau'r Gymraeg, nid yn unig wrth ddewis gwneud dy waith fel y Pasbort Dysgu Proffesiynol a Thraethodau trwy'r Gymraeg, ond hefyd am leoliadau – gan fod rhai ysgolion yn ddwyieithog (yn enwedig CA4/Lefel A) ac eraill yn unieithog, sy'n rhoi cyfle i feithrin hyder yn dy Gymraeg wrth barhau i ddysgu trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Derbyniais swydd ym mis Rhagfyr, sy'n dangos yr angen dirfawr am athrawon gwyddoniaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. O'r chwe gwyddonydd Cymraeg TAR yn Abertawe cafodd pob un ohonom swydd erbyn mis Mai, tra bod nifer mawr o swyddi'n dal i gael eu hysbysebu hyd at wyliau'r haf. Diwrnod ar ôl cwblhau'r cwrs TAR, roeddwn i'n gwneud gwaith cyflenwi cyn y gwyliau haf yn yr ysgol y byddaf yn gweithio ynddi fis Medi. Roedd yn gyfle i mi ddod i 'nabod yr ysgol, plant a'r staff cyn mis Medi.

Roeddwn i ychydig yn amheus am ymuno ag addysg ond fel llawer o bobl, pandemig COVID-19 wthiodd fi i wneud y naid i faes dysgu, ac un o'r ffactorau mwyaf deniadol o ddysgu oedd diogelwch swydd a'r hyblygrwydd i ddysgu bron unrhyw le. Mae hwn, ynghyd â'r cymhelliant ar gyfer dysgu gwyddoniaeth yn meddwl bod gen i gyfle i fyw yn agos at fy nheulu, prynu tŷ a sicrhau fy nyfodol. Roeddwn yn ffodus i dderbyn cefnogaeth ariannol drwy'r Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth a Chymhelliant Iaith Athrawon Yfory.

> "Mae astudio'r cwrs TAR ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn brofiad hwylus iawn! Roeddwn yn benderfynol o wneud fy TAR trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan Brifysgol Abertawe enw da ac adnoddau safon uchel megis labordai gwyddoniaeth modern."

# TROSEDDEG
## CAMPWS SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- **Troseddeg PhD/MPhil** ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Cyfiawnder Troseddol Cymhwysol a Throseddeg MA** ALl RhA
- **Dulliau Ymchwil Cymdeithasol MSc** ALl RhA
- **Seiberdroseddu a Therfysgaeth MA** ALl RhA

Mae'r Adran Droseddeg, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol yn gartref i gymuned academaidd ac ymchwil fywiog, gan ddatblygu'n barhaus i sicrhau bod ein graddedigion yn gallu ymateb i'r heriau a achosir gan dirweddau troseddeg a chyfiawnder troseddol sy'n newid yn barhaus.

Byddi di'n dysgu am achosion troseddu, y system cyfiawnder troseddol a themâu blaengar eraill, gyda chefnogaeth academyddion sydd â phrofiad yn y byd go iawn. Mae ein hymchwil yn mynd i'r afael â heriau cymdeithasol mawr, gan archwilio'r effaith ar bolisi troseddu a chyfiawnder troseddol.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae siaradwyr gwadd yn cynnwys uwch-ymarferwyr cyfiawnder troseddol, rheolwyr, a llunwyr polisi.
- Mae ein grwpiau darlithoedd bach yn rhoi cyfle i ti leisio dy farn a rhannu syniadau.
- Gelli di ymuno â digwyddiadau cymdeithasol a drefnir gan y Gymdeithas Droseddeg dan arweiniad myfyrwyr.
- Cymorth cyflogadwyedd eithriadol, gydag ystod o fentrau a chysylltiadau â chyflogwyr allweddol.
- Y cyfle i weithio gydag academyddion sy'n ymchwilio'n weithredol. Gall hyn gynnwys cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil byw.

**50 UCHAF YN Y DU YMCHWIL**
(The Times Good University Guide 2023)

### PAM ABERTAWE?

- Byddi di'n ymuno ag adran o'r radd flaenaf.
- Rydym yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu â sefydliadau partner a grwpiau a phrosiectau ymchwil.
- Byddi di'n dysgu am y datblygiadau rhyngwladol diweddaraf mewn ymchwil i droseddeg a chyfiawnder troseddol.
- Rydym yn darparu cymorth personol, academaidd a chyflogadwyedd rhagorol i ti drwy gydol dy radd.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Proffil Myfyriwr
gweler y dudalen nesaf



# Aaron Brown

PhD Troseddeg

Mae fy nghyfnod fel myfyriwr ôl-raddedig yn yr Adran Droseddeg, ar lefel MA a PhD wedi bod yn werth chweil ac yn bleserus. Mae arbenigedd academaidd y staff yn ogystal â lefel y gefnogaeth y maen nhw'n ei dangos tuag at fyfyrwyr ôl-raddedig wedi cael argraff arnaf wrth gynnal fy ymchwil.

Mae fy ngoruchwylwyr yn ogystal â staff ehangach yr adran yn hawdd mynd atynt, yn hael gyda'u hamser a bob amser yn barod i rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Rwyf hefyd wedi elwa'n fawr ar yr ystod eang o brofiadau sydd ar gael ar lefel ôl-raddedig, gan gynnwys cynllunio ac addysgu seminarau, yn ogystal â'r cyfleoedd amrywiol i fynd i gynadleddau a chyflwyno ynddynt.

Rwyf hefyd wedi elwa'n fawr ar yr ystod eang o brofiadau sydd ar gael ar lefel ôl-raddedig, gan gynnwys cynllunio ac addysgu seminarau, yn ogystal â'r cyfleoedd amrywiol i fynd i gynadleddau a chyflwyno ynddynt.

Ni allaf argymell astudio ôl-raddedig yn yr Adran Droseddeg yn fwy! Yn sicr fyddi di ddim yn difaru gwneud cais!

> “Ni allaf argymell astudio ôl-raddedig yn yr Adran Droseddeg yn fwy! Yn sicr fyddi di ddim yn difaru gwneud cais!”

# TWRISTIAETH
## CAMPWS Y BAE

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- **Rheoli Twristiaeth Ryngwladol MSc** AU RhA

Ymuna â'n rhaglen MSc mewn Rheoli Twristiaeth Ryngwladol a byddi di'n rhan o gymuned sy'n rhannu gwerthoedd Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Gyda ffocws ar fusnes, rheoli, a'r gwyddorau cymdeithasol, byddi di'n ennill mewnwelediadau a sgiliau i werthuso'n feirniadol ddyfodol twristiaeth yn y DU a ledled y byd. Mae ein rhaglen yn pwysleisio twristiaeth gyfrifol, gan dy baratoi i eiriol dros arferion twristiaeth gynaliadwy ar bob lefel. Byddi di'n barod i gael effaith gadarnhaol yn y diwydiant twristiaeth, gan wneud gwahaniaeth mewn cymunedau lleol a hyrwyddo twristiaeth gyfrifol ledled y byd.

### YR HYN Y GELLI DI EI DDISGWYL

- Cyfle i gael profiad o gyrchfannau sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg drwy gyfres o ymweliadau maes.
- Cei di elwa o ystafell ddosbarth fwy personol, sy'n rhoi cyfle i academyddion addysgu gynnig cymorth pwrpasol ac yn cynnal cymhareb ragorol rhwng myfyrwyr a staff cymorth.
- Cei di dy addysgu gan academyddion arbenigol sy'n gwneud ymchwil arloesol yn y diwydiant twristiaeth.
- Mannau addysgu ac ystafelloedd astudio dynodedig a chyfleusterau TG helaeth, i gyd ar gael ar Gampws y Bae arloesol.

YN Y SAFLE

**151-160**

**RHEOLI LLETYGARWCH & HAMDDEN**

(Tablau Prifysgolion y Byd QS fesul Pwnc 2023

### PAM ABERTAWE?

- Addysgir ein graddau ôl-raddedig gan ein hacademyddion o'r radd flaenaf sydd â gwybodaeth broffesiynol ac academaidd mewn agweddau allweddol ar fusnes a rheoli.
- Cyngor personol a phwrpasol diderfyn ar yrfaoedd gan ein tîm cyflogadwyedd ymroddedig o arbenigwyr a chynghorwyr gyrfaoedd.
- Byddi di'n astudio yn adeilad yr Ysgol Reolaeth y buddsoddwyd £22 miliwn ynddo.
- Hanes ardderchog wrth helpu ein myfyrwyr i gael swyddi gwerthfawr mewn sefydliadau o bob maint, o fusnesau bach i gorfforaethau mawr, yn lleol ac yn fyd-eang.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gweinyddu Busnes, MBA
- Marchnata Strategol, MSc
- Rheoli Adnoddau Dynol, MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

# Cyrsiau newydd

## YN DOD YN FUAN

**GWYDDOR BIOFEDDYGOL (GENETEG GLINIGOL), MSc/PGDip**
**GWYDDOR BIOFEDDYGOL (PATHOLEG CELLOEDD A MOLECIWLAIDD), MSc/PGDip**
**GWYDDOR BIOFEDDYGOL (YMARFER PROFFESIYNOL), MSc/PGDip**
**GWYDDORAU BIOFEDDYGOL CYMHWYSOL, PGCert**
**RHEOLAETH UWCH (ARLOESEDD CYMHWYSOL), PGCert**
**RHEOLAETH UWCH (SYSTEMAU CYMHLETH), MSc/PGDip/PGCert**
**SEICOLEG CHWARAEON, MSc**

**DARGANFYDDA FWY**

abertawe.ac.uk/ol-raddedig/addysgir/cyrsiauol-raddedigaddysgiryndodynfuan



# *Cadw* MEWN CYSYLLTIAD

Mae Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe yn sicrhau y gelli gadw cysylltiad agos â'r Brifysgol ymhell ar ôl i sŵn y cymeradwyo yn dy seremoni raddio bylu.

Mae ein holl raddedigion yn dod yn aelodau oes yn awtomatig o'r Gymdeithas, cymuned gynnes a chroesawgar o raddedigion sy'n cael eu huno gan eu profiad o astudio yn Abertawe.

Mae gan Rwydwaith y Cyn-fyfyrwyr fwy na 205,000 o aelodau a byddi di'n dod o hyd i gyn-fyfyrwyr sy'n gweithio ar bob lefel mewn diwydiant, masnach, chwaraeon, a'r sector cyhoeddus.

Mae rhai yn arwain adrannau cwmnïau rhyngwladol, ond mae eraill yr un mor debygol o reoli'r busnesau llai a mentrus sy'n ysgogi'r economi, neu'n darparu gofal iechyd mewn ysbytai, neu'n addysgu mewn ysgolion.

Y mae hefyd cymuned gynyddol fawr o gyn-fyfyrwyr rhyngwladol, sy'n golygu y byddi di'n dod o hyd i gyfeillion a chydweithwyr o'r un anian lle bynnag ei di yn y byd. Gwna'r gorau o'r rhwydwaith hwn. Pwy a ŵyr pa ddrysau allai agor i ti yn y DU neu dramor o ganlyniad i'r perthnasoedd a grëwyd trwy fod yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Abertawe.

**Darganfydda fwy:**

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr**

**WYT TI'N GYN-FYFYRIWR PRIFYSGOL ABERTAWE?**

Mae ein cyn-fyfyrwyr yn helpu i lunio a mireinio ein cyrsiau ac mae dy adborth yn bwysig i ni. Darganfydda fwy a chymryd rhan yn yr arolwg Canlyniadau Graddedigion cenedlaethol a chadwa dy fanylion cyswllt yn gyfredol yma:

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/graddedigion-newydd/hynt-graddedigion**

## Mae ein cyn-fyfyrwyr yn cynnwys:

- **Alun-Wyn Jones**, capten rhyngwladol Cymru a'r Llewod
- **Andy Hopper CBE FRS**, Cyd-sefydlydd Acorn Computers Ltd
- **Annabelle Apsion**, Actores
- **Anne Boden**, Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd Banc Starling
- **Carol Robinson**, Llywydd y Gymdeithas Cemeg Frenhinol
- **Christina Macfarlane**, Cysylltwr Chwaraeon a Newyddion ar gyfer CNN Rhyngwladol
- **Jason Mohammad**, Cyflwynydd Teledu
- **John Maidens**, Awdur/Cyfarwyddwr, Holby City, Casualty, Doctors
- **Lana Haddad**, COO Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol
- **Liam Dutton**, Cyflwynydd y Tywydd ar Channel 4
- **Liz Johnson**, Nofiwr ac enillydd Medal Aur yn y Gemau Paralympaidd
- **Dr Lyn Evans CBE**, Arweinydd Prosiect, Large Hadron Collider, CERN
- **Richey Edwards and Nicky Wire**, Cerddorion, Manic Street Preachers
- **Syr Terry Matthews OBE**, biliwnydd cyntaf Cymru
- **Sylvia Heal MP**, Dirprwy Siaradwr Tŷ'r Cyffredin (2000-10)

**DILYN NI:** abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr | @Swansea_Alumni | SwansAlumni | Prifysgol Abertawe Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr

# SUT I *Wneud Cais*

Mae ein ffurflen gais ar-lein yn caniatáu i ti olrhain dy gais yn ystod pob cam o'r broses.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/sut-i-wneud-cais**

Pan fyddwn yn derbyn dy gais, byddwn yn:

- Sicrhau dy fod yn bodloni ein gofynion mynediad academaidd a'n gofynion anacademaidd (os yw'n briodol)
- Cadarnhau dy fod yn meddu ar y profiad a'r sgiliau sydd eu hangen i astudio'r pwnc
- Edrych am dystiolaeth o dy ymrwymiad a dy gymhelliant a dy gyflawniadau
- Ystyried dy eirdaon

## CEISIADAU AM RADD MEISTR A ADDYSGIR

Unwaith y byddwn wedi derbyn yr holl ddogfennaeth ategol angenrheidiol, byddwn yn anelu at dy hysbysu o'n penderfyniad (neu anfon gwahoddiad i ti ddod am gyfweliad) o fewn 9 diwrnod gwaith o'r dyddiad y byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn dy gais.

## CEISIADAU AM GYRSIAU GRADD YMCHWIL

Er mwyn sicrhau bod digon o amser i staff academaidd ystyried dy gais, a bodloni amodau cynnig posib yn ogystal â gofynion teithio/adleoli, rydym yn argymell y caiff ceisiadau eu gwneud cyn y dyddiadau a amlinellwyd isod.

Sylwer ei bod hi'n bosib gwneud cais y tu hwnt i'r dyddiadau a awgrymwyd isod ond ei bod hi'n bosib y bydd angen symud dy gais/cynnig posib i'r ffenestr dderbyn briodol nesaf.

### Cofrestru ym mis Hydref

- Ymgeiswyr o'r DU – **15 Awst**

### Cofrestru ym mis Ionawr

- Ymgeiswyr o'r DU – **15 Tachwedd**

### Cofrestru ym mis Ebrill

- Ymgeiswyr o'r DU – **15 Chwefror**

### Cofrestru ym mis Gorffennaf

- Ymgeiswyr o'r DU – **15 Mai**

## CYFWELIADAU

Ni fydd angen cynnal cyfweliad fel rhan o'r broses ddethol ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni. Os bydd angen cynnal cyfweliad, cei dy hysbysu o ddiben a fformat y cyfweliad er mwyn i ti wybod beth i'w ddisgwyl a pha ran y mae'r cyfweliad yn ei chwarae yn y broses ddethol gyffredinol. Mae rhai rhaglenni (er enghraifft, MA mewn Ysgrifennu Creadigol) yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwaith ysgrifenedig ychwanegol i ategu cais.

Ar ôl ystyried dy gais, cei wybod y canlynol:

- Ein bod yn bwriadu cynnig lle i ti
- Ein bod yn bwriadu dy wahodd am gyfweliad
- Ni allwn gynnig lle i ti

Byddi di naill ai'n derbyn cynnig amodol neu gynnig diamod gennym, neu byddwn yn rhoi gwybod i ti na allwn gynnig lle i ti. Byddwn yn dy hysbysu o'n penderfyniad drwy neges e-bost.

Noder mai dim ond Swyddfa Dderbyn y Brifysgol sy'n gwneud cynigion ffurfiol, yn dilyn argymhellion gan yr adran academaidd berthnasol. Bydd dy lythyr cynnig yn cynnwys manylion llawn telerau ac amodau'r cynnig. Os wyt yn gwneud cais i astudio'n llawn amser, byddi di hefyd yn cael manylion sut i wneud cais am lety'r Brifysgol.

Os oes gen ti anabledd, cyflwr meddygol neu anhawster dysgu penodol, fe'th wahoddir i gysylltu â Swyddfa Anabledd y Brifysgol neu'r Gwasanaeth Lles fel y gallwn fod yn siŵr ein bod yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i ti drwy gydol dy astudiaethau.

Ar ôl derbyn ein cynnig, os na fyddi di'n bodloni union amodau ein cynnig, mae'n bosibl y caiff dy gais ei ailystyried gan ddibynnu ar y lleoedd gwag sydd ar gael, ac mae'n bosibl y caiff dy le ei gadarnhau o hyd.

Os na fydd dy gais yn llwyddiannus, a dy fod o'r farn ein bod wedi gwneud camgymeriad, gelli ofyn i ni ailystyried dy gais. Cysyllta â'r Swyddfa Dderbyn am ragor o fanylion.

### PROSES ANSAFONOL AR GYFER GWNEUD CAIS

Mae gan rai rhaglenni proses cyflwyno cais wahanol. Cer i'r wefan i dderbyn gwybodaeth am y broses cyflwyno cais ar gyfer dy raglen ti:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/sut-i-wneud-cais/proses-gwneud-cais**

### BETH SYDD EI ANGEN ARNAT?

Er mwyn astudio rhaglen ôl-raddedig yn Abertawe, fel arfer bydd angen gradd anrhydedd neu gymhwyster ôl-raddedig priodol arnat. Mae'n bosibl y caiff profiad gwaith perthnasol hefyd ei ystyried er mwyn cael dy dderbyn i raglenni gradd a addysgir. Gweler manylion y rhaglen am ofynion mynediad manwl.

### DYDDIADAU A DYDDIADAU CAU

Mae gan rai o'n hadrannau ddyddiadau cau sefydlog ar gyfer eu rhaglenni a addysgir. Rydym ni'n argymell dy fod yn cyflwyno dy geisiadau am radd Meistr a addysgir cyn gynted â phosibl oherwydd y gellir dwyn ymlaen y dyddiadau cau hyn mewn rhai achosion oherwydd poblogrwydd rhai o'n cyrsiau. Sylwer ar derfynau amser ysgoloriaethau gan fod llawer o'n hysgoloriaethau a'n bwrsariaethau a addysgir yn cau yn gynharach na'r dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau.

Gweler ein gwefan am y dyddiadau perthnasol:

**abertawe.ac.uk/astudio/derbyn-myfyrwyr/dyddiadau-cau-ymgeisio**

### COFRESTRU

Caiff gwybodaeth am y broses gofrestru ei hanfon atat cyn i ti ddechrau astudio. Fel arfer, cynhelir y broses gofrestru ar gyfer rhaglenni a addysgir ddechrau mis Medi ar gyfer mynediad ym mis Medi ac ar ddechrau mis Ionawr ar gyfer mynediad ym mis Ionawr.

Noder ei bod yn ofynnol i bob myfyriwr gydymffurfio â gweithdrefnau cofrestru'r Brifysgol a pharchu Rheoliadau Cyffredinol ac Academaidd y Brifysgol – gweler:

**myuni.abertawe.ac.uk/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd**

### EIN POLISI DERBYN

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau ac ymholiadau gan bob unigolyn ni waeth beth fo'i oedran, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, credoau crefyddol neu wleidyddol, rhywedd, dewisiadau rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, ac anabledd corfforol neu synhwyraidd, onid yw'r gweithgareddau hyn yn anghyfreithlon neu'n mynd yn groes i bolisi'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn trin pob ymgeisydd yn ôl ei rinweddau unigol ac yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr ag amrywiaeth o gymwysterau a phrofiad gwaith.

Gellir cael y manylion llawn am ein polisïau yma:

**abertawe.ac.uk/astudio/derbyn-myfyrwyr/polisi-derbyn**

## DIWRNODAU AGORED

Darganfydda fwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni Ôl-raddedig trwy archebu lle ar un o'n diwrnodau agored sydd ar ddod*.

### CADWA DY LE HEDDIW:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**

*edrycha ar ein gwefan i gael manylion llawn, dyddiadau a fformat y diwrnodau agored sydd ar ddod.

# Gradd wedi'i Haddysgu

## LLINELL AMSER Y CAIS

P'un a yw dy gwrs yn dechrau ym mis Medi neu ym mis Ionawr, mae'n syniad da i ti ddechrau meddwl am opsiynau astudio ôl-raddedig o leiaf chwe mis cyn i'r cwrs ddechrau.

01



### DECHRAU CYNLLUNIO

Wyt ti am barhau i astudio dy bwnc presennol neu astudio mewn maes hollol wahanol? Byddai'n syniad da meddwl hefyd beth fyddai orau i ti – gradd wedi'i haddysgu neu radd ymchwil. Mae'n syniad da cysylltu â dy ganolwyr a pharatoi datganiad personol cyn dechrau dy gais.

Bydd ein nosweithiau agored ôl-raddedig yn rhoi cyfle i ti archwilio dy holl opsiynau ar ein campysau sydd ger y traeth.

**Darganfydda fwy:**

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**

02

### GWNA GAIS A DERBYN DY GYNNIG

Gelli wneud cais yn uniongyrchol i Brifysgol Abertawe ar gyfer y rhan fwyaf o'n cyrsiau ôl-raddedig (gyda rhai eithriadau). Fel arfer, byddi di'n clywed a ydym wedi cynnig lle i ti astudio ar y cwrs neu'r cyrsiau rwyt wedi'u dewis o fewn 9 diwrnod gwaith.

Gelli wneud cais erbyn diwedd mis Gorffennaf (ar gyfer mynediad ym mis Medi) ac ar ddiwedd mis Hydref (ar gyfer mynediad ym mis Ionawr) fan bellaf. Paid â'i adael yn rhy hwyr oherwydd y gelli golli cyfleoedd am ysgoloriaethau.



03

### DERBYN DY GYNNIG

Rho wybod i ni o fewn 28 diwrnod i sicrhau dy fod yn cael lle ar y cwrs o dy ddewis.



## 04



### GWNA GAIS AM GYLLID

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau ôl-raddedig ym mhob maes pwnc, yn ogystal â ffynonellau eraill o gyllid. Mae'r broses ymgeisio am gyllid myfyriwr yn agor ym mis Mai neu fis Mehefin fel arfer ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod.

## 05

### PARATOI

Efallai yr hoffet ddechrau ystyried ble rwyt ti am fyw pan fyddi di'n astudio gyda ni. Mae dewis eang o opsiynau llety hyblyg yn y Brifysgol a'r sector preifat ar gael yn Abertawe.





## 06 CANLYNIADAU

Os wyt yn sefyll arholiadau, byddi di'n derbyn y canlyniadau ac, ar yr amod dy fod yn bodloni telerau dy gynnig, caiff dy le i astudio ym Mhrifysgol Abertawe ei gadarnhau. Byddi di hefyd yn clywed a wyt wedi bod yn llwyddiannus os gwnaethost gais am ysgoloriaethau.

## 07

### COFRESTRU

Cyn i ti gyrraedd Abertawe, byddi di'n derbyn cyfarwyddiadau llawn am y broses gofrestru. Gwahoddir yr holl fyfyrwyr ôl-raddedig i ddod i ddigwyddiad sefydlu yn eu cyfadran hefyd – cyfle gwych i gwrdd â ffrindiau newydd!



# Gwneud Gais AM PhD?


Gelli gychwyn dy PhD ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Hydref, Ionawr, Ebrill neu Orffennaf. Rho 3 i 6 mis i dy hun i gynllunio ac ymchwilio cyn i ti gyflwyno dy gais.

Yn Abertawe, rydym yn cynnig dau brif fath o brosiect PhD:

- Y rhai sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw gan academydd (sy'n fwy cyffredin mewn pynciau gwyddoniaeth a pheirianneg)
- Y rhai rwyt ti'n eu dylunio dy hun

## Prosiectau a gynlluniwyd ymlaen llaw:

Bydd prosiect a gynlluniwyd ymlaen llaw yn aml yn rhan o waith ymchwil ehangach a wneir gan academydd neu grŵp ymchwil. Fel arfer bydd teitl a nodau ac amcanion penodol i'r mathau hyn o brosiectau, a byddi di fel rheol yn cael dy oruchwylio gan yr academydd a gynlluniodd y prosiect. Mae Prifysgol Abertawe yn hysbysebu nifer fawr o'r cyfleoedd hyn drwy gydol y flwyddyn academaidd ym mhob maes pwnc.



### CYLLID:

Mae ysgoloriaethau ymchwil yn Abertawe fel arfer yn cynnig cyllid ar gyfer cyfnod dy astudiaethau.

Mae benthyciadau PhD ar gael hefyd trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru.

### GWNEUD CAIS:

Mae gwneud cais am brosiect a gynlluniwyd ymlaen llaw yn syml – yr unig beth y bydd angen i ti ei wneud bydd dilyn y cyfarwyddiadau ar hysbyseb y prosiect.

Fel arfer bydd gan y rhain dyddiad cau penodol felly rho ddigon o amser i dy hun i gwblhau unrhyw waith papur a chasglu geirdaon os oes angen.

# Graddau PhD a hunangynlluniwyd:

Bydd angen ychydig mwy o ymdrech a meddwl i gychwyn ar PhD a hunangynlluniwyd, ond yn y bôn, dylet fod â thema i dy brosiect sydd wirioneddol yn dy gyffroi ac o ddiddordeb i ti.

## CYSYLLTA Â DARPAR ORUCHWYLWYR:

Ar ôl creu syniad cychwynnol ar gyfer prosiect, bydd angen i ti ddod o hyd i oruchwyliwr academaidd priodol.

Man dechrau da yw dod o hyd i'r adran yn y Brifysgol sydd â'r meysydd cryf sydd fwyaf perthnasol i dy waith ymchwil. Gelli hefyd chwilio cyfeiriadur arbenigedd Prifysgol Abertawe ar-lein, siarad â dy oruchwyliwr presennol, cer i ffair astudio neu noswaith agored ôl-raddedig.

## CYLLID:

Ceir nifer o ffyrdd y gelli ariannu dy PhD, gan gynnwys benthyciadau sydd ar gael trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru.

**DARGANFYDDA FWY**

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu/benthyciadau-ol-raddedig**

## GWNEUD CAIS:

Ar ôl i ti adnabod darpar oruchwyliwr ar gyfer dy syniad ymchwil, bydd angen i ti gysylltu ag ef cyn cyflwyno cais ffurfiol. Mae academyddion yn croesawu ceisiadau anffurfiol gan ddarpar fyfyrwyr a byddant hefyd yn dy helpu ti i ffurfio dy gynnig ymchwil. Dylet ti gynnal dy ymchwil cyn i ti gyflwyno dy gais a threulio amser yn ei baratoi.

Pob lwc!



# MYNEGAI

## A

Addysg **65**
Addysg ar gyfer y Proffesiynau Iechyd **104, 121, 129**
Addysg Feddygol **95, 113, 121**
Addysg Glinigol **96, 113**
Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL) **103**
Almaeneg **105**
Arloesedd Ynni **117**
Arsylwi'r Ddaear **82**
Arweinyddiaeth a Rheoli Peirianneg **116**
Athroniaeth **92**
Astudiaethau America Ladin **105**
Astudiaethau Americanaidd **66**
Astudiaethau Canoloesol **67**
Astudiaethau Cydymaith Meddygol **113**
Astudiaethau Datblygu **92**
Astudiaethau Gofal Iechyd **121**
Astudiaethau Heneiddio **104, 121**
Astudiaethau Iechyd Cymunedol **88**
Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd **96, 104**
Astudiaethau Plentyndod **119**
Astudiaethau Trefol **82**
Astudiaethau'r Cyfryngau **77**
Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu **77**

## B

Bancio a Chyllid Rhyngwladol **75**
Bioleg Amgylcheddol **68**
Biowyddorau **68**
Busnes Digidol **123**
Busnes Rhyngwladol **123**
Bydwreigiaeth **121**

## C

Cadwraeth a Rheoli Adnoddau **68**
Canser a Genomeg **96**
Cemeg **70**
Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) **98**
Cyfathrebu, Arferion y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus **77**
Cyfathrebu a Newyddiaduraeth Chwaraeon **77**
Cyfiawnder Troseddol Cymhwysol a Throseddeg **135**
Cyfieithu **80, 103, 105**
Cyfieithu ac Addysgu Iaith Tsieinëeg-Saesneg **103**
Cyfieithu ar y Pryd **105**
Cyfieithu Llenyddol **105**
Cyfieithu Proffesiynol **80, 103**
Cyfraith ac Ymarfer Cyfreithiol (LLM) **98**
Cyfraith Fasnach Ryngwladol **100**
Cyfraith Fasnachol Ryngwladol **100**
Cyfraith Fasnachol a Morwrol Ryngwladol **100**
Cyfraith Forwrol Ryngwladol **100**
Cyfraith Hawliau Dynol **100**
Cyfraith Olew a Nwy ac Ynni Adnewyddadwy **100**
Cyfrifeg a Chyllid **73, 75**
Cyfrifeg a Chyllid Ryngwladol **73**
Cyfrifeg Broffesiynol **75**
Cyfrifeg Strategol **75**
Cyfrifiadura a Thechnolegau Rhyngweithio'r Dyfodol **76**
Cyfrifiadura Gweledol **76**
Cyfrifiadura Gweledol a Rhyngweithiol **76**
Cyfrifiadureg **76**
Cyfrifiadureg Ddamcaniaethol **76**
Cyfrifiadureg Uwch **76**
Cyfryngau, Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus **77**
Cyfryngau Daearyddol **82**
Cyfryngau Digidol **77**
Cyllid **73, 75**
Cyllid a Dadansoddeg Data Mawr **73**
Cyllid Cynaliadwy **75**
Cyllid Rhyngwladol **75**
Cymdeithas, Amgylchedd a Newid Byd-Eang **82**
Cymdeithaseg **78**
Cymraeg **80**
Cysylltiadau Rhyngwladol **92**

## CH

Chwarae Datblygiadol a Therapiwtig **119**

## D

Dadansoddeg Ariannol **75**
Dadansoddeg Busnes **123**
Daearyddiaeth **82**
Daearyddiaeth Ddynol **82**
Daearyddiaeth Ffisegol **82**
Damcaniaeth a Gofod Cymdeithasol **82**
Data Mawr a Deallusrwydd Artiffisial o Safbwynt Defnyddwyr **76**
Datblygu a Hawliau Dynol **92**
Datblygu Rhyngwladol **92**
Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd **82**
Dihalwyno ac Ailddefnyddio Dŵr **117**
Diogelwch a Datblygu Rhyngwladol **92**
Doethur mewn Addysg **65**
Doethur mewn Gweinyddu Busnes **91, 123, 127**
Doethuriaeth Peirianneg **115**
Dulliau Ymchwil Cymdeithasol **78, 135**
Dulliau Ymchwil mewn Seicoleg **129**
Dylunio Cynhyrchion ar sail Efelychu **117**
Dyniaethau Digidol **77**
Dyniaethau Iechyd **78**

## E

Ecoleg **68**
Economeg **85**
Economeg a Chyllid **85**
Economeg Iechyd **104**
Eiddo Deallusol ac Arloesi **100**
Eifftoleg **72**

## FF

Fferylliaeth **113**
Ffiseg **86**
Ffiseg Arbrofol **86**
Ffiseg a Delweddu Meddygol **96**
Ffiseg Ddamcaniaethol **86**
Ffiseg Gymhwysol a Deunyddiau **86**
Ffiseg Ymbelydredd Meddygol **95**
Ffrangeg **105**

## CH

Gerontoleg ac Astudiaethau Heneiddio **104, 121**
Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol **89**
Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy **121**
Gwleidyddiaeth **92**
Gweinyddu Busnes MBA **91**
Gwybodaeth Ddaearyddol a Newid yn yr Hinsawdd **82**
Gwybodeg Iechyd **104**
Gwyddor Actiwaraidd **111**
Gwyddor Biofeddygol **95**
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff **94**
Gwyddor Data **76**
Gwyddor Data'r Boblogaeth ac Iechyd **104**
Gwyddor Data Gymhwysol **111**
Gwyddor Data Iechyd **104**
Gwyddor Ddadansoddol Gymhwysol **96**
Gwyddor Glinigol (Ffiseg Feddygol) **95**
Gwyddor Perfformiad Chwaraeon Uwch **94**
Gwyddorau Biolegol **68**
Gwyddorau Iechyd **121**
Gwyddorau Meddygol a Bywyd **95, 96**

## H

Hanes **101**
Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth **102**
Hanes Modern **101**
Hanes yr Henfyd **72**
Hanes yr Henfyd a Diwylliant Clasurol **72**

## I

Iechyd a Lles **104, 121**
Iechyd y Cyhoedd a Hybu Iechyd **104**
Iechyd Meddwl **113, 121**
Ieithoedd Modern, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd **105**
Ieithyddiaeth Gymhwysol **103**

## LL

Llên Naratif yr Henfyd **72**
Llenyddiaeth Saesneg Cymru **107**
Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol **107**

## M

Marchnata **109**
Marchnata Strategol **109**
Mathemateg **111**
Mathemateg a Chyfrifiadureg ar gyfer Cyllid **111**

MBA Gweinyddu Busnes **91**
Mecaneg Gyfrifiadol **116**
Meddygaeth Gardiofasgwlaidd a Metobolig **113**
Meddygaeth Genomig **95**
Meddygaeth i Raddedigion **113**
Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio **113**
Menter ac Arloesi **123, 126**
Microbioleg ac Imiwnoleg **96**
Micro-synwyrddion a Micro-ysgogol **117**
Modelu Amgylcheddol Byd-eang **82**
Modelu Cyfrifiadurol mewn Peirianneg **117**

## N

Nanodechnoleg **117**
Nanoelectroneg **117**
Nanofeddygaeth **95, 96**
Newid yn yr Hinsawdd **82**
Newyddiaduraeth Ryngwladol **77**
Niwrowyddoniaeth Feddygol **95, 96, 129**
Niwrowyddoniaeth Wybyddol **129**
Nyrsio **88, 113, 121**
Nyrsio Gofal Critigol ar gyfer Oedolion **88, 113**
Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol **88**
Nyrsio Ymarfer Cyffredinol **88**

## P

Peirianneg **115, 116, 117**
Peirianneg Adeiladu **116**
Peirianneg Awyrofod **116, 117**
Peirianneg Bio-proses **117**
Peirianneg Biofeddygol **116, 117**
Peirianneg Bŵer ac Ynni Cynaliadwy **116**
Peirianneg Defnyddiau **116, 117**
Peirianneg Electronig a Thrydanol **116, 117**
Peirianneg Fecanyddol **116, 117**
Peirianneg Gemegol **116, 117**
Peirianneg Gyfrifiadurol **116**
Peirianneg Meinweoedd a Meddygaeth Atgynhyrchiol **117**
Peirianneg Sifil **116, 117**
Plant a Phobl Ifanc **119**
Polisi Cyhoeddus **92**
Polisi Cymdeithasol **78**
Polisi Iechyd **104**
Prosesau Stocastig: Damcaniaeth a Chymhwyso **111**

## R

Realiti Rhithwir **116**

## RH

Rhagnodi Anfeddygol **121**
Rheoli **123**
Rheoli Adnoddau Dynol **125**
Rheoli Ariannol **73**
Rheoli Ariannol Rhyngwladol **73**
Rheoli Buddsoddiadau **75**
Rheoli Busnes **123**
Rheoli Chwaraeon **123**
Rheoli (Cyfryngau) **123**
Rheoli Gofal Iechyd **104, 121**
Rheoli Gweithrediadau a Chyflenwi **123**
Rheoli Iechyd a Gofal Uwch **126, 127**
Rheoli Twristiaeth Ryngwladol **137**
Rhesymeg a Chyfrifiannu **76**
Rhewlifeg **82**
Rhyfel a Chymdeithas **128**
Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron **76**

## S

Sbaenig **105**
Sbaeneg **105**
Seiberddiogelwch **76**
Seiberdroseddu a Therfysgaeth **135**
Seicoleg a Niwrowyddoniaeth **129**
Seicoleg Chwaraeon **94**
Seicoleg Fforensig **129**
Seicoleg Glinigol ac Iechyd Meddwl **129**
Seicoleg Iechyd **121, 129**
Sgrinio/Llwyfannu Ewrop **77, 105**
Synhwyro o Bell Drôn Amgylcheddol **82**

## T

TAR **131, 133**
TechGyfreithiol a Chyfraith Fasnachol **100**
Technoleg Ariannol **75**
Technoleg Meddalwedd Uwch **76**
Technoleg Pilenni **117**
Technoleg Tanwydd **117**
Telathrebu **117**
Trallwyso Cydrannau Gwaed **121**
Tocsicoleg a Ffarmacoleg **96**
Troseddeg **135**
Twristiaeth **137**

## Y

Y Clasuron, Hanes yr Henfyd ac Eifftoleg **72**
Y Gyfraith **97, 98, 100**
Ymarfer Bydwreigiaeth Proffesiynol Uwch **121**
Ymarfer Clinigol Uwch (Gofal Sylfaenol) **88, 121**
Ymarfer Cyfreithiol a Drafftio Uwch **98**
Ymarfer Cyfreithiol Proffesiynol **98**
Ymarfer Diabetes **113, 121**
Ymarfer Gofal Iechyd **88, 121**
Ymarfer Gofal Iechyd Cymunedol a Sylfaenol **88, 121**
Ymarfer Proffesiynol Uwch **121**
Ymarfer Uwch mewn Gofal Iechyd **121**
Ymchwil mewn Addysg y Proffesiynau Iechyd **104, 121, 129**
Ymfudo Byd-eang **82**
Ysgrifennu Creadigol **107**

Mae'r neges ganlynol yn cynnwys gwybodaeth bwysig iawn. Cafodd y prosbectws hwn ei argraffu yn ystod haf 2023. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni ôl-raddedig y mae Prifysgol Abertawe yn bwriadu eu cynnig i fyfyrwyr sy'n bwriadu dechrau'r brifysgol ym mis Ionawr 2024 ac ym mis Medi 2024. Rydym wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn ddefnyddiol ac yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi.

Fodd bynnag, gall fod angen gwneud rhai newidiadau, er enghraifft i raglenni, lleoliadau astudio, cyfleoedd a chyrchfannau rhyngwladol, cyfleusterau neu ffioedd am resymau staffio, ariannol, rheoliadol ac academaidd dilys.

Pe bai gweithredu diwydiannol, ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y brifysgol neu Ddeddfwriaeth a/neu Ganllawiau gan y Llywodraeth yn ymyrryd â'i gallu presennol i ddarparu'r gwasanaethau (ar adeg cyhoeddi'r ddogfen), bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn lleihau lefel y tarfu ar y gwasanaethau. Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, rydym yn wynebu tirwedd sy'n newid yn barhaus a byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus/yn gyfnodol.

Ceisiwn wneud cyn lleied o newidiadau â phosibl bob amser a sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael gwybod amdanynt yn briodol. Caiff unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yn y prosbectws hwn eu diweddaru ar dudalennau'r cyrsiau ar-lein yn: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

Rydym ni'n annog myfyrwyr i ymweld â'n gwefan i wirio am wybodaeth sydd wedi'i diweddaru yn y prosbectws hwn cyn gwneud cais.

Mae fformatau amgen, gan gynnwys copi print bras ar gael ar gais, cysyllta â: **creativeservices@abertawe.ac.uk**

Cynhyrchwyd gan yr adran Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol, Prifysgol Abertawe

Dylunio: Icon Creative Design, IconCreativeDesign.com

**Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rhif.1138342 © Prifysgol Abertawe 2023**

**ALLWEDD**

ALl – Rhaglen llawn amser
RhA – Rhaglen rhan amser
DoB – Opsiwn Dysgu o Bell ar gael
ION – Mynediad ym mis Ionawr ar gael
– Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg ar gael gweler tudalen 50




## DIWRNODAU AGORED ÔL-RADDEDIG

Darganfydda fwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni Ôl-raddedig trwy gadw lle ar un o'n digwyddiadau diwrnod agored sydd ar ddod*.

Rydym yn cynnal diwrnodau agored ôl-raddedig rhithwir trwy gydol y flwyddyn academaidd.

*Cadwa dy le heddiw:*

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**

*edrych ar ein gwefan i gael manylion llawn, dyddiadau a fformat y diwrnodau agored sydd ar ddod.

## TAITH RITHWIR

Os nad wyt ti'n gallu mynychu mewn person, edrych ar:

**abertawe.ac.uk/rhith-daith**



## YMWELIADAU UNIGOL

Efallai y gelli drefnu ymweliad unigol i weld ein campysau a'n hadrannau academaidd. Am fwy o wybodaeth, cysyllta â:

**astudio@abertawe.ac.uk**

## UNIBUDDY

UNIBUDDY

Sgwrsia ag un o'n myfyrwyr ôl-raddedig cyfredol trwy ein sgwrs Unibuddy ar-lein:

**abertawe.ac.uk/astudio/bywyd-myfyriwr/sgwrsio-llysgennad**

**DILYN NI I DDARGANFOD MWY:** PrifysgolAbertawe Prif_Abertawe PrifAbertawe

ASTUDIO YN

# Abertawe

**AWR**
O GAERDYDD

**2 AWR**
O ABERYSTWYTH

**2 AWR**
O DDOC PENFRO

**4 AWR**
O WRECSAM

**4 AWR**
O FANGOR




Prifysgol Abertawe
Swansea University

abertawe.ac.uk/ol-raddedig
astudio@abertawe.ac.uk
+44 (0)1792 295358
#PrifAbertawe

**CADWA DY LE HEDDIW**

abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored

Mae'r prosbectws hwn wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ardystio gan Gyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) a gynhyrchwyd o ffynonellau cynaliadwy gan ddefnyddio inciau o fas llysiau. Mae unrhyw garbon ychwanegol o gynhyrchu'r cyhoeddiad yn cael ei gydbwyso ag Ymddiriedolaeth Tir y Byd.

FSC
www.fsc.org
MIX
Paper from responsible sources
FSC® C013417